headland design associates

# Amgueddfa Ceredigion
# Casgliad ar gyfer y Genedl:
# Astudiaeth Ddichonoldeb




AMION GEORGE + TOMOS

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

CYNNAL Y CARDI

Llywodraeth Cymru Welsh Government

# Amgueddfa Ceredigion
# Casgliad ar gyfer y Genedl: Astudiaeth Ddichonoldeb

## Cynnwys


## Crynodeb gweithredol

## Rhan Un: Y Sefyllfa Bresennol a'r Adolygiad

| | | |
|---|---|---|
| 1.1 | Cyflwyniad | 2 |
| 1.2 | Cefndir y prosiect | 3 |
| 1.3 | Y cyd-destun a'r amgylchedd lleol | 3 |
| 1.4 | Yr amgueddfa a'i chasgliad | 5 |
| 1.5 | Adolygiad o drefniadau cyfredol storio'r casgliad | 7 |
| 1.6 | Gwaith presennol o ran addysgu ac ymgysylltu â'r gymuned | 13 |
| 1.7 | Dogfennu'r casgliadau a mynediad digidol | 18 |
| 1.8 | Heriau a chyfleoedd | 21 |
| 1.9 | Nodau a disgwyliadau o ran gweledigaeth y prosiect ar gyfer yr amgueddfa | 22 |

## Rhan Dau: Datblygu Cyfleoedd

| | | |
|---|---|---|
| 2.1 | Adolygu'r casgliadau ac asesu eu harwyddocâd | 26 |
| 2.2 | Canlyniadau'r adolygiad o'r casgliadau – gwaith rheoli a defnydd | 31 |
| 2.3 | Ymgynghori ac ymgysylltu wrth ddatblygu'r prosiect hwn | 39 |
| 2.4 | Datblygu datganiad o arwyddocâd ar gyfer y casgliad o dŵls gwaith coed | 41 |
| 2.5 | Asesu cyfleoedd masnachol ar gyfer y prosiect | 56 |
| 2.6 | Adolygu cyfleusterau storio tebyg | 68 |
| 2.7 | Canfyddiadau allweddol y gwaith ymgynghori ac adolygu | 75 |

## Rhan Tri: Argymhellion a Methodolegau

| | | |
|---|---|---|
| 3.1 | Yr asesiad o'r opsiynau, yr argymhellion a'r costau | 78 |
| 3.2 | Methodolegau ar gyfer archwiliad llawn, adolygiad ac asesiad o arwyddocâd y casgliad | 85 |
| 3.3 | Argymhellion a methodolegau ar gyfer gwella gwaith dogfennu casgliadau a mynediad digidol | 94 |
| 3.4 | Argymhellion ar gyfer dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned | 103 |
| 3.5 | Strategaeth codi arian | 110 |
| 3.6 | Potentsial masnachol y prosiect | 114 |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| A | Canlyniadau'r Adolygiad o'r Casgliadau a'r trosolwg o'r defnydd a wneir o'r casgliadau |
| B | Cyfraniadau at y broses o Asesu Arwyddocâd |
| C | Cyfleusterau storio cymharol |
| D | Gridiau, ffurflenni a thempledi'r adolygiad/archwiliad o'r Casgliadau a'r asesiad o'u harwyddocâd |
| E | Cynllun costau'r adeilad storio |

# Rhan Un: Y Sefyllfa Bresennol a'r Adolygiad

## 1.1 Cyflwyniad

Penodwyd Headland Design gyda Phenseiri George+Tomos a Jasmijn Muller o Amion Consulting gan Gyngor Sir Ceredigion i gynnal astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer prosiect Casgliad ar gyfer y Genedl. Nod y prosiect hwn yw ei gwneud yn haws gweld a deall casgliadau Amgueddfa Ceredigion.

Bydd yr Adroddiad Dichonoldeb hwn yn dwyn ynghyd y gwaith ymchwil a'r canfyddiadau yn barod ar gyfer y prosiect Casgliad ar gyfer y Genedl. Bydd yn cyflwyno'r sefyllfa bresennol o ran gofal am y casgliadau, y ffordd y cânt eu rheoli a'r cyfle i'w gweld (yn cynnwys dulliau digidol). Bydd hefyd yn rhoi crynodeb o'r gwaith ymgynghori ac ymchwil ac yn treialu methodoleg ar gyfer archwilio'r casgliadau, eu hadolygu ac asesu eu harwyddocâd. Yn y rhan olaf, disgrifir yr opsiynau a gafodd eu hystyried a nodir yr opsiwn a ffefrir ar gyfer storio casgliadau'r amgueddfa o hyn ymlaen a'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau a dehongli yn ogystal â'r storfa newydd.

Bydd yr asesiad yn cynnig opsiynau ar gyfer:

- Gwella mynediad corfforol a digidol y cyhoedd at y casgliadau nad ydynt ar gael iddynt eu gweld ar hyn o bryd a gwella cyfleoedd iddynt ddeall y casgliadau
- Gwella cyfleoedd ar gyfer dysgu gydol oes ac ymgysylltu â'r gymuned e.e. trwy greu cyfleusterau dysgu, meithrin sgiliau treftadaeth a thargedu gweithgareddau i ymgysylltu â'r gymuned
- Cynnal archwiliad llawn ac asesiad o arwyddocâd y casgliadau a'r potensial i'w rhesymoli
- Rhoi gwell gofal i'r casgliadau er mwyn diogelu dyfodol treftadaeth Ceredigion a'i chyfraniad at lesiant cenedlaethau'r dyfodol
- Pennu manyleb ddyfeisgar, eco-gyfeillgar a chynaliadwy ar gyfer storfa newydd a fydd yn gostwng y costau cynnal a chadw a'r costau rhedeg ac yn gwella mynediad i'r cyhoedd.

Gwnaed y gwaith trwy:

- Gweithdy rhanddeiliaid
- Cyfarfodydd gyda staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa i drafod dulliau rheoli'r casgliadau a'r gwaith ymgysylltu sy'n digwydd
- Adolygu dogfennaeth a dulliau rheoli cyfredol casgliadau'r amgueddfa
- Cynllun peilot gydag offer trin coed er mwyn datblygu datganiad arwyddocâd a gweithgareddau
- Datblygu methodoleg ar gyfer adolygu'r casgliadau ac asesu eu harwyddocâd
- Adolygu mynediad digidol at y casgliadau
- Dadansoddi natur y casgliad a chyfleusterau storio cyfredol yr Amgueddfa
- Ymweliadau safle â chyfleusterau storio newydd mewn amgueddfeydd ac archifdai eraill.
- Datblygu Briff Cychwynnol y Cyfleuster Newydd
- Dadansoddi safleoedd presennol sydd ar gael ar gyfer y Cyfleuster ac asesu'r opsiynau
- Datblygu cynllun bras a chael syniad o gostau'r opsiwn a ffefrir i lefel Cam 1 RIBA.
- Asesu'r cyfleoedd masnachol
- Argymhellion ar gyfer prosiectau yn y dyfodol

## 1.2 Cefndir y prosiect

Yn 2013, dathlwyd 40 mlwyddiant Amgueddfa Ceredigion gyda rhaglen o ddigwyddiadau, trwy ymgynghori â'r gymuned a thrwy gynnal prosiect gwerthuso. Roedd yn gyfle i fawrhau gorffennol yr amgueddfa ac ystyried ei dyfodol. Cafwyd Astudiaeth Ddichonoldeb i asesu'r defnydd gorau i'w wneud o adeiladau'r Coliseum, Tŷ Lisburne a hen siop Boots. Arweiniodd hyn at gynllun meistr: Amgueddfa Ceredigion – Cynllun Trawsnewidiadau. Rhannwyd y cynllun yn dri cham er mwyn sicrhau bod y prosiect yn ymarferol o ran adnoddau staff ac er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r cyfleoedd ariannu.

Yn y cam cyntaf, a alwyd yn Dulliau Newydd, cafwyd arian o Gronfa Dreftadaeth y Loteri (HLF) i greu mynedfa newydd i'r amgueddfa, gyda Chanolfan Groeso newydd, siop a chaffi. Mae hyn wedi creu mynedfa newydd drawiadol ac wedi meithrin perthynas newydd gyda grwpiau cymunedol a chynulleidfaoedd newydd.

Casgliad ar gyfer y Genedl yw'r ail gam ac mae'n canolbwyntio ar greu adnoddau addysgol, cyfleoedd i ddysgu a storfa hygyrch. Bydd hefyd yn asesu arwyddocâd y casgliadau ac yn meithrin partneriaethau â grwpiau cymunedol a all ddatblygu sgiliau newydd ym maes dehongli a gofal am gasgliadau. Er mwyn datblygu rhagor o brosiectau ac arddangosfeydd, mae'n hollbwysig cael dealltwriaeth dda o'r casgliadau a'u potensial ar gyfer dysgu ac ysbrydoli cynulleidfaoedd. Yn ogystal, bydd y gwaith hwn yn sylfaen ar gyfer sicrhau eglurdeb ynghylch swyddogaeth Amgueddfa Ceredigion yn y Casgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar yng Nghymru. Bydd hwn yn ddarn pwysig o waith a fydd yn helpu i ddangos arwyddocâd casgliadau Amgueddfa Ceredigion y dywedodd John Marjoram y gellid eu cymharu o ran ansawdd ac arwyddocâd ag Amgueddfeydd Bangor a Chasnewydd (dau o'r casgliadau rhanbarthol gorau). Mae'r casgliadau wedi'u cofnodi'n dda ac mae'r 65,000 o eitemau wedi'u catalogio mewn cronfa ddata MODES sy'n fan cychwyn cadarn. Gan nad yw amodau storio'r casgliadau yn foddhaol, mae perygl i'r eitemau ddirywio. Mae hefyd yn anodd iawn cyrraedd at lawer ohonynt ac felly ni ellir eu defnyddio i'w llawn botensial. Nid yw costau storio'n gynaliadwy ac mae angen canfod ateb newydd.

## 1.3 Y cyd-destun a'r amgylchedd lleol

**Sir Ceredigion**

Cyngor Sir Ceredigion sy'n berchen ar Amgueddfa Ceredigion, yn nhref hanesyddol Aberystwyth, a nhw sy'n ei rheoli. Aber yw tref fwyaf y sir, yma y sefydlwyd prifysgol gyntaf Cymru ac mae'n dref lan môr boblogaidd.

Mae Ceredigion yn un o'r siroedd sy'n tyfu gyflymaf yng Nghymru – gwelodd gynnydd o 15% yn y boblogaeth ers 1981 o'i gymharu â thwf cyfartalog o 4% trwy Gymru i gyd. Prif ddiwydiannau'r sir yw: amaethyddiaeth, twristiaeth, cwmnïau cynhyrchu bwyd, manwerthu, ac ymchwil wyddonol. Mae i addysg le pwysig yng Ngheredigion, gyda dwy Brifysgol, Coleg Addysg Bellach, chwe ysgol uwchradd a 40 o ysgolion cynradd.

Disgrifir gweledigaeth ac amcanion y Cyngor Sir yn y Strategaeth Gorfforaethol (2017-2022) sy'n nodi ac yn esbonio prif feysydd blaenoriaeth y Cyngor dros y cyfnod nesaf o bum mlynedd. Mae polisïau a

blaenoriaethau cenedlaethol, y prosesau hunanwerthuso, gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid, yr Asesiad Llesiant Lleol ac amrywiaeth o ddigwyddiadau ymgynghori yn dylanwadu ar y meysydd blaenoriaeth.

Yn ogystal, mae'r Strategaeth yn cynnwys Amcanion Llesiant a Gwella 2018-19. Dyma'r pedair prif flaenoriaeth:

- Hybu'r Economi
- Buddsoddi yn Nyfodol Pobl
- Galluogi Cydnerthedd Unigolion a Theuluoedd
- Hyrwyddo Cydnerthedd Amgylcheddol a Chymunedol.

Gyda'r blaenoriaethau hyn, gellir darparu gwasanaethau a fydd yn sicrhau gwelliannau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol i drigolion Ceredigion. Mae pob blaenoriaeth yn cyfeirio at faterion y mae angen mynd i'r afael â nhw, pethau y mae angen eu cyflawni / gwella, y canlyniadau a ddymunir, sut y bydd yn gwneud gwahaniaeth a'r amcanion o ran llesiant.

"Gweledigaeth Cyngor Sir Ceredigion yw ceisio darparu gwasanaethau cyhoeddus cynaliadwy a dwyieithog sy'n rhoi gwerth am arian, yn cefnogi economi gref ac amgylchedd iach ac sydd hefyd yn hyrwyddo lles ein pobl a'n cymunedau."

Yng Nghynllun Gofodol Cymru (2008), nodwyd bod Aberystwyth yn anheddiad allweddol, ochr yn ochr â Chaerdydd, Casnewydd, Abertawe, Bangor a Wrecsam. Arweiniodd hyn at ymyrraeth benodol, yn enwedig trwy'r Ardal Adfywio sydd wedi denu buddsoddiad i'r rhanbarth a pharatoi Uwchgynllun ar gyfer Aberystwyth. Roedd hwn yn rhoi pwyslais ar greu promenâd bywiog, canol tref ffyniannus, darparu cartrefi o ansawdd da ar gyfer pobl yr ardal a gwella hygyrchedd. Sicrhawyd y Cynllun Gweithredu trwy bartneriaeth o bobl a sefydliadau lleol a chafodd grantiau i wella adeiladau yng nghanol y dref, i wella'r orsaf reilffordd, i greu llefydd newydd i barcio, Strategaeth ar gyfer Tir y Cyhoedd ac ymestyn yr amgueddfa (trwy'r prosiect Dulliau Newydd).

**Twristiaeth a diwylliant**

Mae twristiaeth ac atyniadau diwylliannol yn sectorau pwysig yng Ngheredigion ac mae Aberystwyth ei hunan yn gartref i Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chomisiwn Brenhinol Henebion Cymru ynghyd â sefydliadau rhanbarthol a lleol fel Canolfan y Celfyddydau, Canolfan Alun R. Edwards (llyfrgell ac archifdy'r sir), Cwmni Theatr Arad Goch a'r amgueddfa. Mae'r Brifysgol yn gweithio ar ddatblygiad newydd o bwys gan greu cyrchfan newydd yn yr Hen Goleg ar y prom. Mae'r prosiect wrous hwn wrthi'n ceisio cyllid gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i warchod yr adeilad rhestredig Gradd I a chreu cyfleusterau newydd ar gyfer gwyddoniaeth, treftadaeth a chelf ynghyd â chyfleusterau a llety o safon uchel.

Yn Amgueddfa Ceredigion, gwarchodir treftadaeth sir hanesyddol Ceredigion. Yn ogystal, mae'r gwasanaeth amgueddfaol yn gofalu am nifer o adeiladau hanesyddol ledled y sir ac yn cefnogi safleoedd hanesyddol eraill, canolfannau treftadaeth a grwpiau hanes lleol. Mae'r amgueddfa yn hen Theatr y Coliseum ger y prom yng nghanol y dref. Roedd y Coliseum yn theatr Edwardaidd drawiadol. Fe'i codwyd yn 1904 ac mae'n ddarn arwyddocaol o dreftadaeth y dref ac yn rhan bwysig o'ch ymweliad â'r amgueddfa. Mae'r amgueddfa'n gofalu am gasgliad o dros 65,000 o wrthrychau.

Cyfran fechan ohonynt sy'n cael eu harddangos ac mae'r casgliadau'n cael eu storio mewn tri man arall ac mewn 10 lle gwahanol yn adeilad y Coliseum.

**Amgueddfa Hapus**
Bu'r amgueddfa'n bartner yn y prosiect Amgueddfa Hapus er 2014. Mae'r prosiect yn ystyried sut y gall y sector amgueddfeydd ymateb i'r her o greu dyfodol mwy cynaliadwy. Mae'n cefnogi gwaith amgueddfeydd sy'n rhoi llesiant mewn cyd-destun amgylcheddol sy'n edrych at y dyfodol, gan ystyried y rhan y gall amgueddfeydd ei chwarae yn gwneud pobl, lleoedd a'r blaned yn fwy cydnerth. Trwy ymchwil weithredu, ymchwil academaidd, rhwydweitho â chymheiriaid a hyfforddiant mae'n cefnogi llesiant sefydliadau a chymunedau a chydnerthedd yn wyneb heriau byd-eang. Bu gan yr amgueddfa brosiect o'r enw 'Cynaeafu'r Wybodaeth' wedi'i gefnogi a'i ysbrydoli gan yr Amgueddfa Hapus ac mae'n rhan o'u hastudiaeth hydredol. Helpodd i baratoi adroddiad 'Amgueddfeydd Cymru a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol' ac mae wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau rhwydweithio a hyfforddi. Mae'r egwyddorion yn rhan hanfodol o Flaengynllun yr amguedda a gwneir defnydd ohonynt yn ystod y prosiect hwn.

Mae'r **Common Cause Foundation** yn cefnogi rhwydwaith eang o grwpiau a sefydliadau er mwyn mynegi gwerthoedd cydymdeimladol sy'n sail ar gyfer gofal am faterion cymdeithasol ac amgylcheddol. Dengys gwaith ymchwil gan Common Cause ac eraill bod gan y rhan fwyaf o bobl gonsýrn dwfn am y naill a'r llall a'r byd o'u cwmpas, gan werthfawrogi pethau fel cydraddoldeb, cydymdeimlad a charedigrwydd. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o bobl yn sylweddoli pa mor bwysig yw'r pethau hyn i bobl eraill – a gall hyn ein dal yn ôl. Pe bai modd cyfleu gwir ddealltwriaeth o werthoedd nodweddiadol pobl, gallai drawsnewid bywydau. Bu'r amgueddfa'n cydweithio â'r Common Cause Foundation yng nghyd-destun yr Amgueddfa Hapus.

Mae'r **Casgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar** yn gysyniad a sefydlwyd gan CyMAL (MALD erbyn hyn) i ddisgrifio'r egwyddor bod y gwrthrychau, y sbesimenau a'r cofnodion sy'n dystiolaeth o hanes Cymru, ac sy'n adrodd stori Cymru a'i phobl, i'w cael yn holl amgueddfeydd ac archifdai'r genedl[1]. Mae hyn yn effeithio ar y gwerthfawrogiad a gaiff y casgliadau, a ble y cânt eu cadw a'u harddangos a ble yr ymchwilir iddynt. Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Cymru sy'n gyfrifol am ddatblygu'r cysyniad ac mae gwaith a wnaed yn ddiweddar wedi dangos bod angen i amgueddfeydd gydweithio i sicrhau bod y drefn bresennol o gasglu yn gydlynol, gan gydnabod bod gwaith casglu ein treftadaeth gymdeithasol a diwylliannol yn fwy cyffredinol a heb berthyn yn benodol i wahanol ardaloedd daearyddol.

## 1.4 Yr amgueddfa a'i chasgliad

Mae Amgueddfa Ceredigion yn casglu arteffactau a diwylliant materol sy'n cynrychioli treftadaeth y sir hanesyddol yn ei chyfanrwydd. Mae'r amgueddfa yn gofalu am eiddo hanesyddol mewn rhannau eraill o'r sir hefyd ac yn cefnogi grwpiau a chanolfannau treftadaeth. A hithau yng nghanol y dref, o fewn golwg i'r prom, yn y Coliseum, sef theatr Edwardaidd drawiadol sy'n ased ddiwylliannol yn ei

[1] Adroddiad Cyngor Llyfrgelloedd a Gwasanaethau Gwybodaeth (Cymru) (LISC Cymru), The Future of Our Recorded Past (2000)

hawl ei hunan, ac erbyn hyn yn cynnwys y Ganolfan Groeso, mae tua 60,000 o bobl yn dod i'r amgueddfa bob blwyddyn. Felly, mae'n un o asedau pwysig Aberystwyth sy'n denu gweithgarwch economaidd a thwristiaeth yn ogystal â hyrwyddo hanes a threftadaeth Ceredigion.

### 1.4.1 Hanes yr amgueddfa

Sefydlwyd Amgueddfa Ceredigion yn 1971 â'r nod o ddarparu gwasanaethau amgueddfa ar gyfer uned hanesyddol Sir Aberteifi a ddaeth yn ddosbarth Ceredigion yn sir Dyfed yn 1974 ac yna'n awdurdod unedol Ceredigion yn 1996. Sefydlwyd yr amgueddfa gan Gymdeithas Hynafiaethwyr Sir Aberteifi a chafodd ei throsglwyddo i'r awdurdod lleol yn ddiweddarach.

Penodwyd Swyddog cyntaf yr Amgueddfa, Dr John D. Owen, yn 1972 ac, yn yr un flwyddyn, darparodd Cyngor Bwrdeistref Aberystwyth le mewn tŷ o gyfnod y Rhaglawiaeth ar Stryd yr Efail yn Aberystwyth yn ddi-rent i fod yn ganolfan i'r amgueddfa. Symudodd yr amgueddfa i'w chartref presennol yn adeilad Theatr y Coliseum yn 1983. Mae'r Coliseum yn adeilad rhestredig Gradd II a godwyd dros ganrif yn ôl. Daeth yn sinema boblogaidd a bu wrth galon y gymuned o'r dechrau.

### 1.4.2 Datblygu'r casgliadau

Sefydlwyd yr amgueddfa â'r nod o gasglu pethau sy'n cyfleu bywyd pobl yn Sir Aberteifi (Ceredigion) trwy'r oesoedd.

Mae gan Amgueddfa Ceredigion gasgliad o ryw 65,000 o eitemau, y rhan fwyaf ohonynt wedi'u casglu o sir Ceredigion. Nwyddau'r tŷ a chrefftau a gâi eu gwneud yn y sir neu eu defnyddio'n aml yno rhwng tuag 1850 ac 1950 yw'r rhan fwyaf o'r sbesimenau. Rhoddion yw'r mwyafrif o'r sbesimenau hefyd. Mae tua 2% o'r casgliad yn eitemau sydd wedi'u derbyn ar fenthyciad ac mae tua 22% o'r casgliad yn eitemau a brynwyd.

Cynrychiolir pob cyfnod hanesyddol yn y casgliad – o'r cynhanesyddol, y Rhufeinig, a'r canoloesol i'r modern. Cyflwynir hanes amlochrog llawer o gymunedau hefyd a sefyllfa'r sir fel ardal lle mae'r iaith a'r diwylliant Cymraeg yn gryf. O ganlyniad i waith curaduron blaenorol, mae yno gasgliadau mawr, cynhwysfawr sydd â chryn botensial ar gyfer gwaith ymchwil academaidd ac ennyn diddordeb cymunedau. Mae pwyslais cryf ar fywyd bob-dydd yng Ngheredigion ac mae yno lawer o bethau na chaiff eu cynrychioli mewn amgueddfeydd eraill, e.e. eitemau poblogaidd a fas-gynhyrchwyd ac y mae i'r rhain werth arbennig o ran hanes cymdeithasol. Yn ogystal, mae'r casgliadau'n cynnwys eitemau a drosglwyddwyd i Amgueddfa Ceredigion gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru o gasgliad R.J. Thomas (Tre'r Ddôl) (1,974 o eitemau), sy'n bwysig iawn o ran hanes Wesleaeth yn y sir, a chasgliad Treen a roddwyd i Amgueddfa Ceredigion gan Goleg Prifysgol Cymru, Aberystwyth (333 o eitemau) o'i gasgliad amgueddfaol o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg.

Gellir rhannu'r casgliadau i nifer o feysydd allweddol, a nodir yn y tabl isod:

| Maes y casgliad | Maint |
|---|---|
| Amaethyddiaeth | tua 3,500 |
| Archaeoleg | tua 330 o sbesimenau |
| Llyfrau a Dogfennau | tua 5,000 o sbesimenau |
| Darnau Arian, Tocins ac Arian Papur | tua 1000 o sbesimenau |
| Dillad a Ffabrigau | tua 3,500 o sbesimenau |
| Crefftau, Masnach a Diwydiannau | tua 2,000 o eitemau |

| | |
|---|---|
| Gynnau | 43 o sbesimenau |
| Sbesimenau Daeareg | tua 60 o sbesimenau |
| Mapiau a Siartiau | tua 250 o sbesimenau |
| Medalau a Medaliynau | tua 250 o sbesimenau |
| Sbesimenau Astudiaethau Natur | tua 100 o sbesimenau |
| Lluniau, Printiau a Chelf | tua 1820 o sbesimenau |
| Ffotograffau | tuag 20,000 o sbesimenau |
| Hanes Cymdeithasol | tua 25,000 o eitemau |

Yn ogystal, mae gan yr amgueddfa 'gasgliad cyffwrdd' helaeth o eitemau sydd heb eu derbynodi'n ffurfiol, fel y gellir eu defnyddio yn y sesiynau addysgol a'r digwyddiadau cyhoeddus mwyaf amrywiol sy'n bosibl. Yn wahanol i rai rhannau o Gymru a'r Deyrnas Unedig, mae Ceredigion wedi cadw'i hunaniaeth ddaearyddol a chymunedol ers y canol oesoedd. Oherwydd ei hanes maith a'i hunaniaeth gref, gellir cyfrif bod yr amgueddfa wir yn cynrychioli'r sir gyfan ac yn eiddo iddi ac nid dim ond y dref lle mae'n digwydd bod.

## 1.5 Adolygiad o drefniadau cyfredol storio'r casgliad

### 1.5.1 Y sefyllfa bresennol

Caiff casgliadau Amgueddfa Ceredigion eu storio yn Adeilad y Coliseum ac mewn sawl storfa allanol, sef Garej Stryd y Baddon, Capel Tre'r Ddôl (adeilad rhestredig) a'r Hen Storfa Reprograffeg sy'n rhan o uned ddiwydiannol fodern. Mae gan y mannau hyn i gyd eu heriau a'u problemau, fel y crynhoir isod, yn cynnwys gorlenwi, diffyg rheolaeth amgylcheddol, a pheryglon iechyd a diogelwch i aelodau'r staff ac ymwelwyr.

| | Storfa | Mynediad a diogelwch | Amodau amgylcheddol a'r gwaith monitro | Risgiau |
|---|---|---|---|---|
| | **Storio yn Theatr y Coliseum** | | | |
| **C1** | **Ar y llwyfan**<br>Y tu ôl i'r llen ac ar lefel uwch (HSFB) | Mynediad trwy'r mannau cyhoeddus<br>Dim digon o le i fynd a dod rhwng yr eitemau | Dim | Defnyddio ysgol heb ei diogelu i gyrraedd y lefel uwch<br>Eitemau wedi'u stacio<br>Mae'n cynnwys eitemau nad ydynt yn y casgliad |
| **C2** | **O dan y llwyfan** | Mynediad trwy'r mannau cyhoeddus | Dim | Uchder yn gyfyngedig iawn, peryglus i'r staff sy'n methu sefyll i'w llawn daldra |
| **C3** | **Lle mewn atig yn Stryd Portland**<br>Storfa decstiliau<br>Storfa nwyddau arian – cwpwrdd/sêff dan glo | Drws wedi'i gloi o'r mannau cyhoeddus – mynediad i staff a gwirfoddolwyr yn unig | To wedi'i leinio i selio'r llechi<br>Dadleithydd (yn gwacáu i le arall)<br>Trapiau pryfetach/trapiau | Peryglon ar y llawr – distiau<br><br>Eitemau wedi'u stacio'n uchel heb ddigon o le i |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | ’n hongian ac archwiliadau rheolaidd<br>Bagiau Tyvek ar gyfer cwiltiau a matiau racs<br>Bagiau ar gyfer gwisgoedd<br>Ailbacio eitemau fel rhan o brosiect, gyda chymorth gwirfoddolwyr | symud |
| **C4** | **Storfa mewn atig yn Stryd y Baddon**<br>LB | Drws wedi’i gloi o’r rhan gyhoeddus<br>Cabinet gynnau wedi’i gloi | Dadleithydd ddim yn gweithio<br>Monitro am wiwerod<br>Trapiau pryfetach/trapiau ’n hongian ac archwiliadau rheolaidd<br>Wal allanol yn dadfeilio, mewn cyflwr gwael | Eitemau wedi’u stacio’n uchel heb ddigon o le i symud |
| **C5** | **Oriel Archaeoleg**<br>Storio o dan y casys arddangos | Cypyrddau wedi’u cadw’n ddiogel â sgriwiau ond rhai ohonynt wedi colli eu gafael | Lle sych wedi’i wresogi<br>Dadleithydd a monitor | Rhaid bod yr oriel ar gau er mwyn i’r staff gael mynd i'r storfa |
| **C6** | **Balconi y llawr cyntaf**<br>Storio o dan yr arddangosiadau | Cypyrddau dan glo | Dim | Rhaid bod y balconi ar gau er mwyn i’r staff gael mynd i'r storfa |
| **C7** | **Storfa Luniau**<br>PB (Picture Box) | Drws wedi’i gloi o’r rhan gyhoeddus.<br>Mynediad i staff a gwirfoddolwyr yn unig.<br>Ar wahân i’r rhan gyhoeddus | Archwiliad gweledol o leithder a thymheredd | O dan ystafell baned y staff – risg o ddŵr yn gollwng.<br>Ystafell waith yn ogystal â storfa. |
| **C8** | **Ystafell addysg (hen adeilad Boots)** | Mynediad i staff a gwirfoddolwyr yn unig.<br>Defnyddir i storio’r casgliad cyffwrdd. | Dim | Bwriad i ddefnyddio’r ystafell addysg ar gyfer gweithgareddau dysgu ar ôl ei hailwampio |
| **C9** | **Atig hen adeilad Boots (dwy ystafell)** | Mynediad i staff a gwirfoddolwyr yn unig. | Dim | Anhwylus mynd yno ar risiau cul |

| | Storfeydd allanol | | | |
|---|---|---|---|---|
| **E1** | **Garej Stryd y Baddon** | Allweddi<br>Larwm<br><br>Adeilad y Cyngor | 80% RH – ond ddim yn cael ei fonitro ar hyn o bryd.<br>Dadleithydd ddim yn gweithio<br>To'n gollwng yn y cefn<br>Rhewgell 1 | Trawst isel ym mynedfa'r lefel uwch a thrwy'r lefel honno i gyd.<br>Damp.<br>Perygl baglu dros ddistiau agored. |
| **E2** | **Hen Storfa Reprograffeg**<br>Symudwyd pethau yma ym mis Rhagfyr 2018 – storfa dros dro | Allweddi<br>Larwm | Wedi'i gwresogi a'i defnyddio'n ddiweddar ar gyfer yr Adran Reprograffeg.<br>Dim monitro amgylcheddol | Ateb tymor byr |
| **E3** | **Capel Tre'r Ddôl**<br>Statws elusennol – opsiwn i drosglwyddo'r teitl. Wedl bod yn amgueddfa o'r blaen. | Allweddi<br>Larwm | Rheseli symudol ar gyfer eitemau ar y llawr gwaelod.<br>Monitro gweledol yn unig | Dim cyfleusterau i'r staff.<br>Dim ffôn.<br>Llawr anwastad.<br>Eitemau wedi'u stacio'n uchel, dim digon o le i symud o gwmpas |

### 1.5.2 Dadansoddiad o'r casgliad a'r cyfleusterau storio presennol

Mae eitemau o'r casgliad nad ydynt yn cael eu harddangos yn yr amgueddfa ar hyn o bryd yn cael eu storio mewn gwahanol fannau yn Aberystwyth a'r cylch. Ceir crynodeb o'r mannau storio yn y diagram isod.





Diagram yn dangos y cyfleusterau storio presennol

**Storio yn y Coliseum a Garej Stryd y Baddon**

Mae rhan sylweddol o'r casgliad yn cael ei storio yn adeilad y Coliseum, lle mae'r brif amgueddfa, a Garej Stryd y Baddon sydd rownd y gornel yn Stryd y Baddon, rhyw 500m i ffwrdd. Mae'r eitemau sy'n cael eu storio yn yr amgueddfa ar silffoedd mewn nifer o wahanol ystafelloedd. Y ddau le mwyaf yw'r ddwy atig, un ohonynt yn cadw'r casgliad tecstiliau. Yn ddelfrydol, mae angen rheoli'r tymheredd yno rhag cael trafferth a gwyfynod.



Ystafelloedd Atig yn y brif amgueddfa (atigau Stryd Portland a Stryd y Baddon yn y Coliseum) – oherwydd natur yr ystafelloedd mae'n anodd iawn mynd yno a chael eitemau oddi yno.

Yn ogystal â'r atigau, defnyddir y lle y tu ôl i'r llwyfan ac o dan y llwyfan i gadw pethau mwy o faint a chadarnach, ac mae'r casgliad ffotograffau mewn ystafell ar yr ail lawr.



Lle o dan y llwyfan a'r casgliad ffotograffau. Byddai'n well pe bai'r casgliad ffotograffau'n cael ei storio mewn amgylchedd lle rheolir y tymheredd.

Mae Garej Stryd y Baddon (a ddangosir yn y diagram fel Stryd y Baddon ac Atig Stryd y Baddon) yn adeilad deulawr wedi'i adeiladu o un haen o frics.  Oherwydd yr adeiladwaith a'i gyflwr cyffredinol, ni ellir rheoli'r amgylchedd yno ac felly fe'i defnyddir i gadw eitemau cadarn o gasgliad yr amgueddfa.



Golwg allanol o Garej Stryd y Baddon a'r llawr isaf.



Mynediad i'r atig yn Stryd y Baddon.

Ar wahân i'r ystafell storio ffotograffau, mae'r amodau yn y mannau storio yn heriol iawn o ran gwarchod y casgliad a mynd ato. Mae'r amodau amgylcheddol ar gyfer y casgliad yn y mannau mwyaf, sef atig y Coliseum a Garej Stryd y Baddon, yn arbennig, yn wael iawn. Oherwydd natur yr adeiladwaith mae'n anodd iawn rheoli'r lleithder a thymheredd yr eitemau a gaiff eu storio yn y mannau hyn. Mae hyn hyd yn oed yn anos am fod y mannau'n anodd mynd iddynt a'u monitro ac, er bod rhai datrysiadau dyfeisgar wedi'u cyflwyno, oherwydd natur y mannau a'r ffaith bod y to mor isel, maent yn rhy fach i storio cymaint o eitemau.

**Storio yng Nghapel Tre'r Ddôl ac yn Llanbadarn**

Prif fannau storio eraill y casgliad yw Capel Tre'r Ddôl, sydd 9 milltir o Aberystwyth, a rhan o adeilad hyfforddi Cyngor Sir Ceredigion yn Llanbadarn (yr Hen Storfa Reprograffeg), rhyw ddwy filltir i ffwrdd. Gwnaed peth gwaith adnewyddu ar y capel rhyw 20 mlynedd yn ôl. Defnyddir prif adeilad y capel a'r islawr fel storfeydd.



Golwg allanol o'r capel a'r prif fan storio.



Islawr y capel a'r silffoedd symudol.

Fel prif storfa'r amgueddfa, mae'r amodau yn y capel ar gyfer storio eitemau o'r casgliad yn heriol. Er bod adeiladwaith y capel yn gadarn, mae'n anodd rheoli'r amgylchedd, yn enwedig o ran lleithder. Gwneir y problemau'n waeth gan ei bod yn anodd cyrraedd y capel ar hyd mynedfa gul. Mae'r ffaith ei fod yn bell o'r amgueddfa'n codi pryderon am ddiogeledd. Mae gweddill y casgliad yn cael ei storio mewn rhan o adeilad hyfforddi Cyngor Sir Ceredigion. Mae'r amgylchedd ychydig yn well yno ond mae cynlluniau i'w ailddatblygu yn fuan ac ni fydd modd cadw casgliad yr amgueddfa yno wedyn.

Wrth ddadansoddi'r mannau storio, daeth y pryderon a ganlyn i'r amlwg:

- Mae adeiladwaith y prif fannau storio yn anaddas ac felly maent yn gostus i'w rhedeg ac yn heriol o ran gwarchod cyflwr y casgliad.
- Mae'r prif fannau storio'n mewn lleoedd anaddas hefyd sy'n golygu ei bod yn anodd, yn gorfforol, i'r staff fynd yno a rheoli'r casgliad. Mewn rhai achosion, mae perygl i'r staff.
- Mae lleoliad rhai o'r mannau storio a'r pellter o'r amgueddfa'n codi pryderon ychwanegol am fynediad, gwaith rheoli a diogeledd.

## 1.6 Gwaith presennol o ran addysgu ac ymgysylltu â'r gymuned

Trwy gynnal gweithdai a thrafodaethau gyda staff yr amgueddfa, roedd modd i ni gasglu nodiadau a gwybodaeth am y ffordd y mae pobl yn ymwneud eisoes â chasgliadau'r amgueddfa, adeiladau hanesyddol a threftadaeth Ceredigion.

**Rhanddeiliaid**
Rhanddeiliaid y prosiect yw:

- Cyfeillion yr Amgueddfa – maent yn cyfarfod bob tri mis ac yn cefnogi gwaith yr amgueddfa trwy godi arian, gwirfoddoli a chefnogi prosiectau
- Cyngor Ceredigion – nhw sy'n berchen ar yr amgueddfa ac yn ei rheoli
- Cyngor Tref Aberystwyth – rhoesant grant at brosiect Dulliau Newydd ac maent yn cefnogi gweithgareddau'r amgueddfa'n gyffredinol
- MALD – mae'n cynnig gwybodaeth am arferion gorau, gofalu am gasgliadau a grantiau ac yn rhoi cyngor cyfeillgar
- Arianwyr – Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, Cynnal y Cardi, a nifer o ymddiriedolaethau ac elusennau
- Common Cause a'r Amgueddfa Hapus – maent wedi datblygu dyfeisiau ac egwyddorion sy'n sylfaen ar gyfer gwaith staff yr amgueddfa

**Ymgysylltu â'r gymuned**
Mae staff yr amgueddfa wedi ymgysylltu â llawer iawn o grwpiau trwy:

- Gynnig lle i grwpiau gynnal digwyddiadau
- Darparu llwyfan ar gyfer perfformiadau
- Cydweithio ar arddangosfeydd
- Gweithio ar brosiectau ar y cyd
- Digwyddiadau a sgyrsiau estyn allan

Yn y crynodeb isod, ceir disgrifiad o'r grwpiau y bu'r amgueddfa'n ymwneud â nhw ers 2016, wedi'u trefnu yn y categorïau a restrir uchod. Mae diagram ar ddiwedd y naratif yn darlunio hyn.

**Lle gwych i gyfarfod**
Mae'r amgueddfa'n lle diogel a dymunol i grwpiau gwrdd a chynnal eu digwyddiadau eu hunain. Mae **Gweithffyrdd+** yn sefydliad sy'n cynnig hyfforddiant a phrofiad gwaith â thâl i bobl sy'n ddi-waith ers amser hir ac mae'n defnyddio'r amgueddfa i gwrdd â'i ddefnyddwyr. Mae'r **Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid ac Atal** yn gweithio gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu ac mae ganddo sawl grŵp sy'n cwrdd yn rheolaidd. Mae'n defnyddio'r amgueddfa fel lle i gwrdd, ac i gynnal gweithgareddau a sgyrsiau. Daw **Grŵp Cyfeillgarwch Aber** i'r amgueddfa'n rheolaidd i gwrdd, sgwrsio a chymryd rhan mewn gweithgareddau. Mae **Fforwm Hanes Lleol Ceredigion** ac **Ymddiriedolaeth Ddinesig Aberystwyth** yn cynnal digwyddiadau a sgyrsiau yn yr amgueddfa ac mae ganddynt ddiddordeb yn y casgliad hanes lleol. Mae Aberystwyth wedi'i gefeillio â phedair tref, ac mae'r grŵp sy'n trefnu'r cysylltiadau â **St Brieuc** yn Llydaw yn defnyddio'r amgueddfa ar gyfer digwyddiadau a chyfarfodydd. Partneriaeth adfywio yw **Menter Aberystwyth** ac mae'n cynnal digwyddiadau yn yr amgueddfa. Mae'r amgueddfa'n cymryd rhan yn nigwyddiadau'r Fenter yn y dref ac yn eu cefnogi. Mae **Gwrthryfel Difodiant Aberystwyth** a **Bwyd Dros Ben Aber** yn defnyddio'r amgueddfa ar gyfer digwyddiadau ac mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn arddangosfeydd a phrosiectau yn y dyfodol.

Mae’r caffi newydd uwchben y dderbynfa a’r Ganolfan Groeso’n boblogaidd gyda phobl yr ardal ac ymwelwyr â’r amgueddfa ac mae’n fan cyfarfod rheolaidd i grwpiau anffurfiol sy’n gallu cymryd eu hamser dros eu paned.

**Lle i berfformio**
Mae hanes y Coliseum fel theatr a sinema, a’r llwyfan, yr acwsteg, a'r cyfleusterau sgrin a thaflunio, yn denu pobl i drefnu perfformiadau drama a sioeau ffilm yno. Defnyddir y llwyfan gan grwpiau fel y **Showtime Singers** ar gyfer eu perfformiadau cerddorol, ac ar gyfer digwyddiadau sydd yn rhaglen yr amgueddfa. Cynhaliodd **Clwb Gwerin Aberystwyth** a **Gwasanaeth Cerdd Ceredigion** berfformiadau yno oedd yn rhan o raglen yr amgueddfa a'u rhaglen nhw eu hunain. Mae **Grŵp Drama Amatur y Wardeniaid**, **Gigs Cantre Gwaelod** ac **Aber Opera** yn cynnal digwyddiadau yn awditoriwm y Coliseum hefyd.

Yn ddiweddar, cynhaliwyd math gwahanol o berfformiad mewn partneriaeth â phrosiect a ariannwyd gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol i ddangos effaith y prosiect ar Aberystwyth. Yn ogystal â bod amryw o grwpiau’n defnyddio’r lle ar gyfer eu perfformiadau nhw eu hunain, mae sawl prosiect wedi cynnal perfformiadau i ddehongli ein treftadaeth.

**Cynnal arddangosfeydd**
Mae'r amgueddfa yn cynnal pedair arddangosfa dros dro y flwyddyn, gydag o leiaf un y flwyddyn yn cael ei threfnu mewn partneriaeth â grwpiau a sefydliadau cymunedol. Er enghraifft, mae **Clwb Camera Aberystwyth** a **Chymdeithas Gelf Ceredigion** yn cynnal arddangosfeydd o'u gwaith yn yr amgueddfa yn rheolaidd. Yn ddiweddar, cymerodd y Gymdeithas Gelf ran mewn arddangosfa archaeoleg leol ar ôl cael gwahoddiad i ddysgu mwy am archaeoleg yr ardal, i archwilio'r casgliadau sy'n cael eu harddangos ac i ddysgu gan staff Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru er mwyn ysbrydoli eu gwaith. Mae **Clwb Cardiau Post Aberystwyth** yn cynnal eu cyfarfod blynyddol yn yr amgueddfa ac maent wedi cyfrannu gwaith ymchwil ar gasgliad cardiau post yr amgueddfa. Roedd arddangosfa **Tua'r Gorllewin** yn adrodd hanes y bobl a symudodd i Geredigion yn ystod yr 1970au, ac fe gyfrannodd pobl leol atgofion a gwrthrychau i'r arddangosfa a'r casgliadau. Bu sawl arddangosfa ar y cyd ag **Ysgol Gelf** y Brifysgol, ac yn y gorffennol mae myfyrwyr wedi cynnal Ymyriadau celf. Mae **Argraffwyr Aberystwyth** wedi cynnal arddangosfeydd o'u gwaith eu hunain a gweithiau o gasgliadau'r amgueddfa a'r Brifysgol.

**Prosiectau**
Yn 2013 helpodd y prosiect ‘Dymchwel Muriau’ yr amgueddfa i ddechrau ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd, a thrwy ymgynghori â defnyddwyr a darpar ddefnyddwyr daeth i ddeall y rhwystrau sy’n atal pobl rhag dod i’r amgueddfa. Bu grwpiau'n cyfrannu fel a ganlyn:

- Gwirfoddolwyr a myfyrwyr o'r Ysgol Gelf yn cydweithio ag artist y prosiect, Janetka Platun
- Gwirfoddolwyr lleol yn helpu i gloddio adfail Tuduraidd yn Llannon
- Bu pobl leol yn cydweithio ag artistiaid digidol yn Llannon a Llangeitho
- Gweithgareddau estyn allan gyda chasgliadau amaethyddol – Clybiau Ffermwyr Ifanc a phobl leol
- Creodd Ysgol Ddawns y Cei Newydd berfformiad a ffilmiwyd ac a ddefnyddiwyd fel tafluniad yn ystod y perfformiad terfynol yn y theatr
- Bu disgyblion ysgol yng Nghei Newydd yn defnyddio casgliadau morwrol yr amgueddfa
- Bu Panel Ieuenctid Treftadaeth Ceredigion (CHYPs) yn curadu arddangosfeydd yn yr amgueddfa

- Creodd Theatr Felinfach berfformiad am hanes lleol, o'r enw Dyma Le (Here is a Place)

Sefydlwud y **grŵp CHYPs** yn Amgueddfa Ceredigion yn ystod y prosiect Dymchwel Muriau ac maent wedi cymryd rhan mewn prosiectau ac arddangosfeydd ers hynny. Erbyn hyn, mae canolfan y grŵp ar safle Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) ac mae'n gweithio ar brosiect i gofnodi Bwthyn Llanon, sy'n gysylltiedig â chasgliad yr amgueddfa o eitemau'r cartref, ac mae newydd gwblhau prosiect ar gloddio am blwm yng Ngheredigion. Cafwyd cefnogaeth a gwaith ymchwil ar gyfer bwthyn Llanon gan y **Vernacular Architecture Group** hefyd.

Bu gan **Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru** (CBHC) berthynas weithiol faith â'r amgueddfa, gan rannu arbenigedd a datblygu prosiectau ac arddangosfeydd ar y cyd. Maent wrthi'n gweithio ar brosiect tair blynedd am 'Dreftadaeth Ddisylw' yng Ngheredigion, yn benodol mwyngloddiau lleol, bwthyn Llanon a bwthyn anghyfannedd. Mae staff o CBHC yn cadw golwg hefyd ar waith yr amgueddfa'n casglu ac yn arddangos eitemau archaeolegol.

Bu'r amgueddfa'n cydweithio â **MIND** ar sawl prosiect, gan ddechrau ag artist preswyl ar gyfer y prosiect Dymchwel Muriau. Buont yn ymwneud hefyd â phrosiect Llong yr Efengyl, gan ystyried hunaniaeth a gwerthoedd. Buont yn helpu staff yr amgueddfa i ddewis a phenodi artist preswyl ar gyfer y prosiect Dulliau Newydd. Bu **Siop Elusen Dystroffi'r Cyhyrau** yn gweithio gydag artist yn ystod y prosiect Dymchwel Muriau hefyd.

Bu **Canolfan Cwiltiau Cymreig Jen Jones** (yn Llambed) yn gweithio mewn partneriaeth â'r amgueddfa i greu Llwybr Cwiltiau Canolbarth Cymru. Mae Jen yn wybodus iawn am gasgliad yr amgueddfa o gwiltiau a thecstilau.

Mae **Tir Coed** yn elusen a menter gymdeithasol sy'n cynnig gweithgareddau yn y coetir i helpu pobl i ddatblygu sgiliau a gwella'r dirwedd naturiol. Buont yn cydweithio â'r amgueddfa ar brosiect o'r enw 'Cynaeafu'r Wybodaeth' i greu gwrthrychau pren 'Hadau' sydd ar werth trwy siop yr amgueddfa, wedi'u hysbrydoli gan gasgliadau'r amgueddfa. Cefnogwyd y prosiect hwn gan gynllun Amgueddfa Hapus ac roedd yn dilyn egwyddorion y cynllun hwnnw.



Bu **Gild Gwehyddion, Nyddwyr a Lliwyddion Ceredigion** yn gweithio mewn partneriaeth â'r amgueddfa i gynnig gweithdai'n gysylltiedig â'r arddangosfa 'Defaid'.

Defnyddiodd Prosiect Llong yr Efengyl brint o'r un enw o gasgliad yr amgueddfa yn fan cychwyn i weithio gyda chynulleidfaoedd newydd â chysylltiad â'r môr a'r glannau ac i drafod gwerthoedd cyffredin. Mae'r print o'r bedwaredd ganrif ar bymtheg yn dangos llong â dyfyniadau o'r Beibl wedi'u paentio ar yr hwyliau. Trefnwyd y prosiect i ddigwydd mewn dwy ran: seiliwyd y gyntaf ar weithgareddau cymunedol gyda'r artist lleol Janetka Platun, a bydd yr ail yn fordaith o amgylch yr arfordir. Cyflwynwyd y rhan gyntaf gyda chefnogaeth yr Amgueddfa Hapus, gyda phobl o: **Gôr y Gors, Clwb Rhwyfo Aberystwyth, RNLI, MIND, Cadetiaid y Môr a MOROL**.


Y Prosiect Dulliau Newydd oedd Cam 1af y prosiect 'Trawsnewidiadau' ac fe gafodd grwpiau eu cynnwys yn y gwaith datblygu, y dylunio a'r gweithgareddau.

- Helpodd **RAY Ceredigion** i ddatblygu gweithdai crefftau ac i dreialu gweithgareddau'r Carped Hud.
- Bu myfyrwyr o Goleg Ceredigion yn dylunio ac yn cynhyrchu dodrefn arddangos ar gyfer y siop a'r dderbynfa newydd.
- Bu grŵp CHYPs yn gweithio ar brosiect ffilm yn gysylltiedig â hanes y Coliseum fel theatr a sinema.
- Bu egin grefftwyr yn ymchwilio i gasgliadau'r amgueddfa i chwilio am ysbrydoliaeth i greu nwyddau ar gyfer y siop.
- Helpodd **Clwb Celf Ponterwyd** i ddylunio/creu'r Carped Hud allan o ddarnau cwilt ar gyfer adrodd straeon.
- Mae gwirfoddolwyr a gafodd eu recriwtio yn ystod y prosiect wedi ymwneud â phob agwedd ar waith yr amgueddfa.

**Gwaith estyn allan**
Mae gan yr amgueddfa 'gasgliad cyffwrdd' anarferol o fawr, yn seiliedig ar gasgliad preifat a dderbyniwyd yn rhodd. Bu'r casgliad hwn, 'Aberystwyth Ddoe', yn cael ei arddangos yn y dref fel atyniad i ymwelwyr. Defnyddir y casgliad cyffwrdd ar gyfer gwaith estyn allan, gan gynnwys sesiynau hel atgofion yng **Nghartref Gofal Plas Cwmcynfelin**, lle mae arddangosfa o wrthrychau o'r casgliad cyffwrdd hefyd. Mae grwpiau yn aml yn gofyn am sgyrsiau gan staff yr amgueddfa, gan gynnwys **Sefydliad y Merched** a **Merched y Wawr**.

Mae staff yr amgueddfa'n cynnig cymorth proffesiynol a churadurol i **Hanes Llambed**, grŵp hanes lleol sy'n rhedeg amgueddfa'r dref mewn partneriaeth â Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant ac sydd yn hen borthordy'r Brifysgol. Maent hefyd yn cefnogi **Canolfan Dreftadaeth Cei Newydd, Canolfan Barcudiaid Tregaron, Amgueddfa Gorsaf Borth** a **Grŵp Treftadaeth Penparcau** yn yr un modd.

**Ymgysylltu ar hyn o bryd:**



## 1.7 Dogfennu’r casgliadau a mynediad digidol

### 1.7.1 Adolygiad o ddogfennau cofnodi’r casgliadau

Nodir anawsterau â’r gwaith dogfennu yng Nghynllun Dogfennu’r amgueddfa, a baratowyd fel rhan o gais Amgueddfa Ceredigion i gael ei hachredu yn 2017. Ymhlith y dogfennau perthnasol eraill sydd wedi’u hadolygu mae:

- Y Polisi Datblygu Casgliadau
- Polisi Cadwraeth a Gofal am Gasgliadau
- Llawlyfr Gweithdrefnau Dogfennu

Mae’r Llawlyfr Gweithdrefnau Dogfennu yn nodi sut y mae’r amgueddfa’n mynd ati i gyrraedd safonau Achredu ar gyfer dogfennau cofnodi. Mae’r amgueddfa’n defnyddio Safonau Gofynnol Gweithdrefnau Sylfaenol SPECTRUM i fesur gweithdrefnau dogfennu yn y meysydd isod:

- Cofnodi gwrthrychau
- Caffael
- Benthyciadau i mewn
- Rheoli lleoliad a symudiadau
- Catalogio
- Gwrthrychau’n ymadael
- Benthyciadau allan

Nodir yn y Cynllun Dogfennu bod llawer o eitemau yn y casgliad Hanes Cymdeithasol heb eu dogfennu ac mae’n nodi sut y mae’r amgueddfa’n bwriadu codi’r cofnodion i’r safon ofynnol. Mae hefyd yn tynnu sylw at feysydd eraill lle mae angen mynd i’r afael â rhai materion. Y meysydd hyn yw:

| Gweithdrefn SPECTRUM | Mater dan sylw | Camau i’w cymryd |
|---|---|---|
| **Rheoli lleoliad a symudiadau** | Nid yw lleoliad a symudiadau gwrthrychau wedi’u rheoli’n fanwl bob amser ac ni ddilynwyd y gweithdrefnau’n fanwl chwaith, ac felly nid yw’r lleoliadau diweddaraf wedi’u nodi bob amser. | Defnyddio ffeil newydd Rheoli Lleoliad a Symudiadau.<br>Trefnu lleoliadau storio fel y gellir cofnodi’r lleoliadau yn fanwl. |
| **Ôl-ddogfennu** | Cafodd rhai gwrthrychau, yn enwedig rai mawr, eu harddangos yn syth ar ôl cyrraedd yr amgueddfa. Felly nid oes rhifau derbynodi gan rai eitemau sy’n cael eu harddangos yn barhaol gan na ddilynwyd gweithdrefnau derbyn gwrthrychau.<br>Nid oes modd dod o hyd i rai gwrthrychau sydd yng nghronfa ddata’r casgliadau.<br>Rhifau dros dro sydd gan lawer o wrthrychau. Maent naill ai heb gael eu derbynodi erioed neu wedi colli eu rhif gwreiddiol a’r cysylltiad â’r | Trefnu lleoliadau storio fel y gellir nodi’r lleoliadau yn fwy manwl.<br>Cynnal archwiliad o’r arddangosiadau parhaol.<br>Cynnal archwiliad o’r mannau storio.<br>Mynd trwy’r cofrestri derbynodi gan sicrhau bod y wybodaeth yn cyfateb i’r hyn sydd yng nghronfa ddata’r casgliadau fel bod llai o rifau dros dro. |

| | | |
|---|---|---|
| | ddogfennaeth.<br>Nid yw lleoliadau mewn mannau storio mawr yn ddigon manwl. | |

Cynhelir adolygiad llawn o ddogfennau cyfredol casgliadau'r amgueddfa a'r weithdrefn gatalogio fel rhan o adolygiad o'r casgliadau i gyd; nodir y fethodoleg a'r canlyniadau isod yn adran 2.2. Rhestrir argymhellion allweddol ar gyfer gwella'r ddogfennaeth yn adran 3.5.

### 1.7.2 Adolygiad o'r adnoddau digidol

Mae tîm yr amgueddfa wedi cwblhau proses Feincnodi Ddigidol yr Ymddiriedolaeth Casgliadau ar gyfer y Sector Diwylliant.

Mae'n ddyfais hawdd i'w defnyddio i archwilio sgiliau digidol, offer, gweithgarwch ac anghenion amgueddfa. Mae'n mynd i'r afael ag wyth maes craidd lle mae materion digidol yn effeithio ar y sefydliadau. Trwy weithio trwy gyfres o ddatganiadau ystod ar gyfer pob maes, sydd wedi'u mapio ar ddiagram corryn, mae'n delweddu'r sefyllfa gyfredol ac yn galluogi amgueddfeydd i bennu meysydd yr hoffent eu datblygu. Mae hyn yn galluogi amgueddfeydd i benderfynu beth yr hoffent ei wneud yn y dyfodol o ran gallu, sgiliau, cenhadaeth a pholisi digidol.


Cynhaliwyd dadansoddiadau SWOT a PEST wrth ddatblygu Blaengynllun yr amgueddfa a dangosodd y rhain bod gan y staff nifer o bryderon ynghylch eu defnydd o'r cyfryngau digidol. Defnyddiwyd y sylwadau hyn i lywio'r asesiad ac mae'r heriau digidol allweddol a ddaeth i'r golwg yn yr asesiad hwn yn cael eu nodi isod.

| | |
|---|---|
| Strategaeth | Dim strategaeth ddigidol yn ei lle nac wedi'i chynnwys yn y Blaengynllun |
| Pobl | Mae angen rhagor o sgiliau ar y staff er mwyn defnyddio'r dechnoleg newydd a'i haddasu ar gyfer eu hanghenion nhw, yn hytrach na chael eu harwain gan y dechnoleg ei hunan |
| Systemau | Mae newidiadau sydyn a'r ffaith fod y cyfrifiaduron yn darfod yn golygu bod angen prynu rhai newydd costus.<br>Mae'r cyfrifiaduron yn araf iawn wrth ddelio â lluniau mawr a rhaglenni graffeg. Gan fod y gweinyddion yng Nghanolfan Rheidol, nid ar y safle, gall rhai rhaglenni fod yn feichus ac yn araf.<br>Nid yw'r offer na'r sgiliau ar gael i wneud rhagor o waith dylunio ac argraffu yn fewnol.<br>Mae cyfyngiadau Cyngor Ceredigion ar TG ac ar fynediad at adnoddau allanol ar y we yn effeithio ar yr hyn y gall yr amgueddfa ei gyflawni a'i greu.<br>Rydym yn dibynnu'n fawr ar PCs a gliniaduron sy'n anaddas ar gyfer llawer o'r tasgau y mae arnom angen eu gwneud.<br>Mae gan yr amgueddfa gatalog ardderchog o 95%+ o'r casgliadau ac roedd yn un o'r cyntaf yn y DU i ddatblygu catalog electronig llawn (gan ddefnyddio MODES) yn yr 1990au. |
| Digideiddio | Nid yw'n hawdd digideiddio.  Mae angen lluniau digidol da o eitemau'r |

| | |
|---|---|
| | casgliadau; gwaith dylunio ar gyfer llenyddiaeth addysgol, arddangosiadau, arddangosfeydd a marchnata, neu sgyrsiau ar gyfer grwpiau cymunedol; ac elfennau aml-gyfrwng at lawer o ddibenion. Mae'r holl dasgau hyn yn rhan o waith craidd yr amgueddfa. |
| Darparu'r cynnwys | Mae gan yr amgueddfa ei gwefan ei hunan a gaiff ei diweddaru'n rheolaidd i gynnwys digwyddiadau a gweithgareddau ac i ddangos ychydig o luniau o'r casgliad http://www.amgueddfaceredigion.cymru/hafan/<br><br>Mae'r ddolen rhwng prif wefan Amgueddfa Ceredigion a gwefan Pilgrim (casgliadau) wedi dod i ben. Mae gwefan Pilgrim wedi'i harchifo a bydd angen ei hailddatblygu cyn y gall weithio eto. |
| Dadansoddeg | Diffyg dealltwriaeth o gyfradd llwyddiant dulliau marchnata |
| Ymgysylltu | Byddai'n dda cael cyfrifiadur Modes i'r cyhoedd ei ddefnyddio.<br><br>Mae gan yr amgueddfa bresenoldeb ar y cyfryngau cymdeithasol, Twitter a Facebook, ac mae prosiectau wedi defnyddio gwefannau blogio fel tumblr i rannu gwybodaeth a denu sylw e.e. at brosiect Hadau. https://hadaucrafts.tumblr.com/ |
| Refeniw | Ni ddefnyddir dulliau digidol i godi refeniw |

Yn gyffredinol, sylweddolir nad oes gan yr amgueddfa bresenoldeb ar-lein da na chysylltiadau digidol da â chynulleidfaoedd a hynny ar adeg pan fo ymwelwyr yn disgwyl i sefydliadau diwylliannol ddarparu gwell deunyddiau ar-lein trwy'r amser. Mae angen i'r sefydliad gofleidio technoleg ddigidol er mwyn ymgysylltu â chymunedau, gwella profiad ymwelwyr a gwneud gwaith marchnata a hyrwyddo.

Dyma rai meysydd lle mae'r staff yn gweld cyfleoedd: defnyddio technoleg VR yn yr amgueddfa, rhith-ymweliadau â'r amgueddfa, ac ap ar gyfer yr amgueddfa neu gwis rhyngweithiol ar-lein y gallai ymwelwyr ei ddefnyddio. Soniwyd hefyd am ddefnyddio technoleg ddigidol i annog pobl i gyfrannu ac i gasglu sylwadau ac ymateb cwsmeriaid. Nodir y canlyniadau yn y diagram corryn isod.



## 1.8 Heriau a chyfleoedd

Yn dilyn ymarferiad SWOT i ganfod cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau, a rhagor o drafodaethau, rydym wedi rhestru'r prif heriau a chyfleoedd ar gyfer casgliadau'r amgueddfa ac ymgysylltu â'r cyhoedd. Defnyddiwyd yr heriau hyn i ddatblygu gweledigaeth a chanlyniadau disgwyliedig y prosiect.

**Mynediad at y casgliadau**

Nid yw'n hawdd i'r staff sy'n gyfrifol am reoli'r casgliadau fynd i'r mannau storio presennol ac nid yw'r mannau hyn yn addas o gwbl ar gyfer aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno ymchwilio i'r casgliadau neu eu hastudio. Nid oes llawer o le i ddod â'r casgliadau allan o'r storfeydd ar gyfer gweithgareddau chwaith ac mae rhai o'r mannau storio'n achosi peryglon iechyd a diogelwch i'r staff.

**Amodau amgylcheddol ar gyfer y casgliadau**

Mae amodau amgylcheddol gwael yn y mannau storio yn peryglu'r casgliadau oherwydd mae tamprwydd, ac amrywiadau yn y tymheredd a'r lleithder cymharol (RH) yn gwneud i'r eitemau ddirywio. Achoswyd y problemau presennol o ran rheoli'r casgliadau gan amgylchiadau a diffyg adnoddau, ac nid ydynt yn adlewyrchu'n wael ar staff yr amgueddfa sy'n gweithio'n galed. Yr her fwyaf yw diffyg lle ac adnoddau.

**Diffyg lle ar gyfer gweithgareddau yn yr amgueddfa**

Mae'r holl le sydd ar gael yn adeilad y Coliseum yn cael ei ddefnyddio ar gyfer arddangosfeydd, gwaith swyddfa a storio casgliadau ac offer. Yr unig lefydd addas ar gyfer gweithgareddau cymunedol neu addysgol yw'r lle ar gyfer arddangosfeydd dros dro a'r awditoriwm, y ddau ohonynt yn rhan o lwybr yr ymwelwyr. Er mwyn datblygu rhagor o weithgareddau gyda chynulleidfaoedd newydd, mae angen rhagor o le ar yr amgueddfa.

**Casgliadau ddim yn gynrychioliadol**

Nid yw casgliadau'r amgueddfa yn cynrychioli'r amrywiaeth sydd yn niwylliannau a chymdeithas Ceredigion heddiw. Ychydig o eitemau sydd yno o gyfnod ar ôl yr 1950au, achos ychydig o waith casglu cyfoes a wnaed oherwydd diffyg lle a diffyg amcanion clir. Bydd gweithgareddau gyda chynulleidfaoedd presennol a rhai newydd yn gyfle i drafod gwerthoedd ac egwyddorion ar gyfer casglu yn y dyfodol ac i wahodd pobl i gyfrannu eitemau.

**Rheoli disgwyliadau a chyfleoedd i gymryd rhan**

Dyma ail ran prosiect ac iddo dair rhan a fydd yn helpu i drawsnewid Amgueddfa Ceredigion. Yn y rhan gyntaf, crëwyd mynedfa a chyfleusterau cyhoeddus newydd, ond ychydig o ailwampio a fu ar yr amgueddfa ei hunan. Bydd y rhan hon yn creu storfeydd newydd a bydd yn cynnwys llawer o bobl yn y broses o adolygu ac ystyried casgliadau'r amgueddfa, ond ni fydd y gwaith o ailwampio'r amgueddfa (a fydd yn fwy amlwg yn weledol) yn digwydd tan drydedd ran prosiect Trawsnewidiadau. Mae'n bwysig bod y sawl sy'n cymryd rhan yn deall bod y gwaith yn cael ei wneud fesul rhan a beth yw'r canlyniadau hirdymor a ddisgwylir.

**Gwybodaeth ddigidol**

Mae'r cyfryngau digidol yn ffyrdd pwysig i amgueddfeydd rannu gwybodaeth a galluogi rhagor o bobl i weld eu casgliadau. Ychydig o wybodaeth sydd gan Amgueddfa Ceredigion ar-lein am eu casgliadau ac mae digon o le i ddatblygu'r maes ac ymgysylltu â phobl.

**Cynaliadwy o safbwynt amgylcheddol ac economaidd**
Mae'r prosiect hwn yn deillio o'r angen i ddarparu gwell amgylchedd ar gyfer y casgliadau er mwyn sicrhau eu bod yn goroesi i'r dyfodol. Bydd angen i adeilad newydd y casgliadau fod yn rhatach i'w redeg ac amharu llai ar yr amgylchedd. Yn ogystal, mae angen i'r prosiect ystyried ffyrdd o arbed arian a chreu incwm.

**Diffyg adnoddau staffio**
Ar hyn o bryd, mae nifer y staff yn yr amgueddfa yn cyfateb i 5.5 aelod llawn amser. Serch hynny, mae'r amgueddfa'n cynnig gweithgareddau amrywiol a rhaglen brysur o arddangosfeydd, yn ogystal â rheoli'r casgliadau a gofalu amdanynt. Bydd angen staff ychwanegol ar y prosiect hwn i helpu â'r gwaith dogfennu, symud a phacio gwrthrychau a'r gweithgareddau i ennyn diddordeb pobl yn y prosiect.

## 1.9 Nodau a disgwyliadau o ran gweledigaeth y prosiect ar gyfer yr amgueddfa

Yn 2018, cynhaliodd yr amgueddfa ymarferiad creu gweledigaeth a oedd yn nodi'r amcanion strategol. Cynhaliwyd arolwg yn defnyddio KILN (cadw, gwella/cynyddu, llai o…, newydd) a REALMS (rhanbarthol, amgylcheddol, y celfyddydau, dysgu, y cyfryngau, gwyddonol) a helpodd i bennu nodau a gweledigaeth yr amgueddfa.
Erbyn 2028, bydd Amgueddfa Ceredigion:

1. ar dir cadarn yn fasnachol
2. yn arwain ym maes adnoddau dysgu
3. yn ganolbwynt ar gyfer diwylliant a threftadaeth
4. yn cael effaith drawsnewidiol ar ein cymunedau amrywiol

**Gweledigaeth yr Amgueddfa**
***Cadw diwylliant a hanes Ceredigion yn fyw trwy ddatblygu, gwarchod a dehongli ein casgliadau.***

Er mwyn datblygu gweledigaeth ar gyfer y prosiect, cyfarfu tîm yr amgueddfa ag ymgynghorwyr a chynrychiolwyr o Common Cause a Chyfeillion yr Amgueddfa i drafod materion cyfredol, y weledigaeth ar gyfer y dyfodol a'r canlyniadau y mae'r prosiect hwn yn ceisio'u cyflawni. Dechreuwyd y cyfarfod trwy drafod materion yn ymwneud â storio casgliadau, mynediad atynt a'u deall. Rhoddwyd y rhain mewn grŵp i roi crynodeb o'r hyn y bydd y prosiect hwn yn mynd i'r afael ag ef.

Crynodeb o'r pwyntiau:

1. Mae'r amodau storio a mynediad at y casgliadau yn anaddas ac yn annigonol - mae'r storfeydd presennol yn achosi risgiau amgylcheddol i'r casgliadau a phroblemau iechyd a diogelwch i'r staff wrth geisio cyrraedd at y casgliadau. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd gofalu'n iawn am y casgliadau ac mae pryder am eu cyflwr yn y dyfodol. Gall fod yn anodd i ymchwilwyr fynd at eitemau hefyd.
2. Mae digon o gyfleoedd i ddysgu ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd. Byddai cynnal mwy o weithgareddau'n gysylltiedig â'r casgliadau yn datblygu cyd-ddealltwriaeth rhwng cymunedau a'i gilydd a rhwng cymunedau a'r amgueddfa.
3. Am nad oes digon o le ar gyfer y casgliadau presennol, ychydig o gyfle sydd i'r amgueddfa gasglu eitemau cyfoes, a gwrthodir llawer o roddion am nad oes lle i'w cadw a bod yr amodau'n anaddas.
4. Does dim digon o staff i ofalu am y casgliadau ac i gyflwyno gweithgareddau sy'n galluogi pobl â gwahanol ddiddordebau i ymgysylltu â nhw'n rheolaidd. Mae angen ail-bacio'r casgliadau ar frys a'u symud i storfa fwy o faint a mwy addas.
5. Mae diffyg dealltwriaeth o rai agweddau ar y casgliadau. Trwy gynnal adolygiad o'r casgliadau gellir deall y gwrthrychau niferus yn well, adolygu eu cyflwr, canfod yr eitemau mwyaf arwyddocaol, ac yn ystyried dyblygu diangen. Dylid cael help y gymuned i wneud hyn.
6. Nid yw'r cynnydd yn y costau rhedeg yn gynaliadwy. Mae angen storfa newydd sy'n defnyddio dulliau newydd ond rhai y profwyd eu bod yn eco-gyfeillgar ac yn gynaliadwy i sicrhau costau rhedeg isel, dull fel y system Passivhaus. Gallai ddod â chyfleoedd i greu incwm hefyd.

Bu'r grŵp yn trafod eu gweledigaeth ar gyfer y storfa newydd a sut y bydd yn effeithio ar yr amgueddfa, oherwydd bydd mwy o le yn y storfa newydd ac felly bydd yr amgueddfa'n gallu cynnig cyfleoedd newydd ar gyfer gweithgareddau ac ymgysylltu â'r casgliadau, a gofod pwrpasol ar gyfer dysgu/gweithgareddau.

| **Bydd y storfa newydd yn:** | **Yr amgueddfa ymhen 10 mlynedd:** |
|---|---|
| • cynnig amodau storio diogel mewn amgylchedd addas a chynaliadwy<br>• golygu bod staff, ymchwilwyr ac ymwelwyr yn gallu mynd at y casgliadau yn hwylus (ac y bydd yn hawdd i ysgolion fynd atynt hefyd)<br>• rhoi rhagor o le ar gyfer y casgliad presennol, a gwaith casglu yn awr ac i'r dyfodol<br>• gynaliadwy o safbwynt amgylcheddol a bydd yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg eco-gyfeillgar er mwyn defnyddio llai o ynni<br>• cynnig cyfleoedd i gynhyrchu incwm<br>• drysorfa o bethau difyr i'w darganfod<br>• batrwm i gasgliadau Cymru o ran amodau storio casgliadau a mynediad atynt gan ddilyn egwyddorion cynaliadwyedd | • Bydd y casgliadau'n cynrychioli diwylliannau a chymunedau Ceredigion mewn ffyrdd mwy diddorol. Byddant wedi'u catalogio'n dda, bydd gwaith ymchwil safonol wedi'i wneud iddynt a bydd dealltwriaeth dda ohonynt<br>• Bydd digon o staff yn yr amgueddfa a'r rheiny'n mwynhau eu gwaith<br>• Bydd ymwelwyr 'Hapus' yn dod yno<br>• Bydd yn arddangos casgliadau amrywiol<br>• Bydd yn cynnig profiadau eithriadol o ddiddorol ac amrywiol i ymwelwyr<br>• Rhoddir pwyslais ar les ymwelwyr a staff<br>• Bydd yn defnyddio dulliau newydd o weld y casgliadau trwy ddulliau digidol, bydd yn haws mynd at y casgliadau a bydd yn bodloni disgwyliadau ymwelwyr yn y dyfodol |

Mae’r Amgueddfa Hapus yn defnyddio fframwaith ‘*Story of Change*’ i gynllunio ac adolygu. Mae hwn yn debyg i’r Theori Newid a’r Model Rhesymeg ond mae’n rhoi mwy o bwyslais ar y gwahaniaeth y dymunwn ei wneud, yn hytrach na beth yr ydym yn ei wneud. Caiff fframwaith y *Story of Change* ar gyfer y prosiect hwn ei nodi isod.

| **Y WELEDIGAETH:** Trwy greu storfa newydd, bydd y prosiect yn sicrhau ei bod yn haws mynd at y casgliadau; gan alluogi'r amgueddfa i ymgysylltu â'r gymuned mewn ffyrdd dyfeisgar a thrawsnewidiol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Y bobl | Yr hyn a roddir i mewn | Y cynnyrch | Canlyniadau tymor byr | Canlyniadau tymor hir |
| Dysgwyr ac ymchwilwyr<br><br>Staff a gwirfoddolwyr<br><br>Defnyddwyr digidol<br><br>Ymwelwyr (â'r amgueddfa ac â'r storfa)<br><br>Pobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau<br><br>Cymunedau â gwahanol ddiddordebau<br><br>Rhanddeiliaid (gweler y rhestr) | Safonau proffesiynol ar gyfer gofalu am y casgliadau<br><br>Egwyddorion yr Amgueddfa Hapus a'r Common Cause<br><br>Storfeydd newydd<br><br>Cyllid<br><br>Amser staff<br><br>Gwybodaeth a phrofiad arbenigol yn berthnasol i'r gweithgareddau a'r casgliadau | Casglu pethau cyfoes<br><br>Casgliadau wedi'u hailbacio yn y storfa<br><br>Storfeydd newydd (i gyd yn yr un lle)<br><br>Lle ar gyfer addysg yn yr amgueddfa<br><br>Staff newydd ar gyfer gwaith ar y casgliadau<br><br>Staff newydd ar gyfer gwaith ymgysylltu<br><br>Gweithgareddau'n ymwneud â'r casgliadau ar gyfer cynulleidfaoedd targed<br><br>Gweithgareddau galw-heibio yn ymwneud â'r casgliadau<br><br>Gwaith ymchwil ar y casgliadau a threftadaeth<br><br>Fframwaith i amgueddfeydd eraill ei ddefnyddio | Pobl yn teimlo perchnogaeth dros y casgliadau<br><br>Y casgliadau'n cynrychioli'r gymuned<br><br>Gofalu'n well am y casgliadau<br><br>Pobl yn dysgu sgiliau newydd<br><br>Pobl yn cael hwyl<br><br>Cymryd rhan yn y gwaith o wneud y dehongli'n fwy perthnasol<br><br>Datblygu perthnasoedd newydd<br><br>Esiampl wych o ddiwylliant a threftadaeth<br><br>Meithrin cyd-ddealltwriaeth mewn cymunedau | Yr amgueddfa'n gynaliadwy o safbwynt ariannol ac amgylcheddol<br><br>Y casgliadau'n cael eu deall a'u gwerthfawrogi'n well<br><br>Gallu dangos cyfraniad at y syniad o Gasgliad ar gyfer y Genedl<br><br>Gallu gwarchod treftadaeth y dyfodol fel y gall pobl ddysgu am ein cenhedlaeth ni<br><br>Ar dir cadarn yn fasnachol<br><br>Dod yn llecyn trawsnewidiol ar gyfer cymunedau amrywiol |

# Rhan Dau: Datblygu Cyfleoedd

## 2.1 Adolygu'r casgliadau ac asesu eu harwyddocâd

### 2.1.1 Cyflwyniad i'r broses adolygu

Fel rhan o'r prosiect, cynhaliwyd adolygiad lefel uchel o gasgliadau Amgueddfa Ceredigion, wedi'i seilio ar y fethodoleg a argymhellwyd gan yr Ymddiriedolaeth Casgliadau yn 'Reviewing Significance 3.0' gan Caroline Reed ac yng nghanllaw CyMAL 'Proses a thempled ar gyfer pennu arwyddocâd. Beth yw eu diben?' Gyda'i gilydd, mae'r dyfeisiau hyn yn galluogi amgueddfeydd i ystyried gwaith rheoli a defnyddio casgliadau, ynghyd â'u harwyddocâd. Mae'r fframwaith hwn yn cynnig dyfeisiau dadansoddi i helpu amgueddfeydd trwy ddwy broses:

1. Mae'r Adolygiad o Gasgliadau yn galluogi amgueddfeydd ac archifdai i:
   - Ddeall lefelau cyfredol y defnydd a wneir ohonynt
   - Asesu safonau cyfredol gofal a rheoli
   - Adolygu blaenoriaethau gofal a rheoli yng ngoleuni'r defnydd a wneir o gasgliadau, eu gwerth a'u harwyddocâd

2. Mae'r Asesiad Arwyddocâd yn galluogi amgueddfeydd ar archifdai i asesu ystyr a gwerth casgliad i grwpiau allweddol o ddefnyddwyr cyfredol a darpar ddefnyddwyr

Nod yr adolygiad oedd meithrin dealltwriaeth lawnach o amrediad y casgliadau, y ffordd yr oeddent yn cael eu storio a'u rheoli ar y pryd a'r potensial ar gyfer ad-drefnu a gwaredu yn y dyfodol. Yn ogystal, bydd yr adolygiad yn cyfrannu at agweddau allweddol eraill ar friff y prosiect, yn cynnwys:

- Adolygiad o ddogfennau cyfredol y casgliadau a mynediad digidol atynt er mwyn sicrhau ymgysylltiad cymunedol ehangach a mwy o gyfathrebu
- Datblygu methodoleg ar gyfer archwilio'r casgliad llawn
- Datblygu methodoleg ar gyfer asesu arwyddocâd y casgliad trwy gael gwybod beth yw'r sefyllfa bresennol, a pha wybodaeth a phrofiad sydd ar gael.

### 2.1.2 Adolygu casgliadau – y fethodoleg safonol

Mae'r broses o adolygu'r casgliadau yn cynnig dull sydyn o 'sgorio' trwy weld y cysylltiad rhwng lefelau cyfredol gwaith rheoli casgliadau, gofalu amdanynt a'u dogfennu a lefelau mynediad at y casgliadau, y math o fynediad a'r defnydd a wneir o'r casgliadau. Mae hyn yn rhoi un ciplun cynhwysfawr o'r casgliad y gellir gwneud defnydd ymarferol ohono i helpu i flaengynllunio ac i ddyrannu adnoddau. Mae'r dull hwn o weithio yn annog staff amgueddfeydd ac archifau i feddwl mewn ffordd realistig am botensial defnyddiau ac i ystyried sut y gellid gwireddu'r potensial hwnnw. Rhoddir sgôr i lefelau **defnydd** cyfredol a defnydd posibl pob uned adolygu gan ddefnyddio meini prawf a nodir mewn grid asesu o dan y penawdau a ganlyn:

- **Cefnogi dysgu**
  Rhoddir sgôr i werth y deunydd o ran cefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant ffurfiol a/neu gyfleoedd anffurfiol i ddysgu

- **Ymholi/ymchwilio**
  Rhoddir sgôr i'r hyn a wneir â'r deunyddiau yn awr a/neu eu potensial i gefnogi gwaith ymchwil academaidd neu waith ymchwil arall neu'r defnydd a wneir ohonynt gan staff wrth ymateb i ymholiadau
- **Arwyddocâd Cychwynnol**
  Mae'n helpu'r sawl sy'n cynnal yr arolwg i wneud asesiad dangosol cryno o'r arwyddocâd ac i roi sgôr am ystyr y deunydd a'i werth i gynulleidfaoedd cyfredol a darpar gynulleidfaoedd.

  Bydd gweithio trwy'r golofn hon yn helpu hefyd i ganfod eitemau unigol a/neu grwpiau o ddeunyddiau a allai elwa o'r holl Broses Asesu Arwyddocâd. Felly, ar hyn o bryd asesiad cychwynnol sydd gennym, wedi'i seilio ar yr hyn a wyddom eisoes, nid ar asesiad trwyadl o'r deunyddiau wedi'i seilio ar waith ymchwil.

- **Mynediad i ddefnyddwyr ar hyn o bryd**
  Rhoddir sgôr ar gyfer lefelau presennol mynediad at y deunydd ei hunan ac at gatalogau a gwybodaeth ddogfennol arall amdano

- **Apêl at gynulleidfaoedd/pa mor hawdd ei farchnata**
  Rhoddir sgôr i ddeunydd am ei apêl presennol neu ei apêl posibl at bobl a'r cyfryngau. Tynnir sylw at eitemau sydd eisoes i'w gweld mewn arddangosiadau neu mewn defnyddiau marchnata, adnoddau ymchwil ac ymgyfarwyddo a/neu ganllawiau sydd i'w cael ar y we neu ar bapur.

Rhoddir sgôr i lefelau cyfredol **gofal a gwaith rheoli** pob uned adolygu gan ddefnyddio meini prawf a nodir mewn grid asesu o dan y penawdau a ganlyn:

- Storio ac arddangos – diogeledd a chynllunio at argyfwng
- Storio ac arddangos – y llecynnau a'r rheseli
- Storio ac arddangos – deunydd pacio a mowntiau arddangos
- Storio ac arddangos – gwaith monitro a rheoli amgylcheddol
- Eitemau'r casgliad – asesiad o gyflwr
- Eitemau'r casgliad – perchnogaeth
- Catalogio/dogfennu

Trwy roi sgôr o 1-5 i bob uned adolygu (neu ran o'r casgliad), gan ddangos i ba raddau mae'n bodloni'r meini prawf a nodir yn y gridiau, datblygir ciplun manwl o lefel y gwaith rheoli/gofalu a'r defnydd a wneir o'r uned. Sgôr o '5' yw lefel isaf y gofal/rheolaeth neu ddefnydd ac '1' yw'r lefel uchaf. Rhoddir cod lliw i'r sgoriau hyn yn y tablau isod. Mae lliwiau'r 'goleuadau traffig' yn ei gwneud yn hawdd sylwi ar anghysondebau rhwng defnydd cyfredol neu ddefnydd posib o'r casgliad a'r lefel o ofal a gaiff neu'r cyfle i'w weld ar hyn o bryd. Er enghraifft, eitemau sy'n apelio'n fawr at gynulleidfaoedd targed ond na ellir eu gweld oherwydd diffyg dogfennaeth neu'r ffaith eu bod yn cael eu cadw mewn mannau anaddas.

| **1 - sgôr uchaf** | **2** | **3** | **4** | **5 sgôr isaf** |
|---|---|---|---|---|

### 2.1.3 Asesiad o Arwyddocâd – y fethodoleg safonol

Mae proses yr Asesiad o Arwyddocâd yn ein galluogi i gael dealltwriaeth ddyfnach o ystyr a gwerth casgliad i nifer o gynulleidfaoedd posibl ac i'r sefydliad sy'n gofalu amdano. Mae'r dull a ddilynir yma

wedi'i seilio ar y fethodoleg a nodir yn Fframwaith Arwyddocâd MALD, ac mae'n asesu arwyddocâd mewn tri maes allweddol:

- Gwerthoedd - a oes i'r casgliad fath penodol o werth y gellir ei ddisgrifio fel hanesyddol, cymdeithasol, artistig/aesthetig neu wyddonol/technolegol?
- Meini prawf er mwyn cymharu - pa rai o nodweddion y casgliad sy'n ei wneud yn arwyddocaol? Yn eu plith mae: tarddiad, prinder a chynrychiolaeth, cyflwr/cyfanrwydd a'r gallu i'w ddehongli ac fe'i bernir mewn perthynas â chasgliadau eraill
- Cwmpas ei arwyddocâd - a yw'r casgliad yn arwyddocaol yn rhyngwladol/genedlaethol, yn lleol/rhanbarthol, i gymuned neu grŵp penodol, neu i safle neu sefydliad neilltuol?

Dylai'r asesiad gael ei lywio gan fewnwelediad arbenigol gan arbenigwyr, staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa a thrwy ymgysylltu â grwpiau cymunedol.

### 2.1.4 Adolygu casgliadau Amgueddfa Ceredigion

Roedd yr adolygiad cychwynnol o gasgliadau Amgueddfa Ceredigion yn edrych ar waith rheoli'r casgliadau a'r defnydd a wnaed ohonynt ac roedd yn ystyried y mannau storio a'r prif fathau o ddeunydd a gynrychiolir yn y casgliad. Adolygwyd **gwaith rheoli'r casgliadau** gan ddefnyddio grid rheoli casgliadau'r Ymddiriedolaeth Casgliadau. Aseswyd pob man storio, gyda phob un o'r mannau yn un uned adolygu. Aseswyd tri ar ddeg o leoliadau i gyd, gan gynnwys tair storfa allanol a deg lleoliad storio/storfa yn adeilad y Coliseum ei hun:

| **Adeilad y Coliseum:** | | | **Storfeydd allanol:** |
|---|---|---|---|
| C1 | Ar y llwyfan | E1 | Garej Stryd y Baddon |
| C2 | O dan y llwyfan | E2 | Hen Adeilad Reprograffeg |
| C3 | Storfa Atig Stryd Portland | E3 | Capel Tre'r Ddôl |
| C4 | Storfa Stryd y Baddon | | |
| C5 | Oriel Archaeoleg | | |
| C6 | Ardaloedd storio ar falconi'r llawr cyntaf | | |
| C7 | Storfa Luniau | | |
| C8 | Ystafell Addysg | | |
| C9 | Ystafell Atig y Coliseum | | |
| C10 | Ardaloedd storio setiau teledu a radio | | |

Mae canlyniadau manwl yr adolygiad hwn i'w gweld yn nhaenlen yr adolygiad o'r casgliadau yn Atodiad A.

Aseswyd y **defnydd a wneir o'r casgliadau** yn ôl maes y casglu. Mae Cynllun Datblygu Casgliadau'r amgueddfa yn amlinellu pedwar ar ddeg o feysydd casglu. Gan fod y mannau storio'n cael eu defnyddio ar gyfer llawer o ddeunyddiau o wahanol fathau, cytunwyd mai deall y defnydd a wneir ohonynt fesul thema fyddai'r ffordd fwyaf effeithiol o ddeall sut mae'r casgliad yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd. Y themâu a ddefnyddir fel unedau adolygu ar gyfer yr asesiad hwn yw:

| | |
|---|---|
| Amaethyddiaeth | Sbesimenau Daeareg |
| Archaeoleg | Mapiau a Siartiau |
| Llyfrau a Dogfennau | Medalau a Medaliynau |
| Darnau Arian, Tocins ac Arian Papur | Sbesimenau Astudiaethau Natur |
| Dillad a Ffabrigau | Lluniau a Phrintiau |
| Crefftau, Masnach a Diwydiannau | Ffotograffau |
| Gynnau | Hanes Cymdeithasol |

Cafodd asesiad cychwynnol o arwyddocâd ei gynnwys yn yr adolygiad hwn o'r defnydd a wneir o'r casgliad. Mae gwaith mwy manwl ar asesiadau arwyddocâd i'w gweld isod yn adran 2.4.

Datblygwyd methodoleg y rhan hon o'r prosiect trwy drafod gyda thîm yr amgueddfa. Cyflwynir y dull cyffredinol o weithredu yn y rhan hon o'r prosiect yn y diagram llif isod.

**Adolygu gwaith rheoli'r casgliadau**

- Adolygu gwaith rheoli'r casgliadau ym mhob ardal storio
- Bydd dogfennau'r adolygiad yn amlygu anawsterau â gwaith rheoli'r casgliadau gan gyfrannu at fethodoleg archwiliad ac argymhellion ar gyfer storio yn y dyfodol

**Adolygu'r defnydd a wneir o'r casgliadau**

- Adolygu'r defnydd a wneir o'r casgliadau yn ôl maes
- Bydd dogfennau'r adolygiad yn amlygu'r defnydd a wneir o'r casgliadau a'r ymgysylltu cyfredol â nhw, ynghyd â rhwystrau a chyfleoedd ar gyfer y dyfodol

**Dewis rhan o gasgliad ar gyfer cynllun peilot/ astudiaeth achos**

- Cynnal adolygiad manwl o'r lle storio yn un rhan o Garej Stryd y Baddon er mwyn pennu methodoleg ar gyfer archwiliad
- Cynnal asesiad manwl o arwyddocâd y casgliad o dŵls gwaith coed
- Ymgynghori a chyngor arbenigol yn cyfrannu at y broses

**Creu methodolegau ymarferol**

- Datblygu methodoleg ar gyfer adolygiad/archwiliad llawn (wedi'i seilio ar waith ar Storfa Stryd y Baddon)
- Datblygu methodoleg ar gyfer asesiad llawn o arwyddocâd, yn cynnwys ymgynghori dros amser â grwpiau cymunedol, rhanddeiliaid, haneswyr, academyddion ac ati.

**Astudiaeth ddichonoldeb ar gyfer datrysiadau/ llecynnau storio newydd**

- Argymhellion ar gyfer mannau storio
- Argymhellion ar gyfer gwella gwaith rheoli casgliadau, eu dogfennu a mynediad digidol
- Argymhellion ar gyfer ymgysylltu â'r gymuned a dysgu

## 2.2 Canlyniadau'r adolygiad o'r casgliadau – gwaith rheoli a defnydd

### 2.2.1 Canlyniadau wedi'u cyfuno

Er mwyn creu trosolwg hygyrch o waith rheoli'r casgliad a'r defnydd a wneir ohono, cyfunwyd canlyniadau'r ddau asesiad. Trwy ystyried ble mae'r gwahanol fathau o gasgliadau'n cael eu storio, mae'r tabl yn dangos sgoriau cyffredinol y gwahanol themâu er mwyn dangos yn sydyn ble mae materion y mae angen mynd i'r afael â nhw. Ar gyfer yr asesiad o waith rheoli'r casgliadau, lle bo eitemau o un math yn cael eu storio mewn sawl lleoliad gwahanol, rhoddir y sgôr isaf ar gyfer pob maen prawf i dynnu sylw at broblemau allweddol a bod hyn yn amharu ar y gofal a gaiff y casgliad

Cafodd y defnydd a wneir o'r casgliadau ei adolygu trwy drafodaeth â thîm yr amgueddfa. Cyflwynir y canlyniadau mewn tabl yn Atodiad A, sy'n amlinellu gweithgareddau ymgysylltu blaenorol ar draws yr holl feysydd casglu ynghyd â'r potensial i'w defnyddio yn y dyfodol, arwyddocâd y gwyddom amdano a bylchau mewn gwybodaeth. Ar gyfer yr asesiad o'r defnydd a wneir o'r casgliadau, cofnodir y sgoriau uchaf a gafwyd ar gyfer eitemau mewn maes casglu er mwyn dangos faint o ddefnydd a wneir ohonynt. Mae'r crynodeb yn dangos lle byddai modd gwneud mwy o ddefnydd o'r casgliadau a'u deall yn well.

**Adolygiad o’r defnydd a wneir o eitemau yn y gwahanol feysydd casglu a sut y cânt eu rheoli**

| **Sefydliad: Amgueddfa Ceredigion** | | **Y defnydd a wneir o’r casgliadau** | | | | | **Gwaith rheoli’r casgliadau** | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cynhaliwyd yr Arolwg gan: RD a staff yr amgueddfa**<br>**Dyddiad: Ionawr - Mawrth 2019** | | A SUPPORTS ARNING | B ENQUIRY / RESEARCH | C PRELIMINARY SIGNIFICANCE | D CURRENT ACCESS FOR USERS | E AUDIENCE APPEAL / MARKETABILIT | F STORAGE + DPLAY - SECURITY + | G STORAGE + DISPLAY – SPACES + | H STORAGE + DISPLAY - PACKING + | I STORAGE + DISPLAY - ENVIRONMEN | J COLLECTION ITEMS - CONDITION | K COLLECTION ITEMS – OWNERSHIP | L CATALOGUING |
| **Maes casglu** | **Mannau storio** | | | | | | | | | | | | |
| **Amaethyddiaeth** | E1, E3, C1, C3 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Archaeoleg** | E1, C5 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Llyfrau a dogfennau** | Trosglwyddwyd i’r archifau | | | | | | | | | | | | |
| **Darnau Arian, Tocins ac Arian Papur** | C7 | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 | 5 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Dillad a Ffabrigau** | E2, C3 | 2 | 2 | 1 | 3 | 2 | 4 | 5 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Crefftau, Masnach a Diwydiannau** | Pob rhan | 2 | 2 | 1 | 3 | 2 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Gynnau** | E1, C7 | 4 | 4 | 3 | 3 | 3 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Daeareg** | C5 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 | 4 | 5 | 4 | 3 | 4 | 3 | 3 |
| **Mapiau a siartiau** | C7 | 2 | 3 | 3 | 3 | 2 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Medalau a medaliynau** | C7 | 3 | 2 | 3 | 3 | 2 | 4 | 5 | 2 | 3 | 3 | 3 | 3 |
| **Sbesimenau Astudiaethau Natur** | C1, C5 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 | 3 | 3 |
| **Lluniau, printiau a chelf** (cyfoes, crochenwaith, 3D, cerfluniau a digidol) | E3, C7 | 2 | 2 | 1 | 3 | 2 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |
| **Ffotograffau** | C7 | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 4 | 5 | 4 | 4 | 4 | 3 | 3 |
| **Hanes cymdeithasol** | Pob rhan | 2 | 2 | 2 | 3 | 2 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 3 |

### 2.2.2 Crynodeb o ganlyniadau'r adolygiad o'r casgliadau

Ar gyfer pob un o feini prawf yr adolygiad (Cynulleidfa/Pa mor hawdd ei farchnata, Cefnogi dysgu, ac ati) rhoddir crynodeb ar wahân isod, gan amlinellu meysydd lle gwelir anawsterau a chyfleoedd a thynnu sylw at y gwaith y mae angen ei wneud i fynd i'r afael â'r rhain.  (Sgôr o 1 yw'r gorau)

| **Trosolwg o'r defnydd a wneir o'r casgliadau** | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb o'r casgliadau** | **Anawsterau, rhwystrau a chyfleoedd** |
| **Cefnogi dysgu** | Ym mhob maes casglu ond un cafwyd sgôr o 2. Mae hyn yn dangos bod llawer o eitemau yn y casgliad:<br>- Wedi'u defnyddio mewn rhaglenni addysg a hyfforddiant ffurfiol a/neu anffurfiol<br>- Â photensial amlwg ar gyfer amcanion/rhaglenni dysgu a gaiff eu cynllunio yn y dyfodol<br>Cafodd llawer o'r meysydd sgôr o 3, gan ddangos bod potensial i'w defnyddio mewn rhaglenni dysgu ac i helpu i ddehongli rhannau eraill o'r casgliad er mwyn dysgu yn y dyfodol. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith estyn allan a'r gwaith dysgu yn defnyddio'r 'casgliad cyffwrdd' yn hytrach na chasgliadau sy'n cael eu storio. | Gwneud mwy o ddefnydd o amrywiaeth a dyfnder y casgliadau mewn gwaith ymgysylltu a gwaith dysgu, ffurfiol ac anffurfiol.<br><br>Datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda chasgliadau, dysgu oddi wrth arferion arloesol da mewn mannau eraill, canolbwyntio ar gael cynulleidfaoedd i ymwneud yn uniongyrchol â'r casgliadau. |
| **Ymholi/ymchwilio** | 2 yw'r sgôr uchaf ar draws holl feysydd y casgliad. Mae hyn yn dangos bod llawer o eitemau yn y casgliad:<br>- Yn cael eu defnyddio ar gyfer ymchwil academaidd neu ymchwil arall<br>- Yn cael eu crybwyll gan staff yr amgueddfa, yr archifau neu'r llyfrgell wrth ateb cwestiynau<br>- O ddiddordeb i ymchwilwyr academaidd/diddordebau arbennig a bod iddynt botensial i ddenu'r cynulleidfaoedd targed | Annog ymchwil i'r casgliadau trwy ymwneud ag ymchwilwyr ac academyddion.<br><br>Cynnwys gwaith ymchwil yng nghofnodion y casgliadau i helpu i ymgysylltu â gwahanol gynulleidfaoedd.<br><br>Gwella'r gwaith dogfennu er mwyn rhannu'r casgliadau â chynulleidfa ehangach, yn cynnwys datblygu dulliau digidol o weld y casgliadau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Arwyddocâd Cychwynnol** | 1 yw'r sgôr uchaf ar draws holl feysydd y casgliad. Mae hyn yn dangos bod llawer o rannau o'r casgliad:<br><br>- Yn ymwneud â phynciau/gweithgareddau sydd o ddiddordeb craidd i'n cynulleidfaoedd targed<br>- Help i ddeall eitemau eraill yn ein casgliadau<br>- Yn enghraifft/ffynhonnell dda/anghyffredin neu nodweddiadol sy'n berthnasol i bynciau/gweithgareddau o ddiddordeb craidd i'n sefydliad a'i gynulleidfaoedd targed a/neu gynulleidfaoedd ehangach<br>- Yn enghraifft/ffynhonnell eithriadol/unigryw sy'n berthnasol i bynciau/gweithgareddau o ddiddordeb craidd i'n cynulleidfaoedd targed<br>- Yn sicr eu tarddiad, gyda chysylltiadau â pherson neu sefydliad sydd o ddiddordeb craidd i'n cynulleidfaoedd targed<br>- O fath sy'n brin mewn casgliadau yn y Deyrnas Unedig<br><br>Ar y cyfan, mae'r sgoriau'n amrywio rhwng 3 ac 1, yn dibynnu i raddau helaeth ar faint o wybodaeth sydd ar gael i'r staff am y casgliadau a pha waith a wnaed eisoes ar eu harwyddocâd. Gwelwyd bod bylchau yn y wybodaeth am lawer o fathau o gasgliadau. Cynhaliwyd asesiadau allanol o arwyddocâd y casgliadau tacsidermi, astudiaethau natur a chelf. Mae trosolwg o arwyddocâd y casgliad cyfan wedi tynnu sylw at lefel arwyddocâd agweddau allweddol o'r casgliadau:<br>**Arwyddocâd lleol/rhanbarthol:** Casgliadau amaethyddol, archaeolegol, astudiaethau natur/tacsidermi<br>**Arwyddocâd cenedlaethol:** Casgliad R.J. Thomas o eitemau'r Methodistiaid Wesleaidd, mordwyo/y môr, carthenni, dodrefn, clociau ac ati, gwisgoedd Cymreig<br>**Arwyddocâd rhyngwladol:** Y casgliad celf, y casgliad o gwiltiau, ffigur pren o'r Oes Haearn | Mynd i'r afael â bylchau allweddol yn y wybodaeth am y casgliadau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o gwmpas ac ystyr y casgliadau trwy ymwneud ag arbenigwyr a grwpiau arbenigol.<br><br>Cynnal asesiadau arwyddocâd cyflawn mewn partneriaeth â'r gymuned leol, academyddion, rhanddeiliaid ac ymwelwyr er mwyn ystyried ym mha ffyrdd y mae casgliadau'n arwyddocaol - ac mae llawer ohonynt.<br><br>Datblygu cyfleodd ar gyfer casglu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y casgliadau'n cynrychioli amrywiaeth yr ardal a'r cynulleidfaoedd yn llwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| Mynediad i ddefnyddwyr ar hyn o bryd | 3 oedd y sgôr ar draws pob maes. Mae hyn yn dangos bod llawer o rannau o'r casgliad:<br>- Ar gael ar gyfer ymchwil<br>- Ar gael i'w harddangos<br><br>Caiff y casgliadau eu catalogio gan ddefnyddio cronfa ddata Modes, sy'n cynnwys dros 68,000 o gofnodion. Mae'r gronfa ddata hon ar gael i'r holl staff ei defnyddio ac fe gaiff ymwelwyr/ymchwilwyr ei defnyddio yn yr amgueddfa gyda chymorth staff.<br><br>Oherwydd anawsterau ynghylch mynd at yr eitemau a chyfyngiadau yn y system gatalogio, nid yw llawer o'r eitemau ar gael i'w harddangos nac ar gyfer gwaith ymchwil ac nid oes modd i'r holl ymwelwyr ddefnyddio'r gronfa ddata'n ddirwystr ar y safle nac ar-lein. | Gwella mynediad at y casgliadau trwy well dogfennu/catalogio.<br><br>Gwella mynediad at y casgliadau trwy gael cronfa ddata hygyrch ar y safle ac ar-lein.<br><br>Ei gwneud yn haws mynd at y casgliadau'n gorfforol trwy gael cyfleusterau storio newydd |
| Apêl at gynulleidfaoedd/pa mor hawdd ei farchnata ydyw | 2 oedd y sgôr ar draws y rhan fwyaf o feysydd. Mae hyn yn dangos bod llawer o eitemau'r casgliad:<br>- Yn ymwneud â phynciau craidd sydd o ddiddordeb i gynulleidfaoedd targed<br>- Yn cael eu crybwyll mewn adnoddau fel canllawiau ymchwil, taflenni gweithgareddau a chanllawiau i gasgliadau a anelir at gynulleidfaoedd targed<br>- Yn cael eu defnyddio mewn arddangosiadau tymor byr/yn cael eu rhoi ar fenthyg i gael eu harddangos<br>- Yn cael eu defnyddio mewn prosiectau cymunedol/ymgysylltu â'r cyhoedd<br>- Yn arwain at geisiadau am luniau i'w hargraffu | Mae'r defnydd a wneir o'r casgliadau ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yn amrywio o faes i faes, a gwneir llawer mwy o ddefnydd o eitemau mewn rhai meysydd nag mewn eraill.<br><br>Mae angen gwaith ymchwil ac ymgynghori er mwyn deall apêl posibl eitemau at gynulleidfaoedd a pha mor hawdd yw eu marchnata |

| **Gwaith rheoli'r casgliadau:** | | |
|---|---|---|
| | **Crynodeb o'r casgliadau** | **Safonau a gofynion ar gyfer y dyfodol** |
| Diogeledd a chynllunio at argyfwng | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 5. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br>- Eitemau'n cael eu storio ar y llawr oherwydd prinder lle ac offer annigonol<br>- Mannau storio heb eu cloi a modd mynd iddynt heb oruchwyliaeth e.e. y llwyfan | Rhaid i'r mannau storio fod wedi'u cloi a bod modd rheoli pwy sy'n mynd yno. Rhaid sicrhau bod yr amgueddfa'n gweithredu'r arferion gorau o ran cynllunio at argyfwng. |

| | | |
|---|---|---|
| **Y mannau storio a'r rheseli** | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 5. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br>- Casgliadau'n cael eu storio yn yr un mannau ag eitemau nad ydynt yn rhan o'r casgliadau<br>- Cabinets a rheseli storio yn annigonol a/neu'n ansefydlog ac yn anaddas ar gyfer storio pethau e.e. silffoedd rhydlyd, eitemau ar y llawr<br>- Peryglon i iechyd a diogelwch y staff – trawstiau a nenfydau isel yn yr atig, perygl baglu, eitemau'n cael eu cadw'n uchel<br>- Dim lle i drafod/archwilio eitemau<br>- Gormod o bethau ar silffoedd<br>- Golau gwael/dim golau a'r awyru'n wael<br>- Dim ardaloedd gweithio/trin a dim cwpwrdd gwyntyllu lle gellir defnyddio cemegau'n ddiogel<br>- Does neb yn gwybod beth yw'r llwyth mwyaf a ganiateir mewn rhai mannau<br>- Mae'n anodd cyrraedd at eitemau a gall gwrthrychau gael eu difrodi wrth geisio gwneud<br>- Dim yn hawdd mynd a dod mewn rhai storfeydd, rhai â llwybrau anwastad ac ysgolion heb eu dal yn sownd<br>- Diffyg cyfleusterau i'r staff – toilet, ffôn, sinc | Mannau storio penodol ar gyfer y casgliadau.<br><br>Digon o reseli/silffoedd ac offer storio, yn cynnwys ysgolion, a'r rheiny o safon briodol<br><br>Ei gwneud yn hawdd i staff ac ymwelwyr gyrraedd y mannau storio<br><br>Gwell cyfleusterau i'r staff – mannau gweithio, mannau ar gyfer swyddfa, toiledau, ffôn<br><br>Mannau gweithio dynodedig – gweithdy, stiwdio gadwraeth, lle ar gyfer dysgu<br><br>Amgylchedd addas i ofalu am y casgliadau – goleuadau, awyru. |
| Deunydd pacio a mowntiau arddangos D | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 5. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br>- Er eu bod mewn amgylchedd budr, heb ei reoli, nid oedd yr holl eitemau wedi'u gwarchod rhag llwch na'u cadw mewn bocsys<br>- Eitemau heb eu gwarchod na'u cynnal yn ddigonol, e.e. hetiau copa tal (hetiau traddodiadol menywod)<br>- Gwahanol ddeunyddiau pacio'n cynnwys deunyddiau nad ydynt o safon cadwraeth<br>- Gormod o eitemau mewn bocsys a rholiau ac ar reiliau (cwiltiau a blancedi)<br>- Angen papur sidan di-asid newydd a/neu adolygu'r defnydd a wneir ohono | Adolygu anghenion pacio a storio'r eitemau.<br><br>Canolbwyntio ar ddefnyddio llai o stwff pecynnu fel ei bod yn haws gweld y casgliadau a'n bod yn defnyddio llai o stwff. |

| | | |
|---|---|---|
| Gwaith monitro a rheoli amgylcheddol | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 5. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br><br>- Lleithder Cymharol (RH) a'r tymheredd yn ansefydlog ac yn tueddu i amrywio'n fawr, y tu allan i'r amrediad derbyniol<br>- Dadleithyddion wedi torri<br>- Amodau amgylcheddol yn anaddas ar gyfer y gwahanol fathau o ddeunyddiau oedd yn cael eu storio gyda'i gilydd<br>- Difrod i'r adeiladwaith - tamprwydd am fod y to'n gollwng, y waliau'n ansefydlog ac yn gollwng llwch<br>- Golau artiffisial heb ei reoli, golau dydd heb ei gau allan bob amser<br>- Am fod rhai mannau'n anodd eu cyrraedd mae'n amhosibl rheoli a monitro plâu<br>- Am fod rhai mannau'n anodd eu cyrraedd mae'n amhosibl eu glanhau<br>- Mae'r tymheredd mewn swyddfa a ddefnyddir i storio pethau yn anaddas ar gyfer casgliadau | Gwella'r amodau amgylcheddol i gyrraedd safonau sylfaenol rheoli casgliadau o ran lleithder cymharol (RH), tymheredd, golau, rheoli plâu a glanhau ac ati. |
| **Asesiad o gyflwr** | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 4. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br><br>- Mae amodau amgylcheddol gwael yn golygu bod gwrthrychau metel yn dirywio, llwydni'n tyfu a phlâu yn creu difrod<br>- Os yw'n anodd cyrraedd at wrthrychau, yr unig bryd y cânt eu harchwilio yw pan fwriedir eu defnyddio<br>- Mae rhai eitemau'n anghyflawn/wedi'u difrodi neu'n dirywio, ac mae rhai'n fregus ac angen eu gwarchod<br>- Nid yw eitemau'n cael eu hamddiffyn rhag llwch/baw<br>- Os yw storfeydd wedi'u gorlenwi, mae peryg y caiff eitemau eu difrodi trwy eu taro/symud<br>- Nid yw sylweddau a all fod yn anweddol/peryglus mewn casgliadau yn cael eu nodi na'u trin/storio yn briodol | Archwiliad o'r casgliad i gynnwys asesiad o gyflwr yr holl eitemau.<br><br>Gwella amodau amgylcheddol i fodloni safonau sylfaenol rheoli casgliadau. |

| | | |
|---|---|---|
| **Perchnogaeth** | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 3. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br>- Nid oes nod adnabod unigryw ar bob eitem – labeli wedi'u colli, eitemau heb eu derbynodi cyn eu rhoi yn y storfa, rhai o eitemau Aberystwyth Ddoe heb eu derbynodi<br>- Rhifau dros dro wedi'u defnyddio<br>- Nodir y tarddiad ond heb fod yn ddigon manwl<br>- Cytunwyd ar yr holl fenthyciadau diweddar i mewn ac allan ac maent wedi'u dogfennu, yn wahanol i fenthyciadau hŷn i mewn ac allan. Rhaglen yn ei lle i fynd i'r afael â hyn | Ôl-ddogfennu ac adolygiad o'r dogfennau ategol yn rhan o'r prosiect.<br><br>Archwiliad o'r casgliad i fynd i'r afael ag anawsterau'n ymwneud â dogfennu benthyciadau ac i alluogi gwirio a diweddaru cofnodion. |
| **Catalogio/dogfennu** | Ar draws yr holl ardaloedd storio, roedd y sgôr isaf yn 3. Mae hyn yn dangos bod anawsterau allweddol y mae angen mynd i'r afael â nhw.<br>- Y rhan fwyaf o'r deunyddiau wedi'u dogfennu i lefel ofynnol safon SPECTRUM a chofnodion catalogio sylfaenol ar gronfa ddata gyfrifiadurol Modes<br>- Data presennol y catalog ar gael i'r holl staff<br>- Rhai eitemau heb eu derbynodi na'u catalogio<br>- Cofnodion lleoliad a symudiadau'n anghyflawn e.e. heb nodi'r bae na'r silff<br>- Llawer o eitemau heb ffotograffau<br>- Oherwydd diffyg gwybodaeth am sbesimenau daearegol, mae rhai heb eu catalogio<br>- Nid yw'r maes 'disgrifiad byr/sylwebaeth fer' bob amser yn gyflawn ac weithiau mae'r disgrifiad yn dechnegol iawn<br>- Dim digon o wybodaeth am y cyd-destun a diffyg ffeiliau am hanes y gwrthrychau? | Rhaglen ddatblygu'n cynnwys diweddaru ac ehangu cofnodion catalogio.<br><br>Gwella gwaith rheoli lleoliadau a symudiadau. Cynnwys gwybodaeth o ffeiliau hanes y gwrthrychau a manylion am y cyd-destun yng nghofnodion Modes. |

## 2.3 Ymgynghori ac ymgysylltu wrth ddatblygu’r prosiect hwn

### 2.3.1 Cyflwyniad

Trwy gydol y prosiect rydym wedi cwrdd â rhanddeiliaid a darpar bartneriaid i drafod y prosiect ac i ganfod ffyrdd o weithio gyda'n gilydd. Mae Adran 1.6 yn disgrifio sut mae staff yr amgueddfa wedi bod yn ymwneud â sefydliadau a grwpiau cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn wedi rhoi dealltwriaeth dda i'r staff o wahanol grwpiau sydd â chefndiroedd a diddordebau gwahanol, ac maent hefyd wedi elwa ar eu profiad o gyflenwi'r Cynllun Gweithgareddau ar gyfer y prosiect Dulliau Newydd a ariennir gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Fel rhan o’r gwaith o gynhyrchu datganiad peilot o arwyddocâd ar gyfer yr offer trin coed, cynhaliwyd dau weithdy, gyda’r nod o gael gwell dealltwriaeth o'r offer a’u harwyddocâd a darganfod ymateb pobl iddynt.

### 2.3.2 Gweithdy rhanddeiliaid

Roedd gweithdy cychwynnol gyda rhanddeiliaid, staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa yn gyfle i gyflwyno’r tîm ymgynghori a’r prosiect. Ar ôl cyflwyno pawb i'w gilydd, cafwyd cyflwyniad gan Stuart Evans, technegydd yr amgueddfa, yn tynnu sylw at yr anawsterau sy'n codi gyda threfniadau storio presennol y casgliadau. Yna, cymerodd y grŵp ran mewn ymarfer SWOT ynghylch trefniadau storio'r casgliad. Defnyddiwyd y rhain i helpu i nodi'r heriau a'r cyfleoedd yn adran 2.1. Yn ogystal, bu'r grŵp yn trafod y ffaith ei bod yn anhwylus cyrraedd at y casgliadau sy'n cael eu storio yn yr amgueddfa ac oddi ar y safle, ei bod yn anodd parhau i gasglu gan fod y storfeydd eisoes yn rhy llawn, a bod amodau storio anaddas yn peryglu'r casgliadau. Roeddent yn gwerthfawrogi'r ffaith fod y casgliadau mor amrywiol, gyda llawer o eitemau o fywyd bob dydd a bywyd y cartref, ac fe soniodd rhai ohonynt bod y casgliad yn unigryw ac yn uchel ei barch yn lleol ac yn genedlaethol. Mae cyfleoedd yn bodoli i ehangu'r casgliadau i adrodd straeon newydd a chasglu gwrthrychau ar gyfer y dyfodol, i wneud y defnydd gorau o dechnoleg er mwyn i fwy o bobl gael gweld y casgliadau ac i wella amodau amgylcheddol y casgliadau. Mae cyfleoedd hefyd i ymgysylltu â chynulleidfaoedd newydd gan gynnwys pobl yn y broses. Esboniodd yr ymgynghorwyr y cynllun gwaith a'r offer a ddefnyddiwyd i gynnal yr adolygiad o'r casgliadau a'r datganiad o arwyddocâd. Yn ogystal, bu'r grŵp yn trafod cynulleidfaoedd cyfredol a chynulleidfaoedd posibl ar gyfer y prosiect hwn, gan gysylltu rhannau o'r casgliad â grwpiau penodol.

### 2.3.3 Gweithdy gyda myfyrwyr Coleg Ceredigion

Bu myfyrwyr o Goleg Ceredigion yn cymryd rhan yn y prosiect Dulliau Newydd a nhw a wnaeth unedau arddangos y siop newydd. Fe wnaethon ni holi staff y cwrs gwneud dodrefn am y posibilrwydd o gyfrannu eto, ac roedd eu hymateb yn gadarnhaol iawn er bod amser yn brin (oherwydd gwyliau coleg), a threfnwyd gweithdy. Dechreuodd y grŵp trwy edrych ar yr arddangosfa gyfredol o dŵls gwaith coed yn yr amgueddfa. Roeddent yn hoffi holl amrywiaeth y dodrefn yn ogystal â'r tŵls, ac fe dreuliwyd amser yn archwilio uniadau ac yn gweld sut y lluniwyd y dodrefn. Fe wnaethant nodi bod rhai o'r arddangosiadau yn isel iawn, a'r lle (yn y balconi) yn eithaf cul, bod y testun dwyieithog yn anodd ei ddilyn (mae angen mwy o wahaniaeth rhwng lliw y ddwy iaith) a bod y graffeg a'r labeli yn edrych braidd yn flinedig. Hefyd, byddai'n dda cael mwy o wybodaeth yn agos at y gwrthrychau.

Yn ystod gweddill y gweithdy, treuliodd y grŵp amser yn ystyried detholiad o'r offer trin coed y daethpwyd â nhw o'r storfeydd. Roedd yno gasgliad a ddaeth o waith cerbydau, set o dŵls a fu'n eiddo i GT Ellis, ac offer turnio coed. Yna, mewn parau, bu'r grŵp yn trafod y tŵls fesul un, gan ateb cwestiynau am eu pwrpas, eu teimlad, o beth y cawsant eu gwneud ac a ydynt yn defnyddio rhywbeth tebyg yn eu gwaith heddiw.





Mwynhaodd y grŵp drafod y syniad bod y tŵls wedi'u gwneud i bara, ac felly'n wahanol i offer pŵer modern sy'n cael eu taflu unwaith y bydd y batri yn stopio gwefru. Nodwyd hefyd bod angen llawer o offer ar rai tasgau yn y gorffennol, ond heddiw dim ond un peth sy'n gallu gwneud sawl tasg fyddai arnynt ei angen.

Yn ystod y gweithdy, bu Curadur yr amgueddfa'n cynnal ymarferiad mapio gwerth, er mwyn ystyried pa werthoedd oedd gan y grŵp yn gyffredin. Seilir y ffordd hon o ddeall gwerthoedd ar waith y Common Cause Foundation ac mae'n diffinio gwerthoedd yn nhermau'r deg grŵp gwerthoedd cyffredinol sy'n cynnwys meysydd fel grym, diogeledd a chydymffurfiaeth. Rhoddwyd cyfres o osodiadau i'r myfyrwyr a'r staff, wedi'u seilio ar y grwpiau gwerthoedd hyn, a gofynnwyd iddynt ddewis pedwar roeddent yn uniaethu'n gryf â nhw. Yna, plotiwyd yr ymatebion ar fap gwerthoedd cyffredinol ac adroddwyd yn ôl i'r grŵp, gan dynnu sylw at y gwerthoedd y maen nhw fel grŵp yn eu rhannu.

### 2.3.4 Gweithdy gydag arbenigwyr gwaith coed

Gwahoddwyd pobl i gymryd rhan trwy'r grŵp Men's Shed, gwirfoddolwyr yr amgueddfa, un o guraduron yr amgueddfa oedd wedi ymddeol, Tir Coed a Turnwyr Pren Canolbarth Cymru. Cymerodd naw o bobl ran yn y gweithdy hwn gan ddilyn patrwm tebyg i weithdy'r myfyrwyr, gyda'r un set o dŵls. Ni fu'r grŵp yn ystyried yr arddangosiadau cyfredol, dim ond canolbwyntio ar y tŵls. Buont yn ystyried cwestiynau sy'n adlewyrchu themâu'r datganiad o arwyddocâd, yn edrych ar werth hanesyddol, aesthetig, cymdeithasol a gwyddonol/technolegol y casgliadau a'u gwerth o ran tarddiad a phrinder.



Roedden nhw wrth eu bodd â'r casgliad, llawer ohonynt yn gweld tŵls yr oedden nhw neu eu tadau'n eu defnyddio ac fe fuont yn hel atgofion am amser. Sylwyd nad oedd awch ar y rhan fwyaf o'r tŵls ac y byddent wedi'u cadw'n finiog trwy ddefnyddio clwtyn ag olew arno a hogwr. Nodwyd hefyd y byddai pobl yn rhannu tŵls slawer dydd, bod rhai o'r enghreifftiau hyn o ansawdd da iawn ac y buasent yn fuddsoddiad. Cynhaliwyd yr un ymarferiad mapio gwerthoedd ag a wnaed gyda'r myfyrwyr fel ffordd o ystyried y gwerthoedd sydd ganddynt yn gyffredin.

Mae ymatebion y ddau weithdy wedi'u cynnwys yn y datganiad o arwyddocâd y tŵls gwaith coed yn adrannau 2.4.2 a 2.4.3 isod.

#### 2.3.5 Men's Shed a Grŵp Cymunedol Cletwr

Mae rhan o gasgliadau'r amgueddfa'n cael ei storio yng nghapel hanesyddol y Wesleaid yn Nhre'r Ddôl, ger siop a chanolfan gymunedol Cletwr. Ymddiriedolaeth sy'n berchen ar y capel, ac os symudir y casgliadau i le newydd bydd angen pwrpas newydd ar gyfer y capel. O dan delerau'r ymddiriedolaeth, mae'n rhaid i'r pwrpas hwnnw fod yn ddefnydd priodol o'r adeilad hanesyddol sy'n caniatáu mynediad i'r cyhoedd. Mae gan y gymuned leol ddiddordeb mawr yn y defnydd a wneir o'r capel yn y dyfodol, ac fe wnaethom ni drefnu i drafod cyfleoedd gydag aelodau o'r Men's Shed a'r grŵp cymunedol sy'n rhedeg canolfan Cletwr. Mae grŵp Men's Shed yn defnyddio sied ar bwys y siop i gadw offer a hoffent gael gwell adeilad. Mae canolfan Cletwr wedi bod yn ganolbwynt ar gyfer gweithgareddau cymunedol a hoffent gael lle sy'n dehongli'r hanes lleol. Gellid troi'r Hen Gapel yn fyncws gyda lle i ddehongli treftadaeth, wedi'i reoli trwy Gwmni Cletwr. Mae'r amgueddfa'n trafod gyda thrigolion lleol i gasglu syniadau am ffyrdd i ddefnyddio'r capel gan adeiladu ar y diddordeb a ddangoswyd eisoes i gomisiynu eu hastudiaeth ddichonoldeb eu hunain ar gyfer yr Hen Gapel.

## 2.4 Datblygu datganiad o arwyddocâd ar gyfer y casgliad o dŵls gwaith coed

#### 2.4.1 Methodoleg yr astudiaeth beilot

Roedd asesiad peilot o arwyddocâd yn canolbwyntio ar y tŵls gwaith coed er mwyn helpu i ddatblygu templed ar gyfer datblygu'r fethodoleg arwyddocâd sy'n dilyn yn adran 3 o'r adroddiad hwn. Llywiwyd y broses gan y ddau weithdy ymgynghori, un gyda staff a myfyrwyr o Goleg

Ceredigion a'r llall gyda phobl sydd â diddordeb mewn gweithio gyda phren a chasgliadau hanesyddol a phrofiad ymarferol o wneud hynny, fel y disgrifir yn 2.3.3 a 2.3.4. uchod. Cysylltwyd hefyd â gwahanol arbenigwyr a phobl sydd wedi gweithio gyda'r casgliad yn y gorffennol i gasglu eu barn am y casgliad ac i helpu i ateb cwestiynau am ei arwyddocâd. Rhestrir enwau'r bobl hyn isod, ac mae'r tabl yn dangos hefyd pwy oedd yn gallu ymateb i'r cais am gyfraniad. Gwelir y cyfraniadau hyn yn Atodiad B.

| | **Rôl** | **Cafwyd ymateb?** |
|---|---|---|
| **Helen Palmer** | Archifydd y Sir a Rheolwr Cofnodion, Archifdy Ceredigion | Do |
| **Ollie Douglas** | Curadur Cynorthwyol, Museum of English Rural Life | Do |
| **Bob Shaw** | Ymddiriedolwr gyda Tir Coed a choediwr proffesiynol | Do |
| **Michael Freeman** | Hanesydd / Curadur Amgueddfa Ceredigion 1984-2012 | Do |
| **Stuart Evans** | Cyn-dechnegydd, Amgueddfa Ceredigion | Do |
| **Roger Bray** | Gwirfoddolwr, Amgueddfa Ceredigion | Naddo |
| **Emyr Davies** | Cadwraethwr, Amgueddfa Cymru | Naddo |
| **Gareth Beech** | Uwch-guradur yr Economi Wledig, Amgueddfa Cymru | Naddo |

Yn ogystal â cheisio barn am y casgliad, casglwyd gwybodaeth hefyd o gronfa ddata Modes yr amgueddfa, er mwyn deall tarddiad y casgliad, yr hyn a wyddom amdano eisoes, ac ystyried cyfleoedd i ddatblygu gwell dealltwriaeth o'i arwyddocâd yn y dyfodol. Trefnwyd y wybodaeth a gasglwyd yn drosolwg, sy'n cynnwys rhannau allweddol o ymatebion arbenigwyr a rhai o'r ymatebion a gafwyd yn y gweithdai. Nodwyd yr holl gwestiynau am arwyddocâd a awgrymir yn fframwaith MALD, a chynnig atebion lle bo modd er mwyn creu trosolwg o'r hyn a wyddom. Mae'r wybodaeth hon wedi'i nodi hefyd mewn Datganiad o Arwyddocâd mwy ffurfiol, gan ddefnyddio templed wedi'i addasu o ddull MALD. Yn ogystal, defnyddiwyd yr ymarferiad mapio gwerthoedd a gynhaliwyd yn ystod y gweithdai ymgynghori i lywio'r ffyrdd o asesu arwyddocâd.

### 2.4.2 Trosolwg o'r asesiad o arwyddocâd

**Asesiad o Arwyddocâd gan Amgueddfa Ceredigion**
**Maes y casgliad: Tŵls gwaith coed**

**Disgrifiad manwl**

- O beth y cafodd ei wneud?
- Sut mae'n edrych?
- Beth yw maint y casgliad? Beth yw mesuriadau'r gwrthrych: uchder, pwysau, lled a hyd?
- Sut y cafodd ei wneud?
- Beth yw nodweddion allweddol y gwrthrych neu'r casgliad?

ACCOUNT BOOK adjustable spanner adze ADZE anvil ARCHIMEDIAN DRILL AUGER awl AWL axe AXE beading plane BEADING PLANE BENCH BENCH VICE BEVEL BILL BIT BLADE BLOCK BLOCK PLANE boat plane BOOK BOW SAW box BOX BOXING ENGINE brace BRACE BRACE BIT BRADAWL BRUSH BUCKLE CALLIPERS CAN CARPENTER'S BOOK CARPENTER'S BRACE CARPENTER'S CHEST CARPENTER'S COMPASS CARPENTER'S GAUGE CARPENTER'S MARKING GAUGE CARPENTER'S SQUARE carpenter's tools carpenters tools CART WHEEL CENTRE BIT CENTRE PUNCH CHEST chisel CHISEL CLAMP CLAW HAMMER COACHMAKER'S ROUNDER coffin plane COFFIN PLANE COFFIN PLANE IRON COLD CHISEL COMPASS convex jack plane CRAMP CROSS CUT SAW CROWBAR cutter CUTTER DEVICE DIAMOND POINT BIT DIVIDER DIVIDERS DOCUMENT DOG DRAW BLADE DRAW KNIFE DRILL DRILL BIT END-GRAIN AUGER ENGINE file FILE FOLDING RULER FORMER FRAME SAW FRETSAW gauge GAUGE GAUGE/WEDGE GIMLET GIMLET BIT glue glue pot GLUE POT gouge GOUGE GRAINER grooving plane GROOVING PLANE GUAGE HACKSAW HAMMER HAND DRILL

ogee plane OGEE PLANE OIL CAN OIL STONE OUTSIDE CALLIPER ovello plane OVELLO PLANE PAMPHLET PANEL GAUGE PARALLEL RULER paring chisel peg PENCIL PICTURE PINCERS PIT SAW PITCH POT plane PLANE PLANE IRON pliers PLIERS PLOUGH PLANE PLOUGH PLANE IRON pot POT PRINT PROTRACTOR PUNCH RASP rebate plane REBATE PLANE rebating plane REBATING PLANE REST RIP SAW rope ROUNDER router ROUTER ruler RULER SASH CLAMP SASH PLANE saw SAW saw set SAW SET SAWING HORSE scalple SCRAPER scratch plane SCRATCH STOCK SCREW screwdriver SCREWDRIVER SCRIBE SCRIBER SCRIVEN set SET SET SQUARE SHARPENING STONE SHELL BIT SLACK SLIDING BEVEL smoothing plane SMOOTHING PLANE spanner SPANNER SPIRAL WOOD BIT SPIRIT LEVEL spokeshave SPOKESHAVE square SQUARE STAPLE STOCK STONE STRAP string tape measure TAPE MEASURE TEMPLATE TENNON SAW TENON SAW TIMBER DOG tool TOOL TOOL CHEST TRI-SQUARE TRYING PLANE T-SQUARE TURNING CHISEL TURNING GOUGE TWEEZERS TWIST AUGER V-GAUGE VICE WEDGE WHEEL witches tooth WOOD WOOD VICE

| | |
|---|---|
| HANDLE HAT SMOOTHER HORSE IRON jack plane JACK plane JACK PLANE JEMMY JOINT KEY KEYHOLE SAW KNIFE LATHE leather worker's rotary spiker LEVEL MALLET MARKER marking gauge MARKING GAUGE MATERIAL MEASURE MITRE BLOCK mortice chisel MORTICE CHISEL moulding plane MOULDING PLANE NAIL NEWSPAPER OAK | *Cwmwl tagiau enwau syml wedi'i gynhyrchu o gofnodion Modes* |

Yng nghasgliad Amgueddfa Ceredigion mae dros 1,300 o eitemau sy'n gysylltiedig â gwaith saer, gwaith turnio a gwaith seiri olwynion, seiri certi, adeiladwyr coetsys ac adeiladu llongau. Mae gan nifer fawr o'r tŵls farciau gwahanol wneuthurwyr masnachol; gwnaed llawer hefyd gan y seiri a'r crefftwyr a'u defnyddiai. Mae enwau'r perchnogion ar rai o'r tŵls. Gyda'i gilydd mae'r casgliad yn cynrychioli llawer o wahanol grefftau a'u swyddogaeth mewn bywyd bob dydd yn y gorffennol - bywydau'r crefftwyr/masnachwyr a'r rhai a brynai a/neu a ddefnyddiai eu cynnyrch. Yn gyffredinol. mae'r casgliad yn cynnwys y crefftau isod:

**Gwaith saer**
Ddechrau'r 20fed ganrif roedd y saer yn un o grefftwyr pwysicaf y pentref neu'r dref. Roedd disgwyl iddo wneud neu atgyweirio pob math o bethau pren. Gan amlaf, roedd y saer yn gweithio â darnau mawr o bren, yn llifio ac yn hoelio uniadau syml. Mathau mawr, sylfaenol o neddyfau (bwyeill cam), bwyeill, llifiau, offer tyllu, cynion a morthwylion oedd y tŵls yn bennaf. Mae offer mesur a phrofi yn y bocs tŵls hefyd.

**Gwaith asiedydd**
Roedd asiedyddion (joiners) yn gwneud dodrefn a ffitiadau o ddarnau llai o bren cymalog, gan wneud fframiau, ffenestri codi, grisiau a phanelau addurnol. Roedd eu tŵls yn debyg i rai saer ond byddent yn cynnwys gwahanol blaeniau hefyd er mwyn creu mowldinau amrywiol.

**Adeiladu Cychod**
Roedd angen medrusrwydd a chydweithrediad nifer o grefftwyr i adeiladu llong hwyliau, yn cynnwys y saer llongau a oedd yn creu corff y llong, gan ddilyn cynlluniau wrth raddfa. Ymhlith y tŵls mae cynlluniau wrth raddfa wedi'u tynnu gan ddefnyddio arcau a chilgantau cromliniau'r drafftsmon.

**Gwaith saer dodrefn**
Roedd seiri dodrefn yn defnyddio pren lleol a phren mwy egsotig o dramor, fel pren coed cnau Ffrengig, mahogani a phren sidan. Gan fod y mathau hyn o bren yn gostus, roeddent yn aml yn cael eu defnyddio fel argaenau (haenau main o bren wedi'u glynu ar bren rhatach). Roedd tŵls y saer dodrefn yn debyg i rai'r asiedydd ond byddai ganddo offer arbennig ar gyfer argaenu (*veneering* a *marquetry*) a gwaith addurnol tebyg.
Mae rhai o dŵls **seiri olwynion, seiri certi** a **thurnwyr coed** yn y casgliad hefyd.

**Gwerthoedd allweddol**

**A. Hanesyddol**

| | |
|---|---|
| Pwy oedd biau hwn o'r blaen?<br>Ble cafodd ei wneud?<br>Pwy wnaeth e?<br>Beth oedd ei ddiben?<br>Pryd ddaeth e i ddwylo'r sefydliad?<br>Pam gafodd e ei gasglu?<br>Sut cafodd ei gaffael? Rhodd ynteu bryniant?<br>A oes ganddo gysylltiad uniongyrchol â digwyddiad, person, grŵp etc hanesyddol?<br>A yw'n cynrychioli thema, proses neu batrwm byw neilltuol?<br>Sut mae'n perthyn i hanes, daearyddiaeth neu amgylchedd y man lle cafodd ei greu neu ei ddefnyddio? | Mae cofnodion da am y casgliad yng nghronfa ddata Modes yr amgueddfa ac fe gafodd yr eitemau eu casglu rhwng 1972 a heddiw. Mae'r eitemau'n dyddio o'r 1760au ymlaen, y rhan fwyaf o ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.<br><br>Trwy roddion y cafwyd y rhan fwyaf o'r eitemau yn y casgliad hwn: rhoddion a chymynroddion yw 58% o'r eitemau ac fe brynwyd 31%, llawer ohonynt mewn ocsiynau yn yr 1970au a'r 1980au. Nid oes gwybodaeth gyd-destunol gyda'r rhan fwyaf o'r rhai a brynwyd mewn ocsiynau ond mae rhai cofnodion yn dweud o ba ardaloedd y daeth yr eitemau ac mae rhai'n enwi'r bobl gysylltiedig, ond nid yw'r rhan fwyaf o'r cofnodion yn gwneud hynny.<br><br>Mae sawl grŵp o dŵls a gafwyd yn rhoddion yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol am eu perchnogion a'r defnydd a wnaed ohonynt. Dyma rai enghreifftiau o'r wybodaeth gysylltiedig;<br><br>• Grŵp o 55 o dŵls yn perthyn i Mr Andrews a fu'n ymladd yn y Rhyfel Byd Cyntaf. Ymhlith y tŵls mae medryddion (gauges), sgwâr, plaeniau, pren mesur, cyllell a rhasgl cowper.<br>• Grŵp o 42 o dŵls yn dyddio o'r 1880au gan Mr Guile o Bow Street, Ceredigion. Mae'r eitemau hyn yn cynnwys ebillion camtro, geingiau, gwimbillion, pren mesur plygu a phlaen eirch. Yn wreiddiol, roedd y casgliad yn cynnwys indeintur rhwng prentis o'r enw William Harris a William Wilson, saer dodrefn, dyddiedig 1876. Mae enw W. Harris ar sawl un o'r tŵls.<br>• 36 o eitemau o'r cyfnod 1850-1920 a gyfrannwyd gan Mr Morris Jones. Roedd yr eitemau'n eiddo i dad-cu a hen dad-cu'r rhoddwr. Roedd yn byw yn Rest, Llanafan ac yn gweithio yn siop saer Rest ac, o bosib, ym Melin Lifio Rest. Mae gan Gomisiwn Brenhinol Henebion Cymru (CBHC) ddogfennau'n ymwneud â'r felin lifio a gellir eu gweld trwy Coflein, eu hadnodd ar-lein, ac yn archifdy Ceredigion http://archifdy-ceredigion.org.uk/catalogue.php?sched=adx.1140.html&lastsearch=rest%20mill<br>• Cafwyd 59 o eitemau'n rhodd. Roeddent yn eiddo i T.O.Mathias, saer o Drefechan. Yn eu plith roedd gordd, ffeiliau, ebill dril taradr, camdro a rhasgl<br>• Rhoddwyd 28 o eitemau gan Mr a Mrs Thomas, yn gysylltiedig â'r Thomas Carriage Works, Southgate, Aberystwyth. Yn y Carriage Works y gwnaed y fflôt laeth sydd i'w gweld yn yr amgueddfa hefyd. Mae gwybodaeth (yn cynnwys ffotograffau) am y Carriage Works a'i berchnogion i'w chael trwy wefan Casgliad y Werin Cymru https://www.casgliadywerin.cymru/collections/377885<br>• Rhoddwyd 24 o eitemau gan yr Henadur Richard Jenkin Ellis a fu'n faer Aberystwyth ddwywaith. Roedd y tŵls yn eiddo i G.T.Ellis ac mae stamp ei enw ar lawer ohonynt. |

| | |
|---|---|
| | Disgrifiodd **Helen Palmer, Archifydd Sir Ceredigion** y math o waith ymchwil a fyddai'n hybu gwell dealltwriaeth o gyd-destun hanesyddol y casgliad a gwnaeth awgrymiadau penodol ynghylch tŵls G.T. Ellis.<br><br>*"Mae'n debygol y gallem ddod o hyd iddo ef a'i deulu ar y cyfrifiad, canfod ei gartref ar fapiau a ffeindio'i fusnes mewn Cyfeiriaduron Busnes. Gallem chwilio am hysbysebion mewn hen bapurau newydd ac efallai y byddai modd dod o hyd i fanylion fel dyddiad priodi a marw/claddu yng nghofrestri'r plwyf (er, fel y gwelir isod, trodd y teulu'n Fedyddwyr ryw bryd). Mae un eitem yn ymwneud yn benodol ag R.J. Ellis [rhaglen Gwasanaeth Coffa R.J.Ellis yn 1976] ond byddai hynny'n fan cychwyn ar gyfer edrych yng nghofnodion Bwrdeistref Aberystwyth lle dylai fod manylion am ei fywyd gwleidyddol a dinesig fel Henadur a Maer, ac mewn adroddiadau papur newydd (yn cynnwys ysgrif goffa o bosib a fyddai'n help i roi'r teulu ac, efallai, y casgliad, yn eu cyd-destun."*<br><br>Mae'r tŵls yn dystiolaeth hanesyddol o grefftau gwledig yn ardal Ceredigion, datblygiad masnach a bywydau'r bobl. Mae cysylltiad rhyngddynt a sawl rhan arall o'r casgliad – yn cynnwys dodrefn, adeiladu, hanes llongau a'r môr, diwydiant a busnesau eraill.<br><br>Yn y gweithdy gyda myfyrwyr **Coleg Ceredigion** cafwyd cyfleoedd i drafod pa ddefnydd a wneid o wahanol dŵls.<br><br>***Dangosodd Rick sut i ddal y taradr ac esbonio sut i'w ddefnyddio***<br><br><br><br>*"Mae'n torri tyllau i roi tynoau mewn morteisiau wrth godi adeiladau. Gwnaed y goes o dderw wedi'i durnio. Mae ymyl y taradr braidd yn finiog. Byddai'n cael ei droi glocwedd i mewn i'r pren i wneud twll da ar gyfer peg."*<br><br>***Bu Julie'n sôn am un o'r plaeniau ac yn dangos sut i'w ddal:***<br><br>*"Plaen bach yw hwn. Dyw e ddim yn fflat am ei fod yn cael ei ddefnyddio i blaenio arwynebau crwm. Wrth blaenio, byddai'n tynnu haen ar ôl haen o'r pren. Roedd gwahanol blaeniau ar gyfer gwahanol fathau o bren. I ddefnyddio'r plaen: daliwch* |

| | |
|---|---|
| | *y cefn ag un llaw a gwneud cwpan o'ch llaw arall ar y tu blaen, gan fynd un ffordd gan ddilyn y graen"*  |
| **B. Artistig/aesthetig** | |
| A ydi/oedd y dyluniad yn ddylanwadol neu'n ddyfeisgar?<br>A ydi'r dyluniad/saernïaeth o ansawdd da?<br>A yw'n cynrychioli arddull, math, mudiad neu ddyluniad? | Gwnaed llawer o'r tŵls gan wneuthurwyr tŵls masnachol penodol ac mae rhai o ansawdd uchel. Mae yma enghreifftiau gan W. Marples & Sons, A. Mathieson & Son, Glasgow a Rd Melhuish o Lundain. Enillodd Melhuish rai o wobrau'r diwydiant am eu tŵls ac mae modd dod o hyd iddynt mewn catalogau ar-lein: er enghraifft, mae'n bosib bod y llif dyno fach oedd yn eiddo i G.T.Ellis yn cael ei chynrychioli yn y catalog hwn: http://www.blackburntools.com/articles/rose-tools-catalog-archives/pdfs/melhuish-no-21-i.pdf<br>pobl yn y ddwy sesiwn ymgynghori am harddwch y tŵls, gan nodi bod modd eu defnyddio i ddeall y berthynas rhwng y crefftwr a'u offer, y gofal a gawsent ac, yn aml, yr amser a gymerodd y crefftwyr eu hunain i'w gwneud.<br>Soniodd grŵp **Coleg Ceredigion** am ddyluniad un o'r plaeniau rabed (yn y llun). Disgrifiwyd sut y câi ei ddefnyddio a nodwyd y byddai'r gwneuthurwr wedi cymryd amser i greu teclyn oedd yn edrych yn dda yn ogystal â bod yn ymarferol, gan ychwanegu siâp oedd yn ei wneud yn beth hardd i'w ddefnyddio.<br>Felly mae'r tŵls yn cynrychioli'r crefftwyr a'u gwnaeth ac a'u defnyddiai. Roeddent yn creu'r tŵls roedd arnynt eu hangen ar gyfer tasgau penodol ac, os nad oedd teclyn addas ar gael, byddent yn gwneud un. Er mai offer i wneud job o waith oedd y rhain, roedd y gwaith dylunio a'r crefftwaith o safon uchel ac roeddent yn edrych yn dda. |

| **C. Cymdeithasol** | |
|---|---|
| Ydi e'n cynrychioli perthnasoedd neu symbol o gredoau, syniadau neu ddiwylliannau? Ydi e'n golygu rhywbeth neilltuol/amlwg i grŵp penodol yn y gymuned neu i'r gymuned gyfan?<br><br>Sut y caiff yr ystyr a'r cysylltiad hwn eu hamlygu? A yw'n rhan eiconig o'r casgliad? Llun/gwrthrych a gyflwynir ac sy'n gofeb? | Trwy waith ymchwil ychwanegol, bydd modd dysgu am fywydau pobl a ddefnyddiai rai o'r tŵls, eu swyddogaeth yn y gymuned leol a'r cysylltiadau oedd yn rhan o'u bywyd gweithiol. Mewn ffordd debyg, efallai y bydd modd archwilio'r berthynas rhwng pobl a'r eitemau yr oedden nhw'n eu prynu ar gyfer eu cartrefi a'r statws sydd iddynt. I ychwanegu at hyn, efallai y gellir edrych ar y tŵls ochr yn ochr â rhannau eraill o'r casgliad, fel dodrefn a dysglau pren, llwyau a phowlenni. |
| **D. Gwyddonol / Technolegol** | |
| Ydi e'n gweithio? (darnau sy'n symud e.e. peiriannau)<br><br>A oes cysylltiad amlwg rhwng y gwrthrych/casgliad a gwyddoniaeth neu dechnoleg? | Mae darnau gweithiol mewn llawer o'r eitemau, rhai ohonynt yn gweithio. Un o'r ffyrdd gorau o ddeall y gwrthrychau yw eu gweld yn cael eu defnyddio. Byddai glanhau cadwraethol yn lles i lawer gan nad ydynt yn ffit i'w defnyddio ar ôl cael eu storio am gyfnod.<br><br>Mae'r tŵls yn dangos y technegau gwaith coed oedd yn cael eu defnyddio slawer dydd ac yn amlygu'r newidiadau a fu mewn dulliau cynhyrchu. Mae ymateb un o'r bobl oedd yng ngweithdy myfyrwyr Coleg Ceredigion yn dangos sut y byddent yn cael eu defnyddio a sut mae tŵls wedi newid:<br><br>***Bu Jess yn sôn am y medrydd marcio***<br>*"Defnyddir y medrydd marcio i farcio pren sydd wedi'i dorri ac i'w dorri â llif, i wneud llinell ohono. Mae'n ysgafn iawn ac mae arogl hen focs tŵls arno. Dydyn nhw ddim yn gwneud rhain bellach. Mae corcsgriw bach yn y canol i'w symud i fyny ac i lawr. Mae'n hawdd gwneud llinell syth ohono."*<br><br>Soniodd y grŵp hefyd bod llawer o'r tŵls wedi mynd allan o ffasiwn gan fod un darn o offer trydan yn gwneud gwaith sawl un o'r hen dŵls erbyn hyn. |

| E. Gwerth ac effaith gymunedol | |
|---|---|
| Sut mae pobl yn ymateb iddo?<br><br>Sut mae pobl yn ymateb i'w hanes a'r storïau sy'n gysylltiedig ag ef?<br><br>Pa werthoedd mae pobl yn eu cysylltu ag ef?<br><br>Sut mae'r gwrthrych yn gwneud i bobl deimlo?<br><br>Pa ymateb emosiynol y mae'n ei ennyn? | <br><br>Dangosodd y gweithdai ymgynghori fod y casgliad o dŵls yn amlwg yn berthnasol ac yn ystyrlon i grwpiau heddiw, a'u bod yn priodoli gwahanol werthoedd iddo. Dyma rai o'r ymatebion:<br><br>Dewisodd sawl un a fu yn y **Gweithdy Arwyddocâd** siarad yn fwy manwl am lif Melhuish G.T.Ellis. Soniwyd am harddwch yr eitem a sut deimlad oedd dal teclyn a oedd wedi'i wneud mor dda ac a oedd wedi cael cystal gofal. Gellir gweld ffilm o'r drafodaeth hon yma: https://vimeo.com/363323901<br><br>Mae eu sgyrsiau'n awgrymu eu bod o'r farn bod y ffaith fod y llif wedi'i gwneud mor grefftus a bod y perchennog wedi cymryd gofal arbennig ohoni yn rhoi gwerth arbennig iddi.<br><br>Yn ei ymateb i'r casgliad o dŵls gwaith coed, awgrymodd y coediwr lleol Bob Shaw fod yr offer yn werthfawr am eu bod yn berthnasol i fudiadau amgylcheddol heddiw ac y gallai grwpiau sy'n dymuno adfywio sgiliau a ffyrdd o fyw traddodiadol eu defnyddio:<br><br>*"Erbyn hyn cafwyd adfywiad mewn diddordeb yn llawer o'r hen dŵls yn enwedig oherwydd y sylw a gaiff Newid yn yr Hinsawdd, ymdrechion i sicrhau Datblygiadau Di-garbon a Chynhwysiant Cymdeithasol, Iechyd a Lles, ac ati. Mae'r tŵls hyn yn cynnwys: rhacanau gwair, picweirch, pladuriau, peiriannau a gâi eu tyn geffylau, tŵls garddio, tŵls gwaith coed, bwyeill, llifiau traws, llifiau torri coed, llifiau pwll, jigiau a dyfeisiau hogi, a nifer o dŵls ar gyfer crefftau fel basgedwaith, gwehyddu, gwnïo ac ati. Mae casgliad yr amgueddfa'n rhoi cipolwg bwysig i ni ar y defnydd ymarferol a wnaed o'r offer hyn. Er enghraifft, synnais lun o bladur gadair yn yr Amgueddfa yn ddiweddar a llwyddais i wneud un tebyg a helpu i bladurio cae o wenith aeddfed."* |

<table>
<tr><th colspan="2">Meini prawf er mwyn cymharu</th></tr>
<tr><td>F. Tarddiad</td><td></td></tr>
<tr><td>Ydi e’n gysylltiedig â lle/casgliad/gwrthrych neilltuol?<br><br>Ydi’r gwrthrych/casgliad wedi’i ddogfennu’n dda?<br><br>Ydi hi’n ffynhonnell wreiddiol?<br><br>Allwch chi gynnig tystiolaeth o’r cysylltiadau honedig rhwng y gwrthrych neu’r casgliad a phobl, llefydd ac ati?</td><td>Nodir yn fras beth yw tarddiad y rhan fwyaf o bell ffordd o’r eitemau ond, yn aml, dim ond y wybodaeth a gafwyd gan y rhoddwr sydd gennym ac nid yw hynny’n ein helpu i ddeall hanes y gwrthrych, y defnydd a wnaed ohono na’i hanes cymdeithasol.<br><br>Yma, mae Michael Freeman, Curadur Amgueddfa Ceredigion, 1984-2012, yn esbonio’r rhesymeg dros gasglu rhai eitemau nad oedd eu tarddiad yn hysbys:<br><br>“Gan amlaf, dydyn ni ddim yn gwybod y manylion, a doedd y rhoddwyr ddim yn gwybod chwaith. Fy mholisi i oedd casglu eitemau oedd heb lawer o wybodaeth ychwanegol (heb ddisgwyl ei cadw am byth) fel y gallai rhywun, rywbryd, ymchwilio i’w harwyddocâd. Dyma’n union sy’n digwydd gyda deunydd archaeolegol sydd heb lawer o wybodaeth ategol os o gwbl. Efallai na ddaw gwir arwyddocâd yr eitemau yn amlwg hyd nes i batrwm ddechrau ymddangos mewn gwahanol agweddau ar yr eitemau (dyluniad, deunyddiau, dull cynhyrchu…) a bydd yr arwyddocâd yn newid wrth i bobl edrych ar hanes mewn gwahanol ffyrdd ac i ddarganfyddiadau newydd ddod i’r amlwg.”</td></tr>
<tr><td colspan="2">G. Prinder / Pa mor gynrychioliadol ydyw</td></tr>
<tr><td>Ydi e’n golygu rhywbeth i le/cymuned/unigolyn neilltuol?<br><br>A oes enghreifftiau eraill mewn amgueddfeydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol?<br><br>Beth yw’r berthynas rhyngddo a’r enghreifftiau eraill hyn?<br><br>Ydi e’n unigryw?</td><td>Mae’r casgliad yn golygu rhywbeth yn lleol, gan gynnig tystiolaeth o grefftau yng Ngheredigion ar hyd yr oesau. Byddai’n dda cael archwilio casgliadau eraill tebyg er mwyn deall y prosesau, y defnydd a wnaed o’r tŵls a’r math o ymchwil y gellid ei wneud.<br><br>Awgrymodd Ollie Douglas, Curadur Cynorthwyol yn y Museum of English Rural Life, bod y casgliadau eraill perthnasol yn cynnwys eu casgliad nhw a: St Albans (casgliad Salaman), Birmingham (casgliad Pinto Treen), High Wycombe (deunyddiau ar gyfer gwneud ac atgyweirio cadeiriau), ac ychydig o amgueddfeydd gwledig eraill yn cynnwys y Weald & Downland Living Museum.<br><br>“Mae casgliadau arbenigol o dŵls ac offer gwaith coed mewn sawl lle yn ogystal â gennym ni ond gennym ni mae llyfrgell y Tools and Trades History Society ac mae gennym gasgliad eithaf cynhwysfawr o’r math hyn o beth. Gallai fod yn werth holi’r TATHS (Tools & Trades History Society).”</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | Y casgliad mwyaf perthnasol o safbwynt daearyddol a diwylliannol fyddai'r casgliad yn Amgueddfa Cymru. |
| **H. Cyflwr neu gyfanrwydd** | |
| Ydych chi o'r farn fod cyflwr yr eitem yn: Dda, Gweddol, Gwael, Gwael Iawn?<br><br>A oes difrod? Sut yr achoswyd y difrod?<br><br>Ydi'r eitem wedi'i haltro? Beth mae'r gwaith altro yn ei ddweud wrthym am hanes y defnydd a wnaed o'r eitem? A oes gwaith cadwraeth/adfer wedi'i wneud ar yr eitem? A yw'r eitem yn gyflawn (a oes rhywbeth amlwg ar goll – caead, handlenni ac ati)? | Gwnaed asesiad o gyflwr llawer o'r tŵls fel rhan o'r prosiect *Hadau.* Nid yw'r asesiadau hyn wedi'u hychwanegu at gofnodion Modes ond maen nhw'n dangos bod cyflwr y tŵls yn amrywio o Da i Gwael Iawn. Defnyddiwyd yr asesiad i ddewis eitemau oedd yn addas i'w harddangos, wedi'i seilio'n bennaf ar eu cyflwr a'u pwrpas. Mae llawer o'r eitemau wedi'u difrodi ac mae/bu pryf pren yn rhai ohonynt. |
| **I. Potensial ar gyfer dehongli** | |

| | |
|---|---|
| A yw'r gwrthrych neu'r casgliad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil/dysgu neu estyn allan?<br><br>A oes ganddo'r potensial i gyfrannu at waith ymchwil, dysgu neu waith estyn allan?<br><br>A allai gyfrannu at ddehongli'r gorffennol ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol gan godi proffil yr amgueddfa?<br><br>A oes ceisiadau'n cael eu gwneud yn aml i gael benthyg y casgliad? Pam? | Cafodd y casgliad tŵls ei asesu a'i adolygu fel rhan o brosiect Hadau, gan gydweithio â staff o Tir Coed, y coediwr Bob Shaw, a gwirfoddolwyr, i feithrin gwell dealltwriaeth o'r tŵls a'u pwrpas, i asesu eu cyflwr ac i benderfynu pa rai sy'n addas i'w harddangos. Arweiniodd y prosiect hwn at greu arddangosiad parhaol newydd am waith coed, sy'n tynnu sylw at waith y saer a chrefftwyr eraill, nodweddion pren o wahanol goed, a thechnegau gwaith coed fel gwneud uniadau a'r defnydd a wnaed o wahanol dŵls.<br><br>Nid yw'r tŵls yn cael eu defnyddio ar gyfer dysgu nac ymgysylltu ar hyn o bryd. Yn ogystal, awgrymodd cyfranwyr wahanol gyfleoedd i ymgysylltu a gwahanol ffyrdd o ddefnyddio gwrthrychau nad oes mo'u hangen bellach.<br><br>Bob Shaw:<br><br>*"Mae angen adfer rhai a gallai hyn agor drysau i gysylltu â sefydliadau eraill fel: The Landworkers Alliance, elusennau lleol, tyfwyr organig a gwahanol grwpiau coetiroedd. Gallai gweithdai adfer fod yn bosibilrwydd hefyd."*<br><br>Ollie Douglas (MERL):<br><br>*"Mae yna gronfeydd/llyfrgelloedd tŵls ac elusennau ailddefnyddio y byddai'n werth gwybod amdanynt rhag ofn bod gennym ddau o rywbeth neu bod rhywbeth yn cael ei ddad-dderbynodi ac ati."* |

### 2.4.3 Datganiad o arwyddocâd

| | |
|---|---|
| **Enw'r amgueddfa** | Amgueddfa Ceredigion |
| **Enw'r asesydd** | Ruth Darling (Headland Design) |
| **Dyddiad yr asesiad** | Awst 2019 |
| **Enw'r gwrthrych / casgliad / sypyn** | Casgliad tŵls gwaith coed |
| **Rhif derbynodi'r gwrthrych neu rif dilyniant y casgliad** | Gwahanol rifau derbynodi |
| **Lleoliad presennol** | Garej Stryd y Baddon, storfa Atig Stryd y Baddon |
| **Disgrifiad byr o'r gwrthrych/casgliad** | Dros 1,300 o dŵls gwaith coed ar gyfer crefftau a busnesau amrywiol |
| **Beth a ddefnyddiwyd i'w gwneud?** | Pren, metel |
| **Maint** | Amrywiol |
| **Asesiad o gyflwr:**<br>**gwael iawn / gwael / gweddol / da** | Mae cyflwr y casgliad yn amrywio o "gwael iawn" i "da" |
| **Ffotograff neu luniad** | Dim yn berthnasol |
| **Asesiad cyfunol y matrics** | I'w gadarnhau |

**Disgrifiad manwl**

Casgliad amrywiol o dros 1,300 o eitemau unigol wedi'u casglu dros gyfnod o 40 mlynedd. Mae'n cynnwys grwpiau a gafwyd gyda'i gilydd ac eitemau unigol o ffynonellau amrywiol. Cafodd rhai ohonynt eu rhoi'n rhoddion i'r amgueddfa ac fe brynwyd eraill oddi wrth unigolion a theuluoedd ac mewn ocsiynau.

**Asesiad manwl o gyflwr**

Aseswyd cyflwr y rhan fwyaf o'r casgliad fel rhan o brosiect *Hadau*, pan fu tîm o staff a gwirfoddolwyr yn archwilio ac yn diweddaru cofnodion catalogio'r holl offer. Cynhaliwyd asesiad gweledol sydyn ganddynt hefyd. Amlygwyd eitemau oedd mewn cyflwr gwael ac ni chawsant eu hystyried ar gyfer eu harddangos.

**Ymchwil a chefndir**

Gwnaed ymchwil yn ystod prosiect *Hadau*, yn cynnwys nodi beth oedd y tŵls ac ymchwilio i'r gwneuthurwyr. Ni wnaed unrhyw ymchwil arall ac mae llawer o le i gael gwell dealltwriaeth o'r tŵls, y bobl oedd yn eu defnyddio a'r defnydd a wnaed ohonynt. Felly, asesiad rhagarweiniol yw hwn ac mae angen ychwanegu ato wrth i ni ddysgu mwy am y casgliad.

Mae lle i gydweithio ag Archifdy Ceredigion i roi'r offer yn eu cyd-destun hanesyddol a gallai sawl sefydliad gefnogi'r gwaith hwn, gan gynnwys y Tools & Trades History Society (TATHS).

**Cymharwch: Lleoedd ac eitemau cysylltiedig**

Ymhlith y casgliadau cymharol perthnasol mae casgliadau Amgueddfa Cymru a'r Museum of English Rural Life

**Pennu arwyddocâd trwy feini prawf allweddol:**

| **Hanesyddol** | **Cymdeithasol** | **Artistig neu aesthetig** | **Gwyddonol, ymchwil neu dechnegol** | **Gwerth ac effaith gymunedol** |
|---|---|---|---|---|
| X | X | | | X |

| | |
|---|---|
| **Ydi'r cofnodion tarddiad yn dda ynteu'n wael?** | Cymysg |
| **Ydi'r gwrthrych / casgliad yn brin?** | Na, dim ond mewn cyd-destun lleol |
| **Beth mae'r gwrthrych / casgliad yn ei gynrychioli?**<br>**Enwch sefydliad sydd â gwrthrych / casgliad cymharol** | Crefftau lleol yng Ngheredigion o'r $18^{fed}$ i'r $20^{fed}$ ganrif<br><br>Amgueddfa Cymru a MERL |
| **Ydi'r gwrthrych / casgliad yn gyfan?**<br>Fel gwrthrych neu gyfres h.y. pâr o sgidiau, tebot â chaead, set gyflawn o fedalau. | Na |
| **A oes potensial ar gyfer dehongli?**<br>**Beth mae hyn yn helpu i'w ddehongli?** | Oes - y gallu i ddehongli crefftau allweddol a gwahanol fathau o waith coed yn ogystal â diwydiannau lleol. Cyfle i ddefnyddio hyn i ddehongli rhannau eraill o'r casgliad yn ehangach, yn cynnwys dodrefn a chasgliadau hanes cymdeithasol. Mae lle i ddefnyddio'r tŵls i ddehongli bywyd gweithiol a bywyd yn y cartref. |
| **Blwch testun rhydd (ar gyfer nodiadau ychwanegol)** | |

| **Tarddiad** | **Pa mor brin neu gynrychioliadwy** | **Cyflwr neu gyfanrwydd** | **Potensial ar gyfer dehongli** |
|---|---|---|---|
| | x | | X |

| | |
|---|---|
| **Pa mor arwyddocaol – yn rhyngwladol / yn genedlaethol (Cymru neu'r Deyrnas Unedig) / yn rhanbarthol / yn lleol** | Rhanbarthol a lleol |

**Datganiad o Arwyddocâd**

Ar hyn o bryd, nid ydym yn gwybod digon i roi barn bendant am arwyddocâd y casgliad ond mae'r rhestr isod yn dangos y potensial ar gyfer datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o ran y gwahanol ffyrdd o edrych ar arwyddocâd:

**Hanesyddol:**

Byddai gwaith ymchwil ychwanegol yn ein galluogi i ddeall:

- Crefftau a chrefftwyr lleol
- Busnesau a gweithleoedd lleol e.e. Thomas Carriage Works
- Y newid mewn tŵls, prosesau a thechnegau gwaith coed dros amser
- Patrwm bywyd crefftwyr lleol, y pethau roeddent yn eu defnyddio ac economi crefftau lleol

**Cymdeithasol:**

Mae'r casgliad yn golygu rhywbeth i weithwyr coed heddiw sydd â diddordeb yn yr offer fel tystiolaeth o sgiliau a thechnegau'r gorffennol. Mae hefyd yn rhoi cipolwg ar y defnydd ymarferol a wnaed o dŵls a oedd yn gyffredin yn y gorffennol. Gwelwyd adfywiad mewn diddordeb yn y rhain oherwydd y sylw a gaiff materion fel newid yn yr hinsawdd, ymdrechion i sicrhau datblygiadau di-garbon, cynhwysiant cymdeithasol, a iechyd a lles. Mae grwpiau yn ardal Aberystwyth sydd â diddordeb mewn gweithio gyda'r casgliadau i archwilio'r materion hyn ymhellach

**Artistig/Aesthetig**

Mae gweithwyr coed yn gweld yr offer fel gwrthrychau hardd sy'n adrodd stori crefftwaith y gorffennol – o

ran y defnydd a wnaed o'r tŵls a'r grefft o greu'r tŵls eu hunain. Maent yn gynnyrch o safon ac yn ddolen gyswllt werthfawr iawn â'r bobl a fu'n gweithio gyda phren yn y gorffennol fel y maen nhw'n gwneud heddiw.

**Gwerth ac effaith gymunedol:**

Mae'r tŵls yn ddolen gyswllt rhwng pobl heddiw a phobl yn y gorffennol trwy gynrychioli gwaith crefftwyr. Mae rhai ohonynt yn cynrychioli ansawdd y gwaith hwnnw a'r ymrwymiad cryf i waith proffesiynol, o safon uchel. Maent yn golygu rhywbeth i bobl heddiw sy'n trin coed ac maent yn bwysig yn yr adfywiad presennol mewn crefftau coetir a chrefftau gwaith coed.

**Cynrychiolaeth:**

Mae'r casgliad hwn yn cynrychioli crefftau allweddol yng Ngheredigion o'r 18$^{fed}$ ganrif hyd at yr 20$^{fed}$.

**Potensial ar gyfer dehongli:**

Ar hyn o bryd nid yw'r rhan fwyaf o'r casgliad yn cael ei arddangos na'i ddefnyddio ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd. Byddai ymchwil ychwanegol yn golygu y gellid defnyddio'r offer i archwilio'r themâu uchod ac yn helpu i ddehongli eitemau eraill yn y casgliadau, fel dodrefn, offer amaethyddol a'r casgliadau hanes cymdeithasol.

### 2.4.4 Y gwersi a ddysgwyd a’r argymhellion

**Cydweithio ag eraill i asesu arwyddocâd**

Mae'n cymryd llawer o amser i gysylltu ag amrywiaeth o bobl i gyfrannu at y broses asesu. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl a wahoddwyd yn awyddus i gymryd rhan a dywedodd sawl un na allent gyfrannu at y broses yn y cyfnod peilot am eu bod yn rhy brysur ond yr hoffent gymryd rhan yn y dyfodol.

Felly mae'n hanfodol bod y broses yn cael ei chynllunio ymhell ymlaen llaw a byddai'n dda meddwl am y bobl sy'n allweddol i ddeall yr arwyddocâd cyn dechrau'r broses. Mae'n hanfodol creu ‘rhestr ddymuno’ o bobl a grwpiau i gydweithio â nhw ac yna gysylltu â nhw ymlaen llaw. Felly, argymhellir bod yr amgueddfa'n paratoi amserlen ar ddechrau'r prosiect ar gyfer rhannau o'r casgliad a gaiff eu cynnwys ac ym mha drefn, fel y gellir sefydlu amserlen bryd hynny ar gyfer ymgysylltu ag arbenigwyr a grwpiau.

Yn ystod y broses beilot, gwnaed awgrymiadau ar gyfer y ffordd orau i ennyn cefnogaeth a chasglu ymateb i'r casgliadau. Er enghraifft, awgrymodd Ollie Douglas o MERL y dylid defnyddio dull rhithwir/cyfrannu torfol a allai ddefnyddio rhwydweithiau fel y Rhwydwaith Amgueddfeydd Gwledig, Grŵp Curaduron Hanes Cymdeithasol, ac eraill. Nid oedd amser i brofi hyn yn ystod yr astudiaeth beilot, ond gall fod yn ffordd fuddiol o weithio yn y dyfodol.

**Opsiynau ar gyfer rhesymoli a gwaredu**

Yn ystod y broses ymgynghori, gwnaed sawl awgrym ynghylch ailddefnyddio gwrthrychau pe byddent yn rhan o'r broses resymoli o ganlyniad i’r adolygiad a'r asesiad o arwyddocâd. Roedd y rhain yn cynnwys banciau/llyfrgelloedd offer, elusennau ailddefnyddio offer, a gwneud gwaith adfer ar offer oedd mewn cyflwr gwael trwy gysylltiadau â sefydliadau fel The Landworkers Alliance, elusennau lleol, grwpiau tyfwyr organig a gwahanol grwpiau coetiroedd. Fel rhan o'r gwaith, awgrymwyd y gallai fod modd cynnal gweithdai adfer. Byddai'n dda i staff y prosiect gadw rhestr o'r gwahanol ffyrdd o ailddefnyddio'r tŵls a rhestr o gysylltiadau perthnasol wrth i'r prosiect ddatblygu, a gallai'r rhain gyfrannu at weithgareddau'r prosiect, gan ddatblygu ffyrdd dyfeisgar o 'ailddefnyddio' y casgliad gyda chymorth partneriaid a'r gymuned leol.

**Cofnodi ymateb**

Cofnodwyd cyfraniadau gan fynychwyr y sesiynau ymgynghori a'r gweithdai mewn sawl ffordd wahanol e.e. nodiadau o sgyrsiau a sylwadau, holiaduron a lanwyd gan gyfranogwyr a oedd yn cynnig syniadau gan ddefnyddio nodiadau post-it, ffotograffau o sesiynau, ac fe ffilmiwyd un. Bu'r gwahanol ffynonellau gwybodaeth hyn yn hynod fuddiol wrth lunio'r asesiad o arwyddocâd y tŵls. Er enghraifft, gall fod yn anodd iawn synhwyro'r gwerth y mae unigolion yn ei roi ar wrthrychau heb glywed eu geiriau a gweld effaith y gwrthrychau yn y ffordd y maent yn eu dal, yn iaith y corff, ac yn y llawenydd yn eu hwynebau. Mae'r llif Melhuish yn enghraifft wych o hyn https://vimeo.com/363323901

Felly argymhellir bod cynifer ag y bo modd o dechnegau'n cael eu defnyddio i gofnodi'r ymateb. Nid oedd pawb oedd yn cymryd rhan yn dymuno cael eu ffilmio na'u recordio ac, os felly, tynnwyd llun ohonynt yn dal y gwrthrychau a nodwyd eu sylwadau. Roedd hyn yn ffordd effeithiol o weithio a ddenodd gyfraniadau difyr gan fyfyrwyr a staff Coleg Ceredigion.

## 2.5 Asesu cyfleoedd masnachol ar gyfer y prosiect

### 2.5.1 Storfeydd lle Rheolir yr Amgylchedd

Bwriedir i'r storfa newydd fesur tua 1130 metr sgwâr a, thrwy ddefnyddio rheseli storio symudol, bydd yn cynnig 30% yn fwy o le i storio na'r storfeydd presennol. Caiff rhai o'r rheseli eu defnyddio gan Amgueddfa Ceredigion ei hunan ond byddai modd i hyd at 300 metr sgwâr gael eu rhentu i sefydliadau eraill y mae arnynt angen storfeydd lle rheolir yr amgylchedd.

Y Taliadau a Godir am Le i Archifo a Storio

Yn 2017 cynhaliodd Historic England astudiaeth o gyfleusterau storio dwfn (masnachol) yn Lloegr, gan ganolbwyntio ar storio eitemau archeolegol. Roedd yr astudiaeth yn diffinio 'storio dwfn' fel storio oddi ar y safle, trwy gontract masnachol allanol, â'r storfa yn aml ymhell o'r amgueddfa neu'r storfa wreiddiol. Nodwyd dau brif sefydliad sy'n darparu storfeydd dwfn masnachol lle rheolir yr amgylchedd: Deepstore yn Winsford, Swydd Gaer (wedi'i leoli mewn cloddfa halen) a'r Gwasanaeth Cadwraeth Cenedlaethol (NCS) yn Upper Heyford, Swydd Rydychen (mewn siediau awyrennau sy'n cael eu hailddefnyddio). Mae galw mawr am y ddau le ar gyfer storio arteffactau, archifau archaeolegol a dogfennau hanesyddol. Mae Deepstore yn benodol yn cael ei defnyddio gan nifer o sefydliadau diwylliannol blaenllaw gan gynnwys yr Archifdy Cenedlaethol, y Gymdeithas Frenhinol a Llyfrgell Bodley.

Mae'r tabl isod yn dangos y cyfraddau rhent blynyddol a godir yn y ddau gyfleuster. Yn ogystal, mae'r ddau gyfleuster yn codi rhwng £1 a £1.10 y bocs am nôl a dychwelyd bocsys. Mae'r NCS hefyd yn codi £0.50 y bocs am eu labelu a £1 yr eitem os tynnir dim ond ychydig o eitemau o'r bocs. Diffiniwyd bocs safonol fel un sy'n mesur 0.017$m^3$, sy'n gweithio allan fel 59 bocs mewn metr ciwbig.

| Canolfan | Lleoliad | Aelodaeth | Rhent |
|---|---|---|---|
| NCS Deep Storage | Upper Heyford, Swydd Rydychen | £46 y flwyddyn | £82/$m^3$ + TAW |
| Deepstore | Winsford, Swydd Gaer | - | £63.57/$m^3$ hyd at 28.31$m^3$<br>£59.33/$m^3$ hyd at 56.64$m^3$ |

*Ffynhonnell: Historic England, Gathering Information on Deep Storage Facilities in England, Research Report Series no. 40/2017*

O'i gymharu, mae Grant Storio[2] Bocs Safonol (0.017 $m^3$) English Heritage ar gyfer 2019/2020 yn £20.61 (neu £ 1,212 y $m^3$), ond mae'r grant hwn yn dâl un-tro am oes am storio'r bocs (h.y. nid yn dâl am flwyddyn).

Yn ogystal, yn astudiaeth Historic England, 2017, i gost cyfleusterau storio dwfn ar gyfer amgueddfeydd, ceisiwyd cymharu hyn â gwir gost storio archaeolegol mewn amgueddfa. Allan o sampl o 14 amgueddfa, dim ond un sefydliad a oedd yn gallu darparu'r wybodaeth y gofynnwyd amdani o fewn amserlen y prosiect ac mewn modd a oedd yn gwbl dryloyw. Roedd costau storio yn Amgueddfa X (storfa rydd-ddaliol yn ne Lloegr a oedd am aros yn ddienw) yn £52.29 y $m^3$ y flwyddyn, gan gynnwys cyfleustodau, glanhau ac ati.

Datgelodd astudiaeth ddilynol gan Historic England a gyhoeddwyd yn 2019 (*A Survey of Fees for the Transfer of Archaeological Archives in England*), wahaniaethau sylweddol yn y ffordd y mae sefydliadau sy'n casglu yn pennu'r taliadau a godir ac yn defnyddio incwm sy'n deillio o'r taliadau. Mae rhai'n codi un tâl am bob uned beth bynnag fo'u maint neu eu math, ac eraill yn defnyddio graddfa symudol yn seiliedig ar fath a/neu faint y bocsys. Mae rhai sefydliadau'n codi ffi weinyddu am dderbyn yr archif (yn amrywio o £25 i £ 400), a gall hyn gynnwys nifer benodol o focsys. Roedd incwm o ffioedd yn eithaf isel ar y cyfan ac yn amrywio'n sylweddol o flwyddyn i flwyddyn, felly mae'n anodd rhagweld yr incwm wrth flaen-gynllunio. Mae'n bwysig nodi nad oedd yr un o'r 63 sefydliad sy'n casglu ac a holwyd yn yr astudiaeth yn gallu talu holl gostau storio archifau archaeolegol trwy godi ffioedd am adneuo. Daw'r astudiaeth i'r casgliad bod diffyg dealltwriaeth a gallu cyffredinol ymhlith sefydliadau sy'n casglu ynghylch y ffordd i gyfrifo a nodi costau cywir. Pan fo'r sefydliad sy'n casglu yn rhan o sefydliad mwy (fel amgueddfa o fewn awdurdod lleol) mae'r her yn aml yn fwy gan nad yw'r wybodaeth ariannol ar gael i'r unigolion sy'n rheoli'r adneuon, neu fod y costau'n cael eu talu o dan god cost canolog gan yr awdurdod lleol canolog, sy'n golygu nad oes tryloywder o ran union gostau a chostau llawn storio.

Yn fras, seiliodd sefydliadau eu ffioedd naill ai ar lefel grant storio bocsys Historic England, trwy gyfrifo cost eu storio neu gost gwaith y staff, neu trwy feincnodi yn erbyn sefydliadau eraill, a defnyddiodd y mwyafrif gyfuniad o'r dulliau uchod. Roedd trafodaethau ynghylch y grantiau storio bocsys yn dangos diffyg dealltwriaeth o'r ffordd y pennwyd y grant, gyda llawer o gyfranogwyr yn credu bod swm y grant yn cynrychioli pris ffi a argymhellir. Gyda llawer o sefydliadau naill ai'n seilio eu ffioedd ar grant Historic England neu'n cyfrifo eu ffioedd ar sail gwaith staff yn hytrach nag ar yr holl fathau o gostau rhedeg, byddai unrhyw sefydliad a fyddai'n ceisio codi digon o ffioedd i dalu'r gwir gostau'n llawn yn gweld bod eu ffioedd yn sylweddol uwch na rhai unrhyw sefydliad casglu arall y byddent yn meincnodi eu hunain yn ei erbyn. Felly mae'r dull meincnodi yn dod yn ymarfer cylchol ac nid oes fawr o ddefnydd iddo, heblaw rhoi rhyw fath o syniad a fyddai'r ffioedd arfaethedig yn cael eu hystyried yn 'rhy uchel'.

Ar gyfartaledd, roedd sefydliadau casglu'n derbyn £5,765 (heb TAW) y flwyddyn mewn incwm o ffioedd adneuo. Fel y nodir uchod, mae'r incwm blynyddol, faint o le a ddefnyddir, sut y cyfrifir yr incwm a faint o'r wir gost y gellir ei thalu â'r ffioedd hyn yn ffactorau amrywiol iawn.

---

[2] Mae Grantiau Storio ar gael i storio archifau materol prosiectau a ariannir yn llwyr neu'n rhannol gan Historic England neu ei ragflaenwyr. Taliadau un-tro yw'r rhain i ddiogelu dyfodol yr archif. Gan amlaf, telir grantiau storio'n uniongyrchol i'r amgueddfa dderbyn, ar yr amod bod yr amgueddfa'n cyflwyno cais.

Serch hynny, gellir casglu ei bod yn annhebygol y bydd potensial masnachol rhentu'r lle storio a fydd dros ben yn storfa newydd Amgueddfa Ceredigion yn fwy na £5k i £6k y flwyddyn.

Y Galw am Le i Storio

Holwyd Archifdy Ceredigion am eu hanghenion storio posibl yn y dyfodol a chafwyd gwybod na fydd arnynt angen lle yn y tymor byr/canolig, ond y gallai fod angen lle arnynt yn y tymor hir (10+ mlynedd). Bydd angen lle cyn hynny os na fydd y cynlluniau i droi hen orsaf bad achub Aberystwyth ar y Morfa Mawr yn storfa ychwanegol ar gyfer Archifdy Ceredigion yn mynd yn eu blaen, os yw'r prisiau yn y tendrau'n uwch na'r costau a amcangyfrifwyd. Ddiwedd Mai 2019, dyfarnwyd £114k i'r prosiect o Raglen Grant Cyfalaf Trawsnewid Llywodraeth Cymru. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd prosiect Archifdy Ceredigion yn hen orsaf y bad achub yn methu (gan greu angen posibl am le ychwanegol yn storfa newydd Amgueddfa Ceredigion).

Efallai nad dim ond o Aberystwyth a'r cylch y bydd galw am le i storio. Mae'r rhan fwyaf o amgueddfeydd y Deyrnas Unedig yn brin o le i storio. Cynhaliodd Historic England astudiaeth yn 2016 (Museums Collecting Archaeology) ac, o'r 200 o amgueddfeydd a holwyd, roedd 23% o'r rhai a fu gynt yn casglu eitemau archaeolegol wedi rhoi'r gorau iddi. Prinder lle oedd y rheswm a nodwyd amlaf (91%), ac yna brinder arbenigedd ac adnoddau staff (51%). Mae dros hanner yr amgueddfeydd a ymatebodd ac sy'n parhau i fynd ati i gasglu archaeoleg yn codi tâl am adneuo.

Fodd bynnag, mae'r agweddau ymarferol ar storio oddi ar y safle yn debygol o olygu y bydd angen strategaeth ddeuol ar yr amgueddfeydd/ archifdai hyn, gyda storfa leol (fewnol) ar gyfer deunydd y mae angen ei asesu neu ei fonitro'n rheolaidd a storfa oddi ar y safle ar gyfer deunydd nad oes angen mynd ato mor aml a gwrthrychau cadarn eu hadeiladwaith.

### 2.5.2 Teithiau Tywys mewn Storfeydd

Mae nifer o amgueddfeydd ledled y wlad yn cynnig teithiau tywys o gwmpas y casgliadau sydd yn eu storfeydd, yn cynnwys teithiau ar gyfer ysgolion, ymchwilwyr a theithiau 'y tu ôl i'r llenni' ar gyfer rhai sydd â diddordeb mewn agwedd neilltuol ar y casgliad a/neu rai sy'n cefnogi'r amgueddfa'n ariannol fel Cyfeillion neu Noddwyr. Mae rhestr â thaliadau enghreifftiol ar gyfer teithiau o gwmpas storfeydd i'w gweld yn y tabl isod.

| Amgueddfa | Taith | Hyd | Maint | Amlder | Pris |
|---|---|---|---|---|---|
| London Transport Museum | *Depot discovery* Y storfa gelf a phosteri Eiconau dylunio | 2 awr | 15 | Gwener a Sadwrn, unwaith y mis Chwefror -Tachwedd | £12 oedolion, £10 dan 18, £10 gostyngiadau a Chyfeillion. Teithiau Preifat: £100 ar gyfer 1-10, £200 ar gyfer 11-20, £280 ar gyfer 21-30 |
| | Penwythnos Agored Depo Acton | 11am-5pm | | 3x y flwyddyn (Ebrill, Gorff, Medi) | £12 oedolion, £10 gostyngiadau, Am ddim i blant a Chyfeillion |
| Natural History Museum | Taith y tu ôl i'r llenni yn y *Spirit Collection* | 45 munud | | 3-4/diwrnod | £15 |
| Amgueddfa | Y tu ôl i'r llenni | Hyblyg | Dim | Bob dydd | Rhan o'r tâl mynediad |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Beamish – Storfeydd Agored | | | tywysydd | | cyffredinol |
| V&A East | 18,000m$^2$ o storfeydd agored i fod i agor yn 2023 | | | | |
| Amgueddfeydd Bryste – L Shed: Storfeydd y Casgliadau | Y tu ôl i'r llenni | 45 munud | 10 | Bob dydd Mawrth i ddydd Sadwrn | Am ddim (gwirfoddolwyr yn tywys) |

Mae nifer o fanteision o gael storfeydd agored/hygyrch: mae'n rhoi syniad i bobl o faint casgliad y sefydliad, mae'n eu helpu i ddeall y gwaith a wneir y tu ôl i'r llenni, ac yn gyfle i ddarganfod darnau anghyffredin. Fodd bynnag, ar wahân i amgueddfeydd mawr, nid oes digon o dystiolaeth bod storfeydd amgueddfeydd yn apelio at ymwelwyr na pa mor broffidiol/gostus ydyn nhw i amgueddfeydd. Prin yw'r data sydd ar gael ond mae'n dangos nad yw cynlluniau i agor storfeydd casgliadau i bobl yn gwneud elw er bod rhai amgueddfeydd yn codi tâl am y teithiau hyn. Mae'n rhaid i bobl drefnu ymlaen llaw i weld storfeydd y rhan fwyaf o amgueddfeydd bach, yn rhannol am nad yw'n hawdd ad-drefnu staff.

Mae'n debygol y bydd costau cyfalaf datblygu storfa newydd ar gyfer Amgueddfa Ceredigion yn codi os bydd raid i'r storfa fod yn ddigon deniadol fel bod ymwelwyr yn fodlon talu am weld y casgliad sy'n cael ei storio (h.y. cynllun sy'n rhoi peth cyd-destun a thipyn o ddehongli).

Yn ogystal, os bydd rhan o'r storfa newydd yn cael ei gosod ar rent i amgueddfeydd a sefydliadau eraill, mae'n bosib y bydd teithiau tywys yn llai ymarferol oherwydd gallai fod gan rai sefydliadau bryderon am breifatrwydd neu ddiogelwch.

### 2.5.3 Lle ar gyfer Swyddfeydd

Yn hytrach na rhentu'r 30% o le storio sydd dros ben i sefydliadau casglu eraill fel storfa lle rheolir yr amgylchedd, efallai y gellid ei osod ar brydles fel swyddfa draddodiadol. Byddai hyn yn golygu swyddfa heb wasanaeth, h.y. y math traddodiadol o brydles swyddfa lle caiff adeilad busnes ei osod ar gytundeb prydles tymor hir a lle mae gan y tenant reolaeth lawn dros y lle y mae'n ei rentu ac mae'n gyfrifol am addurno, cynnal a chadw, atgyweirio, prynu dodrefn, gosod llinellau ffôn a rhyngrwyd, trefnu cyfleustodau, a thalu ardrethi busnes a dŵr, ac ati.

Ymhlith y ffactorau pwysig i'w hystyried mae gosodiad y storfa (e.e. hygyrchedd, cynllun, lleoliad yn yr adeilad ac ati), materion diogelwch (h.y. tenantiaid sydd angen mynediad y tu allan i oriau arferol) a hyblygrwydd prydlesi. Efallai y bydd ar Amgueddfa Ceredigion eisiau prydles y gellir ei chanslo heb lawer iawn o rybudd.

Nid oes galw mawr am swyddfeydd yn Aberystwyth ac mae llawer o unedau'n wag. Yn ogystal, nid yw'r storfa newydd mewn lleoliad arbennig o dda.

Fel y dangosir ar y map isod, mae'r rhan fwyaf o swyddfeydd sydd wedi'u gosod yn ddiweddar (mae'r wybodaeth amdanynt ar gael trwy gronfa ddata'r Estate Gazette) mewn llefydd mwy canolog (yn nes at y prom neu'r orsaf reilffordd) neu ym Mharc Gwyddoniaeth Cefn Llan, Rhiw Briallu.




Ychydig o'r trafodion hyn sy'n dweud faint o rent a gafwyd[3], ond mae'r rhan fwyaf yn cynnwys y pris y gofynnwyd amdano.

Er enghraifft, cafodd uned swyddfa 139 metr sgwâr (1,500 troedfedd sgwâr) uwchben siop ar y Stryd Fawr (yng nghanol y dref) ei gosod ar brydles ddiwedd 2018 am gyfnod o 10 mlynedd i Teithiau Cambria. Y pris y gofynnwyd amdano oedd £12,500 y flwyddyn (£90 y metr sgwâr neu £8.33 y droedfedd sgwâr). Dim ond £10,000 y flwyddyn a gafwyd (£72 y metr sgwâr neu £6.67 y droedfedd sgwâr). Bu ar y farchnad ers mis Awst 2017.

[3] Sylwch: nid yw'r cyfraddau a nodir yn cynnwys TAW na thaliadau gwasanaeth

Enghraifft arall yw uned 24 metr sgwâr (258 troedfedd sgwâr) mewn datblygiad modern 3-llawr o swyddfeydd gyda staff derbynfa yn Harbour House (yn edrych dros y marina) a osodwyd ar brydles am gyfnod o dair blynedd ym mis Mai 2018. Y pris gofyn oedd £2,967 y flwyddyn (yn cyfateb i £124 y metr sgwâr neu £11.50 y droedfedd sgwâr). Cafwyd mwy yn yr achos hwn: £4,000 y flwyddyn, yn cyfateb i £167 y metr sgwâr neu £15.50 y droedfedd sgwâr).




Mae llawer yn dibynnu ar ansawdd y swyddfeydd. Er enghraifft, cafodd dwy uned swyddfa arall (Gradd B hefyd) a gynigiwyd yn ddiweddar ym Mharc Gwyddoniaeth Cefn Llan ar Riw Briallu (yn ffinio â Champws y Brifysgol tua milltir o ganol tref Aberystwyth) eu marchnata am ddim ond £72 y metr sgwâr (neu £6.70 y droedfedd sgwâr) y flwyddyn (ynghyd â TAW a thâl gwasanaeth).




Mae'r rhenti hyn yn isel o'u cymharu â'r prisiau a godir mewn rhannau eraill o Gymru am swyddfeydd masnachol. Er enghraifft, mae rhenti am swyddfeydd da yng Nghaerdydd mor uchel â £270 y metr sgwâr (neu £25 y droedfedd sgwâr[4]). Fodd bynnag y pris am yr unedau gorau (Gradd A) yw hyn ac mae prinder swyddfeydd da yng Nghaerdydd, sy'n codi'r pris. Nid oes unedau swyddfa Gradd A â gwasanaeth yn Aberystwyth gan nad yw'n un o'r prif ganolfannau busnes ond mae swyddfeydd Gradd B o safon uchel yng Nghaerdydd yn gallu denu rhent o £18-£20 y droedfedd sgwâr.

### 2.5.4 Gweithleoedd Creadigol

Gallai casgliad Amgueddfa Ceredigion o dŵls gwaith coed fod yn gyfle da i gynnig lle ar gyfer swyddfeydd i'r sector creadigol neu 'ofod gwneud' yn y storfa newydd.

[4] Lambert Smith Hampton, South West and South Wales Office Market Report, 2018

Man lle mae pobl yn dod at ei gilydd i gyd-greu, rhannu adnoddau a gwybodaeth, gweithio ar brosiectau, rhwydweithio ac adeiladu yw 'gofod gwneud'. Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gofodau gwneud wedi ymddangos ledled y wlad. Yn 2015, cynhaliodd Nesta ymarferiad mapio setiau data ar gyfer y sector neilltuol hwn, gan ganfod bron 100 o ofodau gwneud yn y Deyrnas Unedig, gydag o leiaf un yn y rhan fwyaf o ddinasoedd. Er bod offer digidol wedi'u gosod yn y rhan fwyaf ohonynt, roedd gan lawer dŵls llaw cyffredinol a thŵls gwaith coed hefyd i'r aelodau eu rhannu. Mae gan fwy a mwy o lyfrgelloedd ofodau gwneud llwyddiannus erbyn hyn (yn cynnwys Llyfrgell Ganolog Caerdydd sydd hyd yn oed ag argraffyddion 3D).

Ers 2009 bu gan Ganolfan y Celfyddydau Aberystwyth 18 o stiwdios creadigol unllawr i'w rhentu, pob un yn mesur 35 metr sgwâr ac yn elwa ar oleuni naturiol gyda ffenestri yn y to ac ym mhen yr adeilad gyda golygfeydd o Ganolfan y Celfyddydau. Mae'r stiwdios a enillodd wobr gan RIBA yn cynnwys toiled hollol hygyrch, cegin a chyntedd. Cawsant eu dylunio gan Thomas Heatherwick ac maent yn cynnig llecynnau unigryw i artistiaid, crefftwyr, dylunwyr digidol a busnesau eraill ym maes celfyddyd greadigol. Mae'r datblygiad wedi ennill ei blwyf fel canolfan greadigol boblogaidd a dim ond yn achlysurol y mae unedau yn dod yn wag.





Fel rhan o brosiect adfywio gwerth £26m gan Brifysgol Aberystwyth, bydd yr Hen Goleg yn cynnwys 12 uned (ar draws 500 metr sgwâr) wedi'u hanelu at y sector creadigol er mwyn apelio at y cynnydd yn y maes. Bydd yno hefyd westy, canolfan ddigwyddiadau, canolfan wyddoniaeth, amgueddfa, lle celf a 12 o unedau ar gyfer egin fusnesau. Bydd yr unedau hyn ar gael o 2022 ymlaen, pan fydd yr adeilad rhestredig Gradd I yn ailagor.

O ystyried y ddau gynllun hyn a'r ffordd y gallant weithredu fel 'hybiau', nid yw'n debygol iawn y byddai cwmnïau o'r sector creadigol yn awyddus i rentu swyddfeydd yn storfa newydd Amgueddfa Ceredigion am na fyddai'r lle'n gallu cystadlu â'r cyfleusterau eraill sydd ar gael. Er y gallai rhai artistiaid a busnesau creadigol sy'n methu cael lle yn unedau Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth na'r Hen Goleg fod â diddordeb, maen nhw'n debygol o chwilio am renti fforddiadwy iawn.

Fel y nodwyd yn arolwg y National Federation of Artists' Studio Providers 2010, roedd y rhent cyfartalog am stiwdio yng Nghymru yn £4.33 y droedfedd sgwâr (neu £46.60 y metr sgwâr) y flwyddyn o'i gymharu â rhent cyfartalog o £6.80 y droedfedd sgwâr (neu £73.20 y metr sgwâr) y flwyddyn trwy'r Deyrnas Unedig. Nid yw'r arolwg hwn o'r Deyrnas Unedig wedi'i gynnal yn y blynyddoedd diwethaf ond mae prisiau stiwdios fforddiadwy yn Llundain wedi cynyddu i £14.29 y droedfedd sgwâr ar gyfartaledd yn 2018 (o'i gymharu â £9.72 yn 2010) a hyd yn oed yn Sheffield mae

rhent cyfartalog stiwdios artistiaid yn £7.40. Ni wyddom faint yw cost stiwdios artistiaid yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth ac nid yw costau stiwdios yr Hen Goleg wedi'u cyhoeddi eto. Felly, nid oes gennym ddim i gymharu'n uniongyrchol ag ef yn yr ardal. Fodd bynnag, mae enghreifftiau o renti stiwdios artistiaid mewn rhannau eraill o Gymru'n awgrymu bod y costau'n dal yn is yng Nghymru. Er enghraifft, mae stiwdios artistiaid Butetown yng Nghaerdydd yn codi £5.84 y droedfedd sgwâr y flwyddyn.

### 2.5.5 Llogi stiwdio gadwraeth

Gan fod un rhan o'r storfa newydd yn mynd i fod yn weithdy ar gyfer gofalu am y casgliadau a gwaith cadwraeth, gall fod yn bosibl llogi'r stiwdio gadwraeth i gadwraethwyr llawrydd a/neu ar gyfer mynediad preifat yn debyg i gynllun aelodaeth 'gofod gwneud'.

Yn ôl gwaith ymchwil a wnaed gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2014 (er mwyn datblygu strategaeth genedlaethol ar gyfer gwarchod a chadw treftadaeth ddogfennol analog yng Nghymru), o'r 25 o sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg, roedd gan 11 eu stiwdios cadwraeth eu hunain. Roedd pedwar o'r 25 o sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg wedi'u lleoli yng Ngheredigion, ond ni ddatgelir rhagor o fanylion ac felly ni wyddom a oedd y lleoliad yn gwneud gwahaniaeth i'w hatebion.

Daeth yr adroddiad i'r casgliad, ar sail sgyrsiau gyda CyMAL (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru), Ffederasiwn Amgueddfeydd ar Orielau Celf Cymru, Llyfrgell Genedlaethol Cymru ac ARA Cymru (Cymdeithas Archifau a Chofnodion), ei bod yn debygol mai gan yr 11 sefydliad hyn y mae'r unig stiwdios cadwraeth yng Nghymru. O'r 11 sefydliad sydd â stiwdios cadwraeth, roedd 8 sefydliad yn cyflogi staff cadwraeth wedi'u hyfforddi a/neu hyfforddeion cadwraeth. Roedd gan 7 o'r sefydliadau hyn y gallu/lle i gael rhagor o gadwraethwyr yn eu stiwdios cadwraeth.

Atebodd 15 o sefydliadau gan ddweud eu bod yn defnyddio darparwyr allanol ar gyfer gwasanaethau cadwraeth a chadwedigaeth ac mae peth galw am wasanaethau cyflenwyr allanol hyd yn oed gan y sefydliadau hynny sydd â'u stiwdios cadwraeth eu hunain. Roedd 60% o'r rhai sy'n defnyddio darparwyr cadwraeth allanol yn defnyddio rhai o Gymru. Y prif reswm a roddwyd gan y 40% a ddywedodd eu bod yn defnyddio cwmnïau o'r tu allan i Gymru oedd prinder cadwraethwyr llawrydd yng Nghymru.

O'r 25 o sefydliadau a gymerodd ran yn yr arolwg, atebodd 4 eu bod yn darparu gwasanaethau cadwraeth i sefydliadau eraill am dâl. Er i'r arolwg ganfod bod pobl o blaid rhannu cyfleusterau cadwraeth ar y cyfan (gan amlaf am ryw fath o dâl ariannol neu i helpu'r naill a'r llall), y peth y nodwyd amlaf fod y sefydliadau'n dymuno'i gael oedd 'cadwraethwyr wedi'u hyfforddi'. Felly, ymddengys bod mwy o angen am adnoddau dynol/sgiliau nag sydd am weithdai cadwraeth i'w llogi.

Yn ôl ymateb cadwraethwr achrededig o Geredigion, a golwg yn y Conservation Register, dim ond un cadwraethwr achrededig sydd yng Ngheredigion. O fwrw'r rhwyd yn ehangach, mae'r pwll yn dal yn fach: Un cadwraethwr yn gweithio yn y Llyfrgell Genedlaethol ac un yn Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe; un cadwraethwr (cyn uwch-gadwraethwr yn y Llyfrgell Genedlaethol), â'i weithdy ei hun, ac un arall (cadwraethwr clociau) â'i stiwdio ei hun.

Nid yw'n anghyffredin i gadwraethwyr ddarparu lle mewn stiwdio i gadwraethwyr eraill ond, ar y cyfan, mae'n fwy llwyddiannus mewn ardaloedd mwy poblog.

Ar sail yr uchod, gellir dod i'r casgliad mai ychydig iawn o botensial sydd i gynhyrchu incwm trwy logi gweithdy cadwraeth yn storfa newydd Amgueddfa Ceredigion i gadwraethwyr llawrydd. Naill ai mae gan gadwraethwyr sydd eisoes yng Ngheredigion eu stiwdios eu hunain, neu maent yn gweithio i gasgliadau, cyhoeddus neu breifat.

### 2.5.6 Llogi ystafell gyfarfod

Yn olaf, ar ôl i rai o gasgliadau'r amgueddfa symud i'r storfa newydd, bydd lle ar gael yn yr amgueddfa ar gyfer Stiwdio Ddysgu newydd a gaiff ei chreu â grant gan MALD (Amgueddfeydd, Archifau a Llyfrgelloedd Cymru).

**Enghreifftiau o ganolfannau eraill ar gyfer cyfarfodydd a phriodasau ledled y Canolbarth**

| Canolfan | Lleoliad | Ystafell | Faint mae'n ddal? | Tâl am logi |
|---|---|---|---|---|
| Ty Llety a Chanolfan | Llandrindod | Ystafell Gwy | Ystafell Fwrdd/Cabaret 24 | £130 diwrnod llawn |
| Gynadledda Highland Moors | | | Theatr 50 | £ 90 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Wysg | Ystafell Fwrdd/Cabaret 20 | £115 diwrnod llawn |
| | | | Theatr 30 | £ 80 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Teifi | Cyfarfod Anffurfiol | £15 diwrnod llawn |
| Canolfan Adnoddau'r Cyfrynga | Llandrindod | Ystafell Gyfarfod 1 | Theatr 90 | £180 diwrnod llawn |
| | | | Ystafell Fwrdd 40 | £105 hanner diwrnod |
| | | | | £120 gyda'r nos |
| | | | | £200 dydd Sadwrn £125 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Gyfarfod 2 | Theatr 30 | £105 diwrnod llawn |
| | | | Ystafell Fwrdd 16 | £70 hanner diwrnod |
| | | | | £80 gyda'r nos |
| | | | | £125 dydd Sadwrn £80 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Gyfarfod 5 | Theatr 60 | £130 diwrnod llawn |
| | | | Ystafell Fwrdd 30 | £ 80 hanner diwrnod |
| | | | | £ 85 gyda'r nos |
| | | | | £150 dydd Sadwrn £85 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Gyfarfod 7 | Theatr 50 | £130 diwrnod llawn |
| | | | Ystafell Fwrdd 26 | £ 80 hanner diwrnod |
| | | | | £ 85 gyda'r nos |
| | | Ystafell Gyfarfod 8 | Manylion fel Ystafell 1 | |
| | | Ystafell Gyfarfod 9 | Manylion fel Ystafell 7 | |
| | | Ystafell Gyfarfod 10 | Manylion fel Ystafell 7 | |
| Y Pafiliwn | Llandrindod | Y Neuadd | Theatr 250 (Llawr Daear) | £400 diwrnod llawn |
| | | | Theatr 315 (Balconi) | £275 hanner diwrnod |
| | | Y Conserfatori | Theatr > 40 | £150 diwrnod llawn |
| | | | | £ 90 hanner diwrnod |
| | | Ystafell Arlais | Theatr > 40 | £120 diwrnod llawn |
| | | | | £ 80 hanner diwrnod |
| | | Lolfa Ithon | Theatr < 90 | ffi fel yn y Conserfatori |

| Enghreifftiau o ganolfannau eraill ar gyfer cyfarfodydd a phriodasau ledled y Canolbarth | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan** | **Lleoliad** | **Ystafell** | **Faint mae'n ddal?** | **Tâl am logi** | **Tâl am bob cynadleddwr** | **Pecyn priodas yn cynnwys pob peth** |
| **Neuadd Gregynog, Prifysgol Cymru** | Y Drenewydd | Y Llyfrgell (trwyddedig) | Theatr 20 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | |
| | | | Ystafell Fwrdd 15 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | Llogi ar gyfer priodasau, £300 ond dim tâl llogi os oes +60 yn y brecwast priodas, £35 yr un + £14 diodydd |
| | | Ystafell Joicey | Theatr 30 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | |
| | | | Ystafell Fwrdd 24 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | |
| | | Y Parlwr Mawr (I) | Theatr 30 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | Llogi ar gyfer priodasau, £300 ond dim tâl llogi os oes +60 yn y brecwast priodas, £35 yr un + £14 diodydd |
| | | | Cabaret 36 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | |
| | | Ystafell Weaver | Theatr 40 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | |
| | | | Ystafell Fwrdd 24 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | |
| | | Ystafell Blaenau (I) | Theatr 40 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | Llogi ar gyfer priodasau, £300 ond dim tâl llogi os oes +60 yn y brecwast priodas, £35 yr un + £14 diodydd |
| | | | Derbyniad 40 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | |
| | | Yr Ystafell Gerddoriaeth (I) | Theatr 200 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | |
| | | | Ystafell Fwrdd 32 | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | Llogi ar gyfer priodasau, £300 ond dim tâl llogi os oes +60 yn y brecwast priodas, £35 yr un + £14 diodydd |
| | | | 100 Cabaret | | | |
| | | Seminar Dau | Theatr 50 | | £29.00 y dydd, cinio poeth | |
| | | | | | £21.00 y dydd, cinio ysgafn | |
| **Neuadd Glansevern** | Y Trallwng | Ystafell Gyfarfod | Ystafell Ddawns 20 | Llogi ystafell £120 y dydd | | |
| | | | Theatr 35 | | | |
| | | | Gwledd 30 | | | |
| | | | Derbyniad 50 | | | |
| **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** (priodasau) | Aberystwyth | Siambr y Cyngor | Eistedd 100 | Llogi'r lle yn unig, £750 | | |
| | | Ystafell y Llywydd | Eistedd 30 | Llogi'r lle yn unig, £275 | | |
| | | Llogi Tir y Llyfrgell | tynnu lluniau | £150 | | |
| **Llyfrgell Genedlaethol Cymru** (cynadleddau a chyfarfodydd) | Aberystwyth | Y Drwm | Theatr 98 | £300 trwy'r dydd, £150 1/2 diwrnod neu gyda'r nos | | |
| | | Siambr y Cyngor | Theatr 60, Ystafell Fwrdd 35, Caberet 45 | £150 trwy'r dydd, £75 1/2 diwrnod neu gyda'r nos | | |
| | | Ystafell y Llywydd | Theatr 20, Ystafell Fwrdd 12 | £50 trwy'r dydd, £25 1/2 diwrnod neu gyda'r nos | | |
| | | Oriel Gregynog | 170 | £300 i'w llogi gyda'r nos | | |
| | | Ystafell Addysg | Theatr 40 Ystafell Fwrdd 20 | £120 diwrnod llawn, £60 1/2 diwrnod & £80 gyda'r nos | | |
| **Castell Powis a'r Ardd** | Y Trallwng | Priodasau (dim ond 6 y flwy | 150 | Llogi'r ystafell yn unig, £2,000 | | |
| | | Ystafell Gyfarfod | | | Holwch am bris | |
| **Canolfan Ymwelwyr Machinat** | Llanbrynmair | Lle i gyfarfod | Theatr 40 Ystafell Fwrdd 30 | | | |
| **Rheilffordd Talyllyn** | Tywyn | Ystafell Slater | Hyd at 25 | | | |
| **Theatr Brycheiniog** | Aberhonddu | Y Prif Awditoriwm | 478 people | £75 yr awr | | |
| | | Y Stiwdio | 120 people | £20 yr awr | | |
| | | Yr Ystafell Werdd | Hyd at 25 | £20 yr awr | | |
| | | Oriel Andrew Lamont | Hyd at 80 | £20 yr awr | Tâl ychwanegol am offer/staff | |
| **Adeilad WISE, Canolfan y Dechnoleg Amgen** | Machynlleth | Cynhadledd Undydd | | | £22 heb TAW, cynnwys cinio | |
| | | Cyfarfod hyfforddi | | | £20 heb TAW, cynnwys cinio | |
| | | Cyfarfod gwaith | | | £18 heb TAW, cynnwys cinio | |
| **Y Tabernacl** | Machynlleth | Yr Awditoriwm | Hyd at 350 | £200 y dydd | | |
| | | Tŷ Hyfnant | Hyd at 15 | £33 y dydd | | |
| | | Yr Ystafell Werdd | 20 - 25 | £25 am 3 awr | | |
| **The Bear Hotel** | Rhaeadr Gwy | Ystafell Ddigwyddiadau | Hyd at 60 | | | |
| **Buckland Hall** | Bwlch | The Grand Lounge | Hyd at 180 | | | |
| **Caer Beris Manor** | Llanfair-ym-Muallt | Ifon Suite | Theatr hyd at 100 Cabaret 80 | £150 diwrnod llawn, £100 1/2 diwrnod | Arian £19.92 yr un (cinio oer) | |
| | | Usk Suite | Theatr hyd at 10 | £70 diwrnod llawn, £50 1/2 diwrnod | Aur £27.95 yr un (cinio poeth) | |
| | | Aber Suite | Theatr hyd at 20 | £100 diwrnod llawn, £50 1/2 diwrnod | | |

| Enghreifftiau o ganolfannau eraill ar gyfer cyfarfodydd a phriodasau ledled y Canolbarth | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Canolfan** | **Lleoliad** | **Ystafell** | **Faint mae'n ddal?** | **Tâl am logi** | **Tâl am bob cynadleddwr** | **Pecyn priodas yn cynnwys pob peth** |
| **Gwesty'r Conrah** | Aberystwyth | Ystafell Gynadledda | Theatr hyd at 100 | £130 diwrnod llawn, £70 1/2 diwrnod | Dim tâl am yr ystafell os archebir bwyd | |
| **Gwesty'r Ddraig** | Trefaldwyn | Pembrey Suite | Theatr 230 Ystafell Fwrdd 60 Ystafell Ddosbarth 120 | | Pecyn 1: £150 hyd at 10 o bobl, llogi/cinio | |
| | | Margam Suite | Theatr 50 Ystafell Fwrdd 20 | | Pecyn 2: £250 hyd at 20 o bobl, llogi/cinio | |
| | | | | | gwesteion ychwanegol, £20 yr un | |
| | | Ystafell Briodas | | £225.00 llogi ystafell | | 65 o westeion dydd, 100 gyda'r nos - £3995 |
| **Elan Valley Lodge** | Rhaeadr Gwy | Ystafell Gynadledda | Hyd at 36 | | Pecyn: Ystafell/Cinio £22.50 yr un (10 neu fwy) | |
| **Gwesty'r Falcondale** | Llambed | Ystafell Gyfarfod | Theatre 60 Ystafell Fwrdd 30 Ystafell Ddosbarth 30 | | Cynadleddwr dydd: £38 yr un (yn cynnwys cinio a phaneidiau) | |
| | | Llogi Ystafell Briodas | | £2,000.00 (tynnwch £125 am bob llofft gaiff ei bwcio ) | | |
| | | Hartford Suite | Hyd at 60 o westeion yn eistedd | £250.00 | | |
| | | Gallery Lounge | Hyd at 80 o westeion yn eistedd | £500.00 | | |
| | | Pafiliwn Priodasau Tu Alla | Hyd at 200 o westeion yn eistedd | £500.00 gyda chostau ychwanegol | | |
| **Hotel Metropole** | Llandrindod | Ystafell Bwrdd | Theatr 250 Ystafell Ddosbarth 100 Ystafell Fwrdd 60 cabaret 300 | | Cynadleddwr dydd - cinio poeth £35 | |
| | | | | | Cynadleddwr dydd - cinio oer £33 | |
| | | | | | Cynadleddwr dydd - brechdanau i ginio £26 | |
| **Gwesty a Sba Llyn Efyrnwy** | Llanwddyn | Grampian Suite | Theatr 140, Ystafell Fwrdd 48, Cabaret 110, Derbyniad 1 | £150 | Cynadleddwr 24 awr (cynnwys aros) £155, cynnwys cinio etc | |
| | | Wayfarer Suite | Theatr 200, Ystafell Fwrdd 38, Cabaret 140, Derbyniad 2 | £150 | | |
| | | Phillips Suite | Theatr 70, Ystafell Fwrdd 30, Cabaret 36, Derbyniad 80 | £150 | | |
| **Gwesty Llangoed Hall** | Llys-wen | The Orangery | Theatr 80, Ystafell Fwrdd 40, Caberet 80, Derbyniad 80 | £500 | | |
| (ystafell gyfarfod) | | The Garden Room | Theatr 40, Ystafell Fwrdd 20, Caberet 40, Derbyniad 40 | £250 | | |
| **Gwesty Llangoed Hall** | Llys-wen | The Morning Room | Hyd at 100 o westeion | | | Pecyn cotwm £99 yr un |
| (priodasau) | | The Orangery | Hyd at 80 o westeion | £500 llogi ystafell | | Pecyn lês £130 yr un |
| | | The Garden Room | Hyd at 40 o westeion | £250 llogi ystafell | | Pecyn sidan £160 yr un |
| | | | | | | Pecyn gaeaf £90 yr un |
| **Gwesty'r Marine** | Aberystwyth | Yr Ystafell Ddawns | Theatr 300, Ystafell Ddosbarth 150, Cabaret 240 | £250.00 llogi ystafell | | |
| | | Yr Ystafell Fwyta | Ystafell Fwrdd 50, Ystafell Ddosbarth 120 | £155 diwrnod llawn, £105 1/2 diwrnod | | |
| | | Bistro | Theatre 30, Ystafell Fwrdd 20, Cabaret 30 | £95 diwrnod llawn, £75 1/2 diwrnod | | |
| **Peterstone Court** | Llanhamlach | Ystafell Gynadledda Pen y F | Ystafell Fwrdd 100, Ystafell Ddosbarth 60, Cabaret 120 | £400 diwrnod llawn, £200 1/2 diwrnod | Cyfradd cynadleddwyr £35 yr un, safonol | Haf – Hyd at 40 o westeion £2,600 yn cynnwys popeth (gwesteion ychwanegol £70 yr un) |
| | | Ystafell Gynadledda Pen y F | fel uchod | £200 diwrnod llawn, £100 1/2 diwrnod | Cyfradd cynadleddwyr £45 yr un, uwch | Normal, cynnwys popeth - Hyd at 75 yn y dydd, 100 gyda'r nos o £8000 |
| | | Ystafell Gyfarfod y Llyfrgell | Ystafell Ddosbarth 10 - 20 | £100 diwrnod llawn, £50 1/2 diwrnod | | |
| **The Barn at Brynich** | Brynich | Ystafell Gyfarfod | Theatr 72, Ystafell Fwrdd 32, Cabaret £40 Ystafell Ddosbarth 28 | | 1/2 diwrnod, £10 yr un | Llogi'r lle ar gyfer priodas |
| | | | | | 1/2 diwrnod, £15 yr un yn cynnwys cinio etc | 2018/19 tymor tawel £1800 |
| | | | | | diwrnod llawn £19 yr un yn cynnwys cinio etc | 2018/19 tymor prysur £2700 |
| **The Castle of Brecon** | Aberhonddu | Usk Suite | Hyd at 24 yn eistedd | £80 diwrnod llawn, £40 1/2 diwrnod | | The Regency Ballroom (120 o westeion) £500 llogi & £450 seremoni |
| | | Crug Room | Hyd at 36 yn eistedd | £80 diwrnod llawn, £40 1/2 diwrnod | | Ystafell Crug (40 o westeion) £250 llogi a £250 seremoni |
| | | Ballroom | Hyd at 120 yn eistedd | £120 diwrnod llawn, £70 1/2 diwrnod | | |
| **The Manor Hotel** | Crucywel | The Beacons Suite | 28 steil gwledd | | | £325 llogi ar gyfer priodas |
| | | The Manor Suite | Theatr 300, 50 Ystafell Fwrdd, 200 gwledd | | | £625 llogi ar gyfer priodas |
| | | The Terrace | Hyd at 40 o bobl yn eistedd | | | £450 llogi ar gyfer priodas |
| **The Swan at Hay Hotel** | Y Gelli Gandryll | The Coach House | Theatr 160, Ystafell Fwrdd 50, Cabaret 120 | Achlysuron mawr, £300 diwrnod llawn | Cyfarfodydd - dim tâl am logi | |
| | | The Garden Room | Theatr 70, Ystafell Fwrdd 38, Cabaret 48 | Achlysuron mawr, £250 diwrnod llawn | Cyfradd cynadleddwyr £22.95 + cinio/paneidiau | |
| | | The Green Room | Theatr 24, Ystafell Fwrdd 20, Cabaret n/a | £60 y dydd | | |

Bydd y Stiwdio Ddysgu 45 metr sgwâr ar gael i'w llogi i grwpiau cymunedol, gan gynnig cyfle i'r amgueddfa gynhyrchu incwm ychwanegol.
Mae'r tablau isod yn rhoi trosolwg o'r prisiau a godir mewn canolfannau mwy o faint (gwestai ac atyniadau i ymwelwyr yn bennaf) yn Aberystwyth a chanolbarth Cymru sy'n cynnig ystafelloedd cyfarfod ar gyfer digwyddiadau a/neu briodasau.

| **Neuaddau cymuned ledled y Canolbarth** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Canolfan** | **Lleoliad** | **Ystafell** | **Lle i faint (yn eistedd)** | **Cost llogi** |
| Tŷ Cwrdd Crynwyr Aberyswyth | SY23 1SZ | Ystafell Gyfarfod | 45 | £15 y bore / prynhawn / gyda'r nos |
| Canolfan Fethodistaidd St Paul | Morfa Mawr | Y Brif Neuadd | 200 | £25/awr; £17.50 i elusennau |
| | | Neuadd Octagon | 50 | £18/awr; £14.50 i elusennau |
| | | Cyntedd | 30 | £12/awr; £8 i elusennau |
| | | Ystafell 3 | 20 | £7/awr; £4.50 i elusennau |
| | | Y gegin | | £12/sesiwn; £8.50 i elusennau |
| | | Lolfa / Ystafell 2 | 15 | £6/awr; £4 i elusennau |
| Neuadd Goffa Penparcau | SY23 1SZ | Y Brif Neuadd | 100 | £25/2 awr yn cynnwys defnyddio'r gegin |
| Neuadd Eglwys y Santes Anne | SY23 1RY | Y Brif Neuadd | 80 | £12/awr neu £9/awr os yw'n drefniant rheolaidd |

Yn ogystal â’r canolfannau masnachol uchod, mae dros 60 o neuaddau cymunedol yng Ngheredigion sy’n cynnig lle i gyfarfod yn llawer rhatach ar gyfer digwyddiadau cymunedol. Mae’r tabl isod yn dangos faint o bobl y mae neuaddau cymuned yn Aberystwyth a’r cylch yn eu dal a faint yw cost eu llogi.

*Ffynhonnell: Neuaddau Ceredigion*

Fel y gwelir, mae tipyn o fwlch rhwng y prisiau a godir gan leoliadau masnachol a gwestai am briodasau, cynadleddau a digwyddiadau eraill a'r cyfraddau a godir gan neuaddau pentref, eglwysi a chanolfannau lleol eraill ar gyfer cyfarfodydd grwpiau cymunedol, partïon pen-blwydd ac ati.

Mae Amgueddfa Ceredigion eisoes yn llogi lle ar gyfer cyfarfodydd. Mae lle i hyd at 100 o bobl yn y Coliseum a chodir tâl o £62 yr awr (am o leiaf 2 awr y tro), gyda ffi lanhau orfodol o £47 y digwyddiad. Mae'r amgueddfa'n rhoi gostyngiad o 50% ar y cyfraddau hyn i grwpiau buddiant lleol. Codir tâl ychwanegol o £15 yr awr i gynnwys llogi'r bar (gan gynnwys staff bar).

Mae gan yr amgueddfa lif cyson o archebion ac ymholiadau, gan gynnwys galw na ellir ei ateb oherwydd naill ai bod y lle eisoes wedi'i archebu neu ei fod yn rhy fawr neu'n rhy gostus ar gyfer anghenion pobl (e.e. cyfarfodydd llai).

Bydd y Stiwdio Ddysgu newydd yn mesur 45 metr sgwâr y tu mewn ac felly bydd lle i gyfarfodydd o hyd at 20 o bobl (yn eistedd ar ffurf ystafell ddosbarth) a derbyniadau ar gyfer hyd at 48 o bobl (yn sefyll).

Yn ogystal â’r rhestr uchod, dyma rai cystadleuwyr eraill:

- Adpar, Hen Swyddfa’r Cyngor: ystafell bwyllgor: £36 - £49 am sesiwn yn y dydd neu £86 am sesiwn gyda’r nos
- Canolfan Gymuned Llandysul: ystafell gynadledda: £26 - £36 am sesiwn yn y dydd
- Promenâd y Gogledd, Aberystwyth (tua 100 metr sgwâr): £36 y dydd
- Neuadd y Sir, Aberaeron: ystafell gymunedol: £26 am sesiwn gyda’r nos
- Neuadd y Sir, Aberaeron: ystafell gynadledda: £98.50 am sesiwn gyda’r nos

Ar sail y cymariaethau uchod a phrisiau presennol Amgueddfa Ceredigion, argymhellir codi tuag £20 - £25 yr awr am logi’r lle cyfarfod newydd, gyda gostyngiad o 50% ar gyfer grwpiau buddiant lleol.

## 2.6 Adolygu cyfleusterau storio tebyg

### 2.6.1 Ymweliadau safle â chyfleusterau storio newydd amgueddfeydd ac archifdai eraill

Yn ystod y prosiect ymwelodd aelodau o dîm yr amgueddfa, pensaer y prosiect ac ymgynghorwyr o Headland Design â storfeydd nifer o amgueddfeydd ac archifdai modern i ddysgu oddi wrth arferion gorau ac i weld sut y maent yn cydbwyso rheolaeth amgylcheddol oddefol â derbyn ymwelwyr ac ymgysylltu â nhw. Y storfeydd yr ymwelwyd â nhw oedd: Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol yn Nantgarw, Canolfan Adnoddau Amgueddfa Glasgow, Canolfan Archifau a Chofnodion Swydd Henffordd a Chanolfan Adnoddau Amgueddfeydd Swydd Amwythig. Ystyrir y ddau gyntaf yn fanylach isod.

### 2.6.2 Y Ganolfan Gasgliadau Genedlaethol, Nantgarw

Prynwyd yr adeilad yn 1998 gan Gyngor Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac fe'i defnyddiwyd gyntaf i storio'r casgliadau diwydiannol. Mae'r adeilad yn eistedd ar lain mawr o dir, ac ychwanegwyd estyniad i'r adeilad yn 2005. Mae traean o'r safle yn dal heb ei defnyddio, sy'n golygu bod lle i ddatblygu yn y dyfodol. Mae 550,000 o wrthrychau yn yr adeilad.

Mae’r adeilad yn gweithredu ar egwyddorion rheolaeth amgylcheddol oddefol. Gosodwyd offer rheoli amgylcheddol ond ni chafodd ei ddefnyddio erioed, oherwydd cyngor gan beirianwyr ac er mwyn bodloni rheoliadau adeiladu.

**Amgylchedd addas ar gyfer casgliadau**

Roedd y cynllun gwreiddiol yn cynnwys llawer o ystafelloedd rhanedig/ar wahân yn yr adeilad i gynnig y gwahanol amodau oedd yn addas ar gyfer casgliadau penodol, ond nid oedd hwn yn gynllun ymarferol. Mae gan yr adeilad lleithder cymharol (RH) amgylchol o 40-60 gyda drifft tymhorol, ac yn y prif fannau storio mae'r tymheredd yn 18°C +/- 2°C, ac yn haf yn 22°C +/- 2°C. Mae'r coridor sy'n rhedeg o amgylch rhan ganolog yr adeilad yn glustogfa – o ran inswleiddio a rheoli plâu.

Yn Sain Ffagan Amgueddfa Werin Cymru mae storfa decstilau bwrpasol, sy'n cynnwys offer i gadw'r tymheredd o dan 14°C. Mae yna storfa ar wahân ar gyfer printiau yn y Ganolfan Gasgliadau.

**Offer storio ac offer trafod**

Cadwyd y dodrefn storio o fewn y gyllideb gan eu bod yn dilyn trefn o ddylunio ac adeiladu, ond gan fod gwahanol gwmnïau'n arbenigo mewn gwahanol fathau o offer storio, gwelsant fod angen mynd at bob cwmni ar wahân i gael y fargen orau ac i'r broses fod ar ei mwyaf effeithiol. Trwy ddefnyddio rheseli symudol yn lle rheseli confensiynol, bydd angen 33% yn llai o le.

Mae'n well cynnwys costau offer trafod o'r dechrau, oherwydd costiodd eu tryc fforch godi £ 40,000. Gofynnwyd i gwmnïau storio ymweld a rhoi dyfynbrisiau. Trefnwyd bod modd mynd at unrhyw eitem benodol ar y silffoedd trwy symud dim ond un eitem arall, mewn egwyddor.

**Pacio**

Ychydig o ddeunydd pacio a ddefnyddir. Nid yw llawer o wrthrychau wedi’u lapio ac mae gwrthrychau’n cael eu storio mewn ffyrdd eraill e.e.

| | |
|---|---|
| Mae silffoedd symudol â sgriniau rhwyllwaith gan Rackline yn golygu bod eitemau’n fwy gweladwy a hygyrch, gan nad yw eitemau fel arwyddion mawr yn gorwedd yn fflat, ac mae hynny’n golygu bod 20% yn fwy o le. |  |

| | |
|---|---|
| Dulliau storio sy'n golygu bod llai o waith glanhau: rhoddwyd eitemau mewn cratiau i'w symud ac maent yn cael eu storio yn eu cratiau. Gellir tynnu'r tu blaen er mwyn eu gweld. Codir cratiau ar baledau ac felly does dim angen silffoedd. |  |
| Stori erydr: rheseli diwydiannol ar ffurf paledau diwydiannol a chynheiliaid pwrpasol wedi'u creu gan y cwmni storio. |  |
| Eitemau mewn droriau wedi'u storio heb ddeunyddiau pacio: e.e. sbesimenau o adar |  |
| Silffoedd safonol ar gyfer eitemau mawr |  |

Ar ôl yr ymweliad â'r prif storfeydd, cafwyd ymweliad byr â Sain Ffagan lle cawsom weld eu storfa decstilau newydd a thrafod y dulliau storio gyda'r curadur.  Ar wahân i'r storfa decstilau yn Sain Ffagan, lle rheolir y tymheredd i atal plâu o wyfynod, roedd holl fannau storio Nantgarw'n defnyddio technegau goddefol.  Roedd y ddau le yn cynnwys labordy cadwraeth a gweithdai ar gyfer gofalu am y casgliadau.

**Mynediad ac ymgysylltiad**

Rhaid i’r cyhoedd gael apwyntiad i fynd i’r storfa. Bu bwriad i gynnal teithiau tywys a derbyn grwpiau ac ysgolion ar ymweliadau, ond gwelwyd bod hyn yn anodd ei drefnu.  Gan nad oes gwaith dehongli yn y storfa, mae’n anodd ennyn diddordeb ymwelwyr yn y gwrthrychau, does dim fframwaith cyfeirio gan arweinwyr teithiau, a does dim cyd-destun i’r gwrthrychau.

Mae ystafell ymchwil ar y safle lle caiff ymwelwyr edrych ar wrthrychau, a gall ymchwilwyr ac aelodau’r cyhoedd ofyn am weld eitemau.

### 2.6.3 Canolfan Adnoddau Amgueddfa Glasgow

Hon yw'r ganolfan ar gyfer staff, rheolwyr, curaduron a chadwraethwyr y gwasanaeth amgueddfeydd ac mae cyfanswm o 170 o staff yn gweithio yma.  Adeiladwyd y ganolfan mewn dau gam.  Roedd Cam 1 yn rhan o gynllun adnewyddu Amgueddfa Kelvingrove ac fe’i hagorwyd yn 2003, ar ôl adeiladu saith pod.  Cwblhawyd Cam 2 yn 2009 pan grëwyd deg pod arall fel rhan o gynllun adnewyddu'r Amgueddfa Drafnidiaeth.  Cyn adeiladu’r storfa newydd hon, roedd casgliadau'r amgueddfeydd yn cael eu storio mewn tua 40 o wahanol lefydd.

Mae miliwn o wrthrychau yn cael eu storio yma, yn cynrychioli casgliadau o naw amgueddfa wahanol.  Trefnwyd yr 17 pod yn ôl y math o gasgliad, gydag amodau amgylcheddol priodol ar gyfer pob casgliad.  Mae hyn yn cynnwys hanes natur, celf, casgliadau'r byd a thechnoleg a thrafnidiaeth.

**Offer storio ac offer trafod**




Codwyd yr adeiladau'n bwrpasol ac mae ganddynt goridorau llydan, sy'n ei gwneud yn hawdd danfon a symud gwrthrychau, a lifftiau gwasanaeth mawr.

Mae digon o le o gwmpas y silffoedd fel y gall ymwelwyr fynd a dod yn hawdd, ac mae gan bob pod fwrdd trafod wedi'i warchod a nifer o wrthrychau sy'n addas i afael ynddynt a'u trafod.  Copïau yw'r arfau hyn, ond mae'r gwrthrychau yn yr ardaloedd storio yn rhai go iawn, sy'n rhan bwysig o brofiad yr ymwelydd.  Caiff y casgliadau eu storio mewn sawl ffordd:

- Silffoedd agored (rhai’n symudol)

- Silffoedd agored â rhwyllwaith metel ar gyfer pethau bach a phethau bregus
- Mannau diogel wedi'u cloi (gyda rhwyllwaith) ar gyfer pethau miniog neu beryglus
- Bocsys ar gyfer pethau brau
- Mae rhai gwrthrychau ar silffoedd â gorchuddion Perspex drostynt

Mae staff technegol yn glanhau yn y storfeydd yn rheolaidd ac nid yw'r rhan fwyaf o'r casgliadau wedi'u gorchuddio

**Mynediad ac ymgysylltiad**

Daw 17,500 o ymwelwyr i'r ganolfan bob blwyddyn. Yn eu plith mae grwpiau o ysgolion, grŵpiau ar gyfer teithiau tywys, ymchwilwyr, neu ymwelwyr sy'n gymryd rhan mewn gweithgareddau neu deithiau. Mae'r ganolfan yn cynnig taith dywys bob dydd (ac eithrio dydd Llun) a gall pobl ymuno heb drefnu ymlaen llaw. Mae grwpiau, ysgolion a phobl sydd am wneud ymchwil yn gorfod bwcio.



Cynhelir digwyddiadau i deuluoedd ar ddyddiau Sadwrn rhwng 1.30 a 4.30pm, pryd y cewch ddewis ymuno ag un o ddwy daith. Mae dau aelod o staff yn mynd gyda phob taith grŵp i'r podiau storio. Yn ystod yr wythnos, mae gwahanol fath o daith bob dydd. Yr un fwyaf poblogaidd yw'r daith arbenigol ar ddyddiau Mawrth, dan arweiniad un o'r curaduron neu'r cadwraethwyr. Mae teithiau cyffredinol yn mynd y tu ôl i'r llenni gan ymweld ag amryw o wahanol storfeydd.

Mae ymweliadau ysgolion yn cynnwys cyfuniad o weithgareddau yn yr ystafell ddysgu a thaith dywys. Mae'r teithiau'n cynnwys trafod gwrthrychau o'r casgliadau cyffwrdd yn ogystal ag edrych ar y casgliadau yn eu storfeydd, ac maent yn para tuag awr. Ar ddechrau'r daith, mae'r staff yn esbonio y caiff pobl gyffwrdd â rhai gwrthrychau ond nid â'r rhai sydd ar y silffoedd. Mae loceri ar gyfer cotiau a bagiau a chaiff ymwelwyr fynd â stôl ysgafn gyda nhw.

Mae'r Amgueddfa Agored yn y ganolfan hefyd ac maent yn darparu bocsys trafod a bocsys benthyca yn ogystal â sesiynau estyn allan ar gyfer grwpiau cymunedol ac ysgolion. Mae gan y tîm estyn allan ddau guradur, un uwch guradur, dau gynorthwyydd estyn allan a staff technegol.


### 2.6.4 Archifau a Chofnodion Cyngor Swydd Henffordd

Dyluniwyd adeilad Archifau a Chofnodion Cyngor Sir Henffordd yn Henffordd gan Architype Architects, gan weithio gyda Nick Grant ac Alan Clarke fel ymgynghorwyr amgylcheddol.



Dyma'r stordy archifau cyntaf yn y Deyrnas Unedig i gael ei adeiladu i safon uchel Passivhaus a'r ganolfan archifau gyntaf yn y DU i gael ei hadeiladu i safon newydd PD5454: 2012: Guidance on the storage and exhibition of archival materials.





Mae'r adeilad mewn dau hanner, wedi'i wahanu gan y brif fynedfa a choridorau.  Dyluniwyd y brif ardal storio gan ddefnyddio egwyddorion goddefol, ac mae'n defnyddio llawer llai o ynni na storfeydd eraill tebyg i sicrhau'r amodau amgylcheddol cywir ar gyfer y casgliad.  Ar wahân i ychydig o oeri i gadw'r tymheredd o fewn y terfynau gofynnol ar gyfer y storfa ffotograffiaeth fach, mae'r prif rannau'n defnyddio egwyddorion ynni isel goddefol i sicrhau'r amodau cywir ar gyfer y casgliad.  Bu'r tîm dylunio'n cadw golwg fanwl ar yr adeilad ac mae popeth yn gweithio yn ôl y disgwyl.

Gosodwyd y system storio gan Ecospace. Roedd yn cynnwys silffoedd symudol 2.4m sy'n ei gwneud yn hawdd i'r staff eu defnyddio. Mae labordy cadwraeth â digon o offer yn yr adeilad hefyd.

### 2.6.5 Canolfan Adnoddau Amgueddfeydd Swydd Amwythig, Llwydlo

Adeiladwyd canolfan adnoddau Amgueddfeydd Swydd Amwythig yn Llwydlo tuag 20 mlynedd yn ôl fel storfa a chanolfan ar gyfer Amgueddfeydd Swydd Amwythig, ond mae'r adeilad yn cynnwys llyfrgell y dref ac ardal arddangos amgueddfa fach hefyd. Fel yn adeilad Archifau a Chofnodion Henffordd, defnyddir silffoedd symudol gan Ecospace a Rackline i wneud y defnydd gorau o'r ardal

storio. Mae'r adeilad yn cynnwys labordy cadwraeth ac ystafell lle caiff y cyhoedd weld y casgliad a'r adnoddau.







Gosodwyd rheseli Llwydlo ar wahanol uchder er mwyn llenwi’r adeilad ond mae hyn wedi achosi anawsterau wrth estyn y gwrthrychau ac ati a bu gofyn cael offer arbenigol. Mae’r adeilad i gyd wedi’i aerdymheru ac er bod hyn yn sicrhau’r amodau amgylcheddol cywir ar gyfer y casgliad, mae’r costau rhedeg a’r costau cynnal a chadw yn sylweddol.

Mae rhestr o gyfleusterau storio eraill cymharol yn Atodiad C.

## 2.7 Canfyddiadau allweddol y gwaith ymgynghori ac adolygu

Mae'r naratif uchod yn disgrifio'r gwaith ymgynghori ac adolygu ar y casgliadau, dogfennaeth gyfredol y casgliadau, a mynediad digidol ac ymgysylltiad cymunedol. Er mwyn datblygu'r cynlluniau, mae'r crynodeb isod yn cyfleu yn fanwl beth rydym wedi'i ddysgu.


| Maes y gwaith | Canfyddiadau allweddol |
|---|---|
| Gwaith rheoli'r casgliadau | - Gwella'r amodau amgylcheddol i gyrraedd safonau sylfaenol rheoli casgliadau o ran lleithder cymharol (RH), tymheredd, golau, rheoli plâu, awyru a chadw tŷ<br>- Rhaid i'r mannau storio fod wedi'u diogelu'n llwyr a bod modd rheoli pwy sy'n mynd yno. Rhaid sicrhau bod yr amgueddfa'n gweithredu'r arferion gorau o ran cynllunio a diogeledd<br>- Mae angen rheseli/silffoedd ac offer storio digonol a phriodol fel y gall staff ac ymwelwyr fynd o gwmpas yn hawdd<br>- Mae angen gwell cyfleusterau i'r staff – mannau gweithio, mannau ar gyfer swyddfa, toiledau a llinellau ffôn<br>- Mae angen gweithleoedd dynodedig ar gyfer tasgau penodol, gan gynnwys gweithdy, stiwdio gadwraeth, ystafell ddysgu ac ystafell ymchwil<br>- Mae angen archwilio'r casgliadau fel y gellir eu rheoli'n effeithiol, bydd hyn yn cynnwys:<br>• Mynd i'r afael ag anawsterau'n ymwneud â dogfennu benthyciadau a sicrhau y gellir gwirio a diweddaru cofnodion<br>• Gwella gwaith rheoli lleoliadau a symudiadau<br>• Adolygu anghenion pacio a storio'r eitemau<br>Asesiad sylfaenol o gyflwr yr holl eitemau er mwyn canfod problemau, llywio gwaith rheoli yn y dyfodol, ac ystyried opsiynau ar gyfer rhesymoli a gwaredu |
| Arwyddocâd | - Byddai asesiadau llawn o arwyddocâd rhannau allweddol o'r casgliad yn ystyried ym mha wahanol ffyrdd y mae'r casgliadau yn arwyddocaol. Dylid cynnal y rhain mewn partneriaeth â'r gymuned leol, academyddion, rhanddeiliaid ac ymwelwyr<br>- Dylid annog ymchwil i'r casgliadau trwy fynd ati i ymwneud ag ymchwilwyr ac academyddion<br>- Dylid mynd i'r afael â bylchau allweddol yn y wybodaeth am y casgliadau er mwyn meithrin gwell dealltwriaeth o feysydd ac ystyr y casgliadau trwy ymwneud ag arbenigwyr a grwpiau arbenigol<br>Trwy ymgynghori, gwelwyd y bydd grwpiau amrywiol yn y gymuned leol ac mewn cylch ehangach yng Ngheredigion wrth eu bodd â'r cyfle i ymwneud â'r casgliadau ac yn cefnogi gwaith i ystyried eu harwyddocâd |
| Dogfennu | - Mae angen dogfennu'r casgliadau yn well fel y gellir eu rhannu â chynulleidfa ehangach. Gellir gwneud hyn trwy:<br>• Datblygu rhaglen o ddiweddaru ac ehangu cofnodion catalogio a fydd yn cynnwys gwybodaeth o ffeiliau hanes gwrthrychau, manylion cyd-destunol ac ymchwil i gofnodion Modes<br>Parhau â gwaith ôl-ddogfennu ac adolygu dogfennau ategol fel rhan o'r prosiect Casgliad ar gyfer y Genedl |
| Mynediad | - Mae angen mynd ati mewn dull strategol i ddatblygu elfennau digidol ar y gwaith. Byddai hyn yn mynd i'r afael â defnydd yr amgueddfa o'r cyfryngau |

| | |
|---|---|
| **digidol** | digidol ac yn cynnwys digideiddio casgliadau, galluogi pobl i gael mynediad digidol o bell ac ar y safle, defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol, a chynllun ar gyfer cynnwys digidol |
| **Ymgysylltu a dysgu** | Mae gan yr amgueddfa enw da am gynnig gweithgareddau dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned. Dyma rai meysydd y gellid eu datblygu:<br>- Sicrhau y gellir gwneud mwy o ddefnydd o amrywiaeth a dyfnder y casgliadau mewn gwaith ymgysylltu a gwaith dysgu<br>- Ymchwilio ac ymgynghori i ddeall apêl bosibl gwahanol rannau o'r casgliad at gynulleidfaoedd, gan arwain at ffyrdd newydd o weithio gyda chasgliadau<br>- Bydd datblygu'r casgliadau trwy gasglu yn y dyfodol yn sicrhau bod natur amrywiol yr ardal a diddordebau a gwerthoedd cynulleidfaoedd ledled Ceredigion yn cael eu cynrychioli yn well |

## Rhan Tri: Argymhellion a Methodolegau

Ar sail y gwaith adolygu ac ymgynghori a wnaed yn ystod y prosiect hwn, ac a nodir yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, mae'r adran hon yn cynnwys arfarniad o'r opsiynau ar gyfer storfa newydd a methodolegau ar gyfer gweithio gyda'r casgliadau. Mae hefyd yn gwneud cyfres o argymhellion ar gyfer y datblygu prosiect Casgliad ar gyfer y Genedl.  Crynhoir y rhain isod o dan y penawdau cyffredinol, Rheoli'r Casgliadau a Defnyddio'r Casgliadau.

Mae’r cynlluniau ar gyfer dysgu ac ymgysylltu â’r gymuned yn y dyfodol yn canolbwyntio ar y syniad o ‘Lab-gueddfa’ yn oriel arddangosfeydd dros dro yr amgueddfa ac yn yr ystafell ddysgu ar y llawr cyntaf. Yma, cynigir gweithgareddau amrywiol er mwyn i gynulleidfaoedd gael cyfle uniongyrchol i archwilio a deall y casgliadau.



## 3.1 Yr asesiad o'r opsiynau, yr argymhellion a'r costau

### 3.1.1 Datblygu Briff Cychwynnol y Storfa Newydd

Ar ôl dadansoddi'r cyfleusterau storio presennol ac ymweld â chyfleusterau tebyg, datblygwyd yr elfennau isod yn agweddau pwysig ar y briff ar gyfer y storfa newydd.

- Yr angen i gadw'r casgliad i gyd mewn un man lle y gall staff ac ymwelwyr fynd a dod yn hwylus.
- Defnyddio dulliau goddefol o reoli'r amgylchedd ar gyfer y rhan fwyaf o'r casgliad, ac eithrio'r storfeydd Ffotograffiaeth a Thecstilau lle rheolir y tymheredd
- Darparu gweithdy a labordy cadwraeth ar y safle
- Darparu ystafell hyblyg ar gyfer grwpiau fel y gellir caniatáu mynediad dan reolaeth i'r casgliad.

Datblygwyd y briff amlinellol hwn fel y briff drafft, a atodir wrth yr adroddiad hwn, ar gyfer y storfa.

### 3.1.2 Dadansoddiad o safleoedd presennol sydd ar gael ar gyfer y Storfa ac asesiad o'r opsiynau

Cynhaliwyd cyfarfodydd gyda Chyngor Sir Ceredigion i ymchwilio i'r safleoedd oedd ar gael ac i ystyried yr holl opsiynau, yn cynnwys ailddefnyddio cyfleusterau presennol.

Dadansoddwyd yr opsiynau hyn gyda'r tîm o ymgynghorwyr a chleientiaid, gan ddefnyddio'r meini prawf isod i'w helpu i ddadansoddi'r dewis gorau.

- Costau Cyfalaf – cyfanswm cost codi adeilad newydd
- Costau Rhedeg storfa'r casgliadau er mwyn sicrhau'r amodau gorau ar gyfer y casgliadau
- Denu Cyllid – a fydd yr opsiwn hwn yn apelio at arianwyr allanol?
- Rheoli'r Casgliadau – a fydd yr opsiwn hwn yn cynnig amodau a lle addas ar gyfer rheoli'r casgliadau
- Mynediad i'r Cyhoedd – a fydd yr adeilad yn caniatáu mynediad cyfartal
- Ymgysylltu â'r Gymuned – a yw'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd i ymgysylltu â chymunedau'r ardal?
- Cynhyrchu Incwm – a oes cyfleoedd i gynhyrchu incwm?
- Ymarferol – a fydd y gwaith cyfalaf yn ymarferol, a pha opsiwn sydd â'r risg leiaf?
- Effaith Amgylcheddol – pa opsiwn fydd yn cael dim ond ychydig o effaith ar yr amgylchedd dros gyfnod
- Cysylltiadau – a oes gan y safle gysylltiadau trafnidiaeth da neu a yw'n agos at gymuned?

Mae naratif isod yn disgrifio pob opsiwn ac mae'r tabl yn rhoi crynodeb o'r asesiad o'r opsiynau.

1. Gwneud dim a chadw'r lleoedd storio presennol

Ni fyddai angen buddsoddiad cyfalaf ar gyfer hyn ond os caiff y storfeydd eu cynnal a'u cadw'n iawn gan ddarparu amodau addas ar gyfer storio'r casgliadau bydd y costau rhedeg yn uchel. Bydd hefyd oblygiadau difrifol o ran rheoli'r casgliadau a mynediad i'r cyhoedd ac ni fydd cyfle i ymgysylltu â'r gymuned nac i gynhyrchu incwm. Bydd effaith amgylcheddol a chostau rhedeg y storfeydd yn eu ffurf bresennol yn uchel.

2. Defnyddio'r prif ofod yn y to uwchben y Coliseum ac ailddatblygu'r adeilad yn Stryd y Baddon

Dyma'r opsiwn mwyaf costus gan fod angen llawer o waith ar y Coliseum i drawsnewid gofod y to a darparu mynediad iddo ac ar garej Stryd y Baddon, gan y byddai angen ei ddymchwel a chreu adeilad newydd. Byddai'r adeiladau newydd yn cael eu cynllunio fel bod y costau rhedeg a'r effaith amgylcheddol yn isel, ac mae cyfleoedd i ennyn diddordeb pobl yn y casgliad. Ni fyddai modd adnewyddu gofod y to i'r un safonau ag adeilad newydd. Byddai dylunio ac addasu dau adeilad yn golygu bod hwn yn brosiect cymhleth i'w gyflawni a byddai angen storio'r casgliadau oddi ar y safle yn ystod y gwaith. Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig cyfleoedd i gynhyrchu incwm.

3. Codi adeilad newydd wrth ymyl Ysgol Penweddig/yr adeilad biomas

Byddai codi adeilad newydd yn costio llai na'r opsiynau i addasu neu ymestyn adeilad sy'n bodoli eisoes. Mae'r safle mewn lle hwylus i'r cyhoedd fynd a dod, mae ganddo gysylltiadau da ac mae'n agos at gymuned ac ysgol felly mae llawer o gyfleoedd i ymgysylltu â phobl. Byddai'r costau cyfalaf, y costau rhedeg a'r effaith amgylcheddol yn dda a byddai'r safle'n gallu defnyddio'r cyfleusterau a gynigir gan yr adeilad biomas. Mae'r lle'n ddigon mawr i fel y gellir rheoli'r casgliadau'n well a chael cyfleoedd i gynhyrchu incwm ac mae'r lleoliad a'r potensial yn cynnig cyfleoedd o ran cyllido. Mae'r safle'n addas ar gyfer gweithredu arferion gorau o ran dylunio storfa amgueddfa ynni goddefol.

4. Codi adeilad newydd/Estyniad i Uned 48 ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon

Yn dilyn asesiad pellach, nid yw'r llain hon dir yn ddigon mawr ar gyfer y storfa angenrheidiol. Mae hynny'n golygu bod angen dymchwel neu ymestyn yr adeilad presennol ar y safle gan wneud hwn yn opsiwn drutach nag adeilad newydd. Mae ganddo gysylltiadau trafnidiaeth da a pheth lle i'r cyhoedd ond nid yw'n agos at gymuned a fyddai'n gallu cymryd rhan. Mae problemau gydag ymarferoldeb y cynllun oherwydd cyfyngiadau'r safle. Byddai'r effaith amgylcheddol yn isel.

5. Codi adeilad newydd yn Nepo'r Cyngor. Safle ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon

Nid yw'r opsiwn hwn ar gael bellach. Nodwyd yn y dadansoddiad o opsiynau bod y safle hwn yn debyg i rif 4 ac ar yr un safle. Gan y byddai'n adeilad newydd, byddai'r costau cyfalaf yn is ac mae'n fwy ymarferol na'r opsiwn cynt ond does dim cyfleoedd ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd.

6. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Llanbadarn

Byddai'r costau adeiladu ar y safle hwn yn uwch, nid yw'n hwylus i'r cyhoedd ac nid oes cysylltiadau da. Byddai rhai cyfleoedd i ymwneud â phobl ond ychydig o gyfle i gynhyrchu incwm ac mae'r safle'n golygu y byddai'n anos datblygu'r adeilad. Byddai costau rhedeg yr opsiwn hwn ychydig yn is na safleoedd mwy anghysbell ond nid mor isel ag adeilad newydd. Byddai'r effaith amgylcheddol ychydig yn uwch gan na fyddai modd addasu'r adeilad presennol fel ei fod yn cyrraedd yr un safonau ynni ag adeilad newydd. Byddai topograffi'r safle yn dipyn o her i bobl lai abl.

7. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Cilcennin

Byddai costau'r opsiwn hwn yn uwch oherwydd natur yr adeilad presennol. Byddai'r costau rhedeg yn uwch gan na fyddai modd addasu'r adeilad presennol fel ei fod yn cyrraedd yr un safonau ynni ag adeilad newydd. Mae llai o le ar gael ac felly byddai llai o gyfleoedd i reoli'r casgliadau'n well a chynhyrchu incwm. Er bod cymuned gerllaw, mae'r cysylltiadau trafnidiaeth a chyfleoedd ar gyfer mynediad y cyhoedd yn wael.

8. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Beulah

Byddai costau cyfalaf yr opsiwn hwn yn uwch hefyd oherwydd yr adeilad presennol. Mae'n hwylus i'r cyhoedd ond does dim cysylltiadau da. Ychydig o gyfleoedd sydd i ymgysylltu â'r cyhoedd a disgwylir

y byddai'r costau rhedeg yn uwch na phob un ond dau o'r opsiynau. Mae cyfleoedd i gynhyrchu incwm a byddai’r effaith amgylcheddol yn fach iawn.

Mae’r tabl ar y dudalen nesaf yn dangos canlyniad y dadansoddiad. Yr opsiwn sy’n cael ei ffafrio yw Opsiwn 3 – adeilad newydd ger Ysgol Penweddig. Mae gan y safle gysylltiadau da â chyfleusterau cyfagos a’r dref, a datblygwyd y cynlluniau cychwynnol ar y sail honno.

| Opsiynau | Costau Cyfalaf | Costau Rhedeg | Denu Cyllid | Rheoli'r Casgliadau | Mynediad i'r Cyhoedd | Ymgysylltu â'r Gymuned | Cynhyrchu Incwm | Ymarferol | Effaith Amgylcheddol | Cysylltiadau | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 5 | 1 | 5 | 1 | 1 | 1 | 1 | 5 | 1 | 3 | 24 |
| 2 | 1 | 4 | 2 | 1 | 3 | 3 | 1 | 1 | 4 | 3 | 23 |
| 3 | 4 | 5 | 5 | 5 | 5 | 5 | 4 | 4 | 5 | 5 | 47 |
| 4 | 3 | 4 | 4 | 5 | 4 | 3 | 4 | 3 | 4 | 5 | 39 |
| 5 | 4 | 5 | 5 | 5 | 4 | 3 | 4 | 4 | 5 | 5 | 44 |
| 6 | 3 | 4 | 3 | 2 | 2 | 3 | 2 | 2 | 4 | 3 | 28 |
| 7 | 2 | 3 | 4 | 2 | 2 | 4 | 3 | 4 | 4 | 1 | 29 |
| 8 | 2 | 3 | 4 | 3 | 3 | 3 | 3 | 4 | 4 | 2 | 31 |

**Lleoliadau'r Opsiynau**

1. 'Gwneud dim' a chadw'r lleoedd storio presennol
2. Prif ofod y to uwchben y Coliseum ac ailddatblygu adeilad ar Stryd y Baddon
3. Codi adeilad newydd ar safle wrth ymyl Ysgol Penwedding/yr adeilad biomas
4. Codi adeilad newydd / Estyniad i Uned 48 ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon
5. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Llanbadarn
6. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Cilcennin
7. Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Beulah
8. Codi adeilad newydd ar Safle Depo'r Cyngor ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon

**Opsiynau yn nhrefn y sgoriau, uchaf yn gyntaf**

Codi adeilad newydd ar safle wrth ymyl Ysgol Penwedding/yr adeilad biomas
Codi adeilad newydd ar Safle Depo'r Cyngor ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon
Codi adeilad newydd / Estyniad i Uned 48 ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon
Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Beulah
Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Cilcennin
Codi adeilad newydd neu addasu hen Ysgol Gynradd Llanbadarn
Prif ofod y to uwchben y Coliseum
'Gwneud dim' a chadw'r lleoedd storio presennol

Ar ôl asesu’r opsiynau, gwnaed rhagor o waith i ystyried yr opsiynau oedd yn cael eu ffafrio. Nid yw Opsiwn 5 (codi adeilad newydd yn nepo’r cyngor ar Stad Ddiwydiannol Glan yr Afon) ar gael bellach ac nid oes gan Opsiwn 4 (codi estyniad newydd i Uned 48) lain o dir sy’n ddigon mawr ar gyfer yr adeilad angenrheidiol .


Ar ôl dadansoddi’r cyfleusterau storio presennol ac ymweld â chyfleusterau tebyg, datblygwyd yr elfennau isod yn agweddau pwysig ar y briff ar gyfer y storfa newydd.

- Yr angen i gadw’r casgliad i gyd mewn un man lle y gall staff ac ymwelwyr fynd a dod yn hwylus.
- Defnyddio dulliau goddefol o reoli’r amgylchedd ar gyfer y rhan fwyaf o’r casgliad, ac eithrio’r storfeydd Ffotograffiaeth a Thecstilau lle rheolir y tymheredd
- Darparu gweithdy a labordy cadwraeth ar y safle
- Darparu ystafell hyblyg ar gyfer grwpiau fel y gellir caniatáu mynediad dan reolaeth i’r casgliad.


Datblygwyd y brif amlinellol hwn fel y briff drafft ar gyfer y storfa a atodir wrth yr adroddiad hwn.

### 3.1.3 Datblygu Braslun o’r Dyluniad

Ar ôl datblygu’r briff cychwynnol gyda’r cleient, datblygwyd cynlluniau dangosol. Mae’r rhain yn cynnwys lle i barhau i gasglu yn y dyfodol a photensial i gynhyrchu incwm yn y storfa, y gweithdy a’r labordy cadwraeth.




Cynllun Llawr / Ground Floor Plan 31x40m 1100 Sqm GIA





Cynllun Llawr / Ground Floor Plan 51x23m 1100 Sqm GIA

Brasluniau Cychwynnol o'r Gosodiad

Trafodwyd y cynlluniau a'r opsiynau hyn gyda'r curadur a datblygwyd yr elfennau isod:

1. Cysylltiad gweledol o'r Swyddfa i'r Labordy Cadwraeth a'r Ystafell Ymwelwyr/Trafod Eitemau
2. Llwybr mynediad canolog clir ar gyfer danfon casgliadau a'i ddefnyddio gan y cyhoedd.
3. Mynedfa ar wahân i ddod ag eitemau brwnt i'r gweithdy




Cynllun Llawr / Ground Floor Plan 32x41m 1100 Sqm GIA

Arwynebedd y Llawr y tu Mewn 1133.34 m2

Arwynebedd Crynswth 1227.3 m2

Mae'r adeilad y sonnir amdano'n mesur tua 1130 metr sgwâr ac mae yno 30% yn fwy o le i storio pethau na'r mannau presennol, gan ddefnyddio rheseli storio symudol.

### 3.1.4 Camau'r Gwaith a'r Rhaglen

Awgrymir yr amserlenni isod ar gyfer y prosiect

Archwilio'r Safle, Dylunio'r Manylion i lefel Cam 3 RIBA a Chyflwyno'r Cais Cynllunio – 10 wythnos
Cynllunio ac Ymgynghori – 12 wythnos
Dylunio'r Manylion i lefel Cam 4 RIBA a Chyfnod Tendro ar gyfer y Gwaith Adeiladu – 16 wythnos
Paratoi ac Adeiladu – 40 wythnos
Ffitio a chomisiynu – 8 wythnos
Cwmni symud arbenigol, a symud y casgliad – 4 wythnos

Trefniadau Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu: Bydd angen Caniatâd Cynllunio a Rheoliadau Adeiladu.
Iechyd a Diogelwch: Bydd y prosiect yn hysbysadwy o dan y rheoliadau CDM.

### 3.1.5 Risgiau

Yr eitemau isod fydd sylfaen cofrestr risg y prosiect:

Risg Ariannol: Mae hyn yn cynnwys Cynnydd ym Mhris Adeiladu, yr amodau a roddir ar yr ymatebion i'r tendr, ac a oes contractwyr addas ar gael i dendro'n gystadleuol.
Gwasanaethau: A oes gwasanaethau ar gael ar gyfer y safle.
Cyflwr y Ddaear: Bydd angen canfod cyflwr y ddaear yn fuan.

### 3.1.6 Costau

Ar ôl datblygu'r dyluniad, datblygwyd y cynllun costau cychwynnol a derbyniwyd dyfynbrisiau oddi wrth gyflenwyr yr holl brif elfennau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun costau.

Atodir y cynllun costau yn Atodiad E.

Dyma grynodeb o'r costau cyfalaf:

| | |
|---|---|
| Costau cyfalaf storfa gasgliadau newydd | £1,475,108 |
| Lwfans ar gyfer storio dros dro, bocsys, cwmni symud | £65,000 |
| Ffioedd y tîm dylunio – cyfnod datblygu | £38,500 |
| Ffioedd y tîm dylunio – cyfnod cyflawni | £72,133 |
| Cyfanswm | £1,650,741 |

## 3.2 Methodolegau ar gyfer archwiliad llawn, adolygiad ac asesiad o arwyddocâd y casgliad

### 3.2.1 Proses tri cham ar gyfer archwilio'r casgliadau, eu hadolygu ac asesu eu harwyddocâd

Ar sail yr adolygiad cychwynnol o'r casgliadau a gynhaliwyd yn ystod y prosiect, cyflwynir isod broses dri cham ar gyfer archwilio'r casgliad llawn, ei adolygu ac asesu ei arwyddocâd.

**Archwiliad ac adolygiad o'r casgliadau**

Bydd yr archwiliad a'r adolygiad yn broses dau gam a fydd yn ddefnyddio Modes a ***Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion*** ar gyfer eitemau a ddarganfyddir yn y storfeydd heb rifau derbynodi. Bydd y broses yn digwydd cyn symud i'r storfa newydd.

Mae'r fethodoleg yn golygu y gellir gwneud gwaith archwilio/adolygu cychwynnol cyn gweithgareddau ymgysylltu fel na fydd raid symud cymaint o ddeunydd i'r amgueddfa ar gyfer gweithgareddau Lab-gueddfa ac i roi cyfle i'r tîm archwilio cyflwr y gwrthrychau a deall eu hamrediad a'u hanghenion cyn gwneud y gwaith ymgysylltu.

Mae ***Grid Adolygu Casgliadau Amgueddfa Ceredigion*** yn cyflwyno'r meini prawf a ddefnyddir i roi sgôr neu asesiad i bob uned adolygu.

**Cam 1 (archwilio)**

Yng ngham 1 (archwilio) mae gwybodaeth am adnabod y gwrthrych, disgrifiadau, deunydd, mesuriadau, cyflwr, lleoliad, cyfeirnod llun, nodiadau, enw'r cofnodydd a'r dyddiad yn cael ei diweddaru'n uniongyrchol ar Modes - a gofelir bod y gwrthrych wedi'i labelu'n glir ac yn ddiogel

Rhoddir Rhif Dros Dro Casgliad ar gyfer y Genedl i wrthrychau a ddarganfyddir heb rifau a chânt eu cofnodi ar Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion. Dim ond rhai rhannau o'r ffurflen a lenwir - lleoliad, enw llawn y gwrthrych, cyflwr, cyfeirnod llun, nodiadau, enw'r adolygydd a'r dyddiad.

**Cam 2 (adolygu)**

**Mae Cam 2 yn canolbwyntio ar berchnogaeth y gwrthrych gan gyfeirio at ddogfennaeth ychwanegol o'r casgliadau fel y gellir gwneud adolygiad manylach. Caiff dogfennau ychwanegol eu rhestru, eu digideiddio (os nad ydynt eisoes yn ddigidol) a'u cysylltu â chofnodion Modes i'w gwneud yn haws cyrchu a chwilio am wybodaeth yn ystod y cam hwn. Yn ystod Cam 2 llenwir yr adrannau sy'n ymwneud â photensial y gynulleidfa ac arwyddocâd rhagarweiniol**

Erbyn diwedd Cam 2 mae'r adolygiad / archwiliad yn rhoi digon o wybodaeth fel y gall y staff wneud penderfyniadau:

- Pa rannau o thema'r casgliad hwn y mae angen eu harchwilio trwy asesiad manwl o arwyddocâd?
- Pa rannau o thema'r casgliad hwn sy'n flaenoriaethau posibl ar gyfer rhesymoli?

**Cam 3 (asesiad o arwyddocâd)**

Mae Cam 3 yn cynnwys ymgysylltu â'r gymuned, partneriaid a rhanddeiliaid ynghyd ag arbenigwyr pwnc yr amgueddfa wrth ddatblygu asesiadau manwl o arwyddocâd ar gyfer rhannau allweddol o'r casgliad a nodwyd fel rhan o'r broses archwilio/adolygu.

Nodir y meini prawf ar gyfer yr asesiadau o arwyddocâd yng Ngrid Asesu Arwyddocâd Amgueddfa Ceredigion, wedi'u seilio ar feini prawf MALD a'u haddasu ar gyfer Amgueddfa Ceredigion.

Mae templed ar gyfer cyflwyno canlyniadau'r asesiadau o arwyddocâd ar ffurf Datganiad o Arwyddocâd yn Atodiad D.

Mae canlyniadau Cam 3 yn helpu i wella dogfennaeth y casgliadau ac argymhellion ar gyfer mynediad digidol.

**Crynodeb o'r broses dri cham**

**Dewis ardal storio ar gyfer archwiliad/adolygiad. Y broses i'w gwneud mewn dau gam – yn gyntaf archwiliad a drefnir yn ôl ardaloedd storio ac yna adolygiad manylach**

- Dewis ardal storio i'w hadolygu

↓

**Cam 1 (archwiliad): Diweddarwch gronfa ddata Modes da Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion. Gwneir y gwaith yn y storfeydd**

- Gweithiwch yn ddigidol yn syth i'r gliniadur

↓

**Cam 2 (adolygiad): Cynhaliwch adolygiad o gofnodion a gwybodaeth ychwanegol er mwyn cwblhau'r archwiliad/adolygiad. Gwneir y gwaith yn y swyddfa**

- Cyfeiriwch at y gofrestr dderbynodi, y ffurflenni cofnodi gwrthrychau, ffeiliau hanes y gwrthrychau, ffeiliau ymchwil Modes a dogfennau cysylltiedig eraill
- → Llanwch yr adran am y gynulleidfa botensial – y prif gwestiynau am adolygu'r casgliadau

↓

**Defnyddiwch ganlyniadau'r archwiliad/adolygiad i gynllunio asesiad manwl o arwyddocâd results**

- Nodwch anawsterau a chyfleoedd gan ddewis rhannau allweddol o'r casgliad i gael asesiad manwl o arwyddocâd a gweithgareddau Lab-gueddfa
- Defnyddiwch ganlyniadau'r adolygiad i gynllunio ymgynghoriad ac i baratoi cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r asesiad o arwyddocâd
- Defnyddiwch ganlyniadau'r adolygiad i bennu blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli

↓

**Cam 3 (arwyddocâd): Cynhaliwch asesiad o arwyddocâd gann ddefnyddio Grid Asesu Arwyddocâd Amgueddfa Ceredigion ar adran a ddewiswch o'r casgliad.**

- Cydweithiwch â grwpiau, partneriaid ac arbenigwyr pwnc yr amgueddfa etc i gynnal asesad o arwyddocâd
- Ysgrifennwch ddatganiad awyddocâd ar gyfer y rhan hon o'r casgliad
- Defnyddiwch y canlyniadau ii wella dogfennaeth y casgliadau – cofnodwch y broses/canlyniadau ar Modes

↓

**Bwydo canlyniadau'r adolygiad a'r asesiad o arwyddocâd yn ôl i'r blaengynllun a cham nesaf y prosiect**

- Decisions made about rationalisation and disposal
- New information leads to greater engagement with collections – including digital engagement (outlined in recommendations)
- Significance informs new interpretation and activities

## Gweithio trwy'r fethodoleg ar gyfer archwilio ac adolygu

**Cam 1 (archwilio): Diweddaru cronfa ddata Modes a Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion. Gwneir y gwaith yn y storfeydd**

**Gwrthrychau â rhifau**
Defnyddiwch Modes annibynnol ar liniadur
Yn gyntaf, gofalwch fod y rhif adnabod a'r gwrthrych wedi'u rhestfu'n gywir ar Modes

- Os yw'r wybodaeth ar Modes a'r gwrthrych yn cyfateb i'w gilydd
  - Diweddarwch y wybodaeth yn syth ar Modes
    - Manylion adnabod (yn cynnwys enw syml/enw llawn/dosbarthiad/SHIC)
    - Brawddeg fer o ddisgrifiad
    - Disgrifiad llawn
    - Deunydd
    - Mesuriadau
    - Cyflwr
    - Cyfeirnod ffotograff
    - Lleoliad
    - Dyddiad ac enw'r cofnodydd
  - Gofalwch fod label clir yn sownd wrth y gwrthrych
- Os NAD YW'R wybodaeth ar Modes a'r gwrthrych yn cyfateb i'w gilydd
  - Ceisiwch eglurhad trwy'r cofrestri derbynodi ysgrifenedig a'r dyddlyfrau
    - Os caiff y wybodaeth ei dilysu'n foddhaol (→ Diweddarwch y wybodaeth yn syth ar Modes)
    - Os NA CHAIFF y wybodaeth ei dilysu'n foddhaol (→ Gwrthrychau heb rifau)

**Gwrthrychau heb rifau**

- Rhowch **Rif Dros Dro** newydd **Casgliad ar gyfer y Genedl**
- PEIDIWCH â'i ychwanegu at Modes
- Llanwch Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion
  - Llanwch adrannau A- F
  - G1
  - H – K
  - Rhowch label clir yn sownd wrth y gwrthrych

**Cam 2 (adolygu): Adolygu gwybodaeth Cam 2 (adolygu) : Adolygu gwybodaeth a chofnodion ychwanegol er mwyn cwblhau'r archwiliad/adolygiad. Gwneir y gwaith yn y swyddfa**

**Cofnodion a nodwyd yn Modes**

Cyfeiriwch at y gofrestr dderbynodi, y ffurflenni cofnodi gwrthrychau, ffeiliau hanes y gwrthrychau, ffeiliau ymchwil Modes a dogfennau cysylltiedig eraill
Ar Modes nodwch
- yr holl wybodaeth am berchnogaeth y gwrthrych (i'w nodi yn elfen 'Accession' Modes)
- sganiwch yr holl ddogfennaeth a'u cysylltu â chofnod y gwrthrych yn Modes
- llanwch yr adran am y gynulleidfa botensial (i'w nodi yn elfen 'Audience' Modes)

**Cofnodion i'w nodi ar Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion**

Chwiliwch Modes i gael rhestr o achosion lle gallai'r wybodaeth gyfateb i wrthrychau.
Cyfeiriwch at y gofrestr dderbynodi, y ffurflenni cofnodi gwrthrychau, ffeiliau hanes y gwrthrychau, ffeiliau ymchwil Modes a dogfennau cysylltiedig eraill

- Os NAD oes cyfatebiaeth bendant, llanwch adrannau G2 - G6 Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion
- Os oes cyfatebiaeth bendant, ewch yn ôl i Gam 1 a diweddaru'r holl wybodaeth ar Modes

**Defnyddio canlyniadau'r archwiliad/adolygiad i gynllunio asesiad manwl o arwyddocâd.**

- Nodwch anawsterau a chyfleoedd gan ddewis rhannau allweddol o'r casgliad i gael asesiad manwl o arwyddocâd a gweithgareddau Lab-gueddfa
- Defnyddiwch ganlyniadau'r adolygiad i gynllunio ymgynghoriad ac i baratoi cwestiynau i'w gofyn fel rhan o'r asesiad o arwyddocâd
- Defnyddiwch ganlyniadau'r adolygiad i bennu blaenoriaethau ar gyfer rhesymoli

Mae copïau o Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion a Grid Adolygu Casgliadau Amgueddfa Ceredigion i'w gweld yn Atodi

**Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion**

| Ffurflen Gofnodi'r Archwiliad a'r Adolygiad o Gasgliadau Amgueddfa Ceredigion | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dyddiad yr Adolygiad:** 14/5/19 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **Dalen:** 1 | | | | | | | | | | | | | | | | |
| **A** | **B** | **C** | **D** | **E** | **F** | **G1** | **G2** | **G3** | **G4** | **G5** | **G6** | **H** | **I** | **J** | **K** |
| Thema'r Casgliad | Lleoliad : adeilad | Lleoliad : manwl (bae/silff/bocs) | Rhif Dros Dro Casgliad ar gyfer y Genedl | Enw llawn y gwrthrych | Nifer y gwrthrychau | ASESIAD O GYFLWR | ARWYDDOCÂD CYCHWYNNOL | PERCHNOGAETH | POTENSIAL AR GYFER YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD | DYSGU FFURFIOL | DEFNYDD AR GYFER YMCHWIL | Cyf. Ffoto | Nodiadau | Enw'r adolygydd | Date |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | | | | | | | |

## Grid Archwilio ac Adolygu Casgliadau Amgueddfa Ceredigion

| CYFLWR | | ARWYDDOCÂD | PERCHNOGAETH | Y GYNULLEIDFA | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **G1 Asesiad o gyflwr** | | **G2 Arwyddocâd** | **G3 Perchnogaeth** | **G4 Potensial ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd** | **G5 Dysgu Ffurfiol** | **G6 Defnydd ar gyfer ymchwil** |
| DA<br>• Deunydd sefydlog<br>• Cyflwr da<br>• Dim problemau cadwraeth<br>• Dim angen gwaith | 1 | O bwysigrwydd **rhyngwladol/cenedlaethol –** yn gwneud cyfraniad o bwys at syniadau deallusol neu at astudio pwnc neilltol, ac mae iddo ran hanfodol yn y straeon y mae'r amgueddfa yn eu hadrodd e.e. trwy ei statws eiconig neu ei werth hanesyddol/diwylliannol eithriadol<br><br>A fu ganddo gyfraniad at newid cwrs hanes y wlad?<br><br>Perthnasol i'r Casgliad Cenedlaethol sydd ar Wasgar yng Nghymru<br><br>Cynrychioli diwylliant a/neu hunaniaeth genedlaethol Cymru | • Wedi'i dderbynodi ac yn eiddo i'r sefydliad<br>• Prawf o'i brynu / llythyron perchnogaeth / dogfennaeth<br>• Ar fenthyciad sydd wedi'i ddogfennu ac iddo linell amser glir. | • Caiff ei gyfrif yn 'seren' yn y casgliad ac yn ganolbwynt man arddangos allweddol<br>• Ffactor 'waw'<br>• Ymwelwyr o'r farn ei fod yn eiconig<br>• Y cyhoedd yn ei gysylltu a'ch sefydliad neu'ch lleoliad chi<br>• Yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd mewn digwyddiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau estyn allan<br>• Mae'n ennyn ymateb personol / cysylltiadol cryf gan ymwelwyr | • Gellir ei ddefnyddio fel cymorth i ddysgu<br>• Mae'n meithrin dysgu ac addysgu rhyngddisgyblaethol | • Rhan o gasgliad ymchwil a gafodd ei greu'n bwrpasol<br>• Caiff ei ddefnyddio'n rheolaidd gan ymchwilwyr<br>• Potensial cryf ar gyfer ei ddefnyddio mewn ymchwil rhyngwladol/cenedlaethol<br>• Y cyhoedd yn sôn amdano'n rheolaidd neu staff yn sôn amdano wrth ateb ymholiadau gan y cyhoedd |
| GWEDDOL<br>• Deunydd sefydlog<br>• Ychydig o waith glanhau: sefydlog ac nid mewn perygl<br>• Wedi'i anharddu neu ei ddifrodi ond yn sefydlog | 2 | O bwysigrwydd **rhanbarthol,** gan wneud cyfraniad arwyddocaol at astudio pwnc neilltuol ac mae iddo ran hanfodol yn y straeon y mae'r amgueddfa yn eu hadrodd am Geredigion a/neu ganolbarth Cymru | • Wedi'i dderbynodi ac yn cael ei gyfrif yn eiddo i'r sefydliad<br>• Dim llythyron na dogfennaeth gan ei fod wedi'i dderbyn i mewn i'r sefydliad dros amser<br>• Ar fenthyciad sydd wedi'i ddogfennu ac sy'n cael ei adnewyddu'n rheolaidd. | • Mae'n ennyn diddordeb ymwelwyr ac yn ysgogi trafodaethau ac ymholiadau am yr oriel<br>• Mae'n wrthrych ategol pwysig mewn man arddangos<br>• Defnyddir yn achlysurol mewn digwyddiadau cyhoeddus, sgyrsiau, sesiynau cyffwrdd/trafod | • Mae iddo botensial i'w ddefnyddio mewn digwyddiadau estyn allan a dysgu<br>• Potensial i feithrin agweddau ar ddysgu | • Unigryw i'r amgueddfa ac i'r safle<br>• Caiff ei ddefnyddio gan ymchwilwyr weithiau a sonnir amdano mewn ymholiadau<br>• Potensial amlwg i'w ddefnyddio ar gyfer ymchwil |
| GWAEL<br>• Ychydig o ddefnydd a wneir ohono, mwy na thebyg yn ansefydlog<br>• Peth risg: byddai gwaith cadwraeth i'w adfer neu ei atgyweirio yn ddymunol | 3 | Yn amlwg yn bwysig i **gymuned**, boed honno'n gymuned leol neu'n gymuned ddiddordeb.<br>Ydi e'n cynrychioli neu'n symbol o gredoau, syniadau neu arferion sy'n bwysig i gymuned? | • Heb ei dderbynodi ond mae'n hysbys/wedi'i brofi ei fod yn eiddo i'r sefydliad.<br>• Casglwyd gan staff yr amgueddfa ar gyfer ymchwil/dysgu heb lythyron perchnogaeth<br>• Ar fenthyciad wedi'i ddogfennu | • Gwrthrych ategol defnyddiol ar gyfer arddangos a chyffwrdd/trafod<br>• Nid yw'n ganolbwynt sylw'r cyhoedd ar hyn o bryd ond gallai fod yn y dyfodol | • Cafodd ei gasglu a'i ddefnyddio'n wreiddiol fel cymorth dysgu ond ni chaiff ei ddefnyddio bellach. | • Unigryw i'r amgueddfa ond mae rhai tebyg mewn amgueddfeydd eraill<br>• Casglwyd fel rhan o gasgliad ymchwil ond ni chaiff ei ddefnyddio bellach<br>• Peth potensial ar gyfer ei ddefnyddio yn y dyfodol |
| | 4 | O bwysigrwydd amlwg i **Amgueddfa Ceredigion fel sefydliad**, gan wneud cyfraniad sylweddol at astudio'r Coliseum a/neu yn rhan hanfodol o themâu'r amgueddfa a dibenion addysgol a chymdeithasol y safle | • Wedi'i dderbynodi ond nid yw'n cael ei gyfrif yn eiddo i'r sefydliad<br>• Ar fenthyciad amhenodol sydd wedi'i ddogfennu | • Hyd y gwyddom, nid yw wedi'i ddefnyddio yn ganolbwynt i sylw'r cyhoedd<br>• Angen datrys problemau ynghylch mynediad at y gwrthrych | • Ychydig o botensial i'w ddefnyddio ar hyn o bryd ond gallai fod yn berthnasol yn y dyfodol | • Un o nifer o wrthrychau tebyg yn y casgliadau<br>• Ychydig o botensial i'w ddefnyddio ar hyn o bryd ond gallai fod yn berthnasol yn y dyfodol |
| GWAEL IAWN<br>• Deunydd ansefydlog iawn<br>• Wedi gwanhau yn ddifrifol<br>• Yn dirywio'n amlwg<br>• Effeithio ar wrthrychau eraill<br>Mae'n achosi risg ar unwaith i sbesimenau eraill | 5 | Ni chyfrifir bod iddo werth hanesyddol | • Ni chafodd ei dderbynodi, ei darddiad heb ei ddogfennu<br>• Credir ei fod ar fenthyciad hirdymor/amhenodol ond nid yw wedi'i ddogfennu.<br>• Wedi'i gam-dderbynodi (h.y. mae'n amlwg nad oedd i fod i gael ei ychwanegu at y casgliadau parhaol a'i fod yn e.e. deunydd sy'n gosod naws yr ystafell/prop/replica. | • Dim potensial i fod yn ganolbwynt sylw'r cyhoedd<br>• Dim yn addas ar gyfer ei arddangos nac ar gyfer sesiynau cyffwrdd/trafod | • Hyd y gwyddom, nid yw wedi'i ddefnyddio ar gyfer dysgu<br>• Dim gwerth iddo ar gyfer dysgu yn y dyfodol | • Enghraifft o fath neu fathau cyffredin<br>• Mae gan yr amgueddfa sawl un<br>• Erioed wedi'i ddefnyddio ar gyfer ymchwil na dim potensial i wneud hynny |
| | 6 | Tarddiad anhysbys / Ni wyddom beth ydyw. Angen rhagor o waith i ddeall ei arwyddocâd | • Ni wyddom beth yw sefyllfa'r ddogfennaeth | • Ni wyddom beth yw ei botensial ar gyfer arddangos a/neu gyffwrdd/trafod | • Angen rhagor o ymchwil i'w botensial ar gyfer dysgu | • Angen rhagor o ymchwil i'w botensial ar gyfer ymchwil |

**Nodiadau am sgorio:** Caiff G2-G6 eu sgorio o 1 i 6. Yn achos G3-G6, 1 yw'r sgôr uchaf a 5 yw'r sgôr isaf. Defnyddir sgôr o 6 i ddangos mai ychydig a wyddom am y gwrthrych a bod angen rhagor o ymchwil, er mwyn sicrhau nad yw eitemau'n cael eu diystyru yn gynnar yn y broses am nad oes llawer o wybodaeth amdanynt. Caiff y sgôr hon ei haddasu ar ôl y gwaith ymchwil.
Er mwyn cysondeb, rhoddir sgôr o 1-6 am arwyddocâd hefyd ond nid yw hyn yn awgrymu bod un math o arwyddocâd yn bwysicach na math arall.

### 3.2.2 Methodoleg asesiad llawn o arwyddocâd

Fel y nodir uchod, bydd y broses dri cham yn cynnwys asesiad llawn o arwyddocâd rhannau dethol o'r casgliad a ddewiswyd trwy'r archwiliad/adolygiad a gynhaliwyd yng nghamau 1 a 2. Cynhelir yr asesiadau gan ddefnyddio fframwaith wedi'i seilio ar feini prawf arwyddocâd MALD a ddangosir isod. Mae fersiwn maint llawn o'r grid yn Atodiad D.

**Amgueddfa Ceredigion: Grid Asesu Arwyddocâd** (i'w ddefnyddio yng Ngham 3 i ddatblygu asesiad manwl o arwyddocâd rhan allweddol o'r casgliad)

**Disgrifiad manwl**

- O beth y cafodd ei wneud?
- Sut mae'n edrych?
- Beth yw maint y casgliad? Beth yw dimensiynau'r gwrthrych: uchder, pwysau, lled a hyd?
- Sut y cafodd ei wneud?
- Beth yw nodweddion allweddol y gwrthrych neu'r casgliad?

| Gwerthoedd allweddol | | | | | Meini prawf er mwyn cymharu | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A<br>Hanes | B<br>Artistig/Aesthetig | C<br>Cymdeithasol | D<br>Gwyddonol / Technolegol | E<br>Gwerth ac effaith gymunedol | F<br>Tarddiad | G<br>Prinder / Pa mor gynrychioliadol ydyw | H<br>Cyflwr neu gyfanrwydd | I<br>Potensial ar gyfer dehongli |
| Pwy oedd biau hwn o'r blaen?<br>Ble cafodd ei wneud?<br>Pwy wnaeth e?<br>Beth oedd ei ddiben?<br>Pryd ddaeth e i ddwylo'r sefydliad?<br>Pam gafodd e ei gasglu?<br>Sut cafodd ei gaffael? Rhodd ynteu bryniant?<br>A oes ganddo gysylltiad uniongyrchol â digwyddiad, person, grŵp etc hanesyddol?<br>A yw'n cynrychioli thema, proses neu batrwm byw neilltuol?<br>Sut mae'n perthyn i hanes, daearyddiaeth neu amgylchedd y man lle cafodd ei greu neu ei ddefnyddio? | A ydi/oedd y dyluniad yn ddylanwadol neu'n ddyfeisgar?<br>A ydi'r dyluniad/saernïaeth o ansawdd da?<br>A yw'n cynrychioli arddull, math, mudiad neu ddyluniad? | Ydi e'n cynrychioli perthynas rhwng pobl?<br>Ydi e'n symbol o gredoau, syniadau neu ddiwylliannau?<br>Ydi e'n golygu rhywbeth neilltuol/amlwg i grŵp penodol yn y gymuned neu i'r gymuned gyfan?<br>Sut y caiff yr ystyr a'r cysylltiad hwn eu hamlygu?<br>A yw'n rhan eiconig o'r casgliad? Llun/gwrthrych a gyflwynir ac sy'n gofeb? | Ydi e'n gweithio? (darnau sy'n symud h.y. peiriannau)A oes cysylltiad amlwg rhwng y gwrthrych/casgliad a gwyddoniaeth neu dechnoleg? | Sut mae pobl yn ymateb iddo?<br>Sut mae pobl yn ymateb i'w hanes a'r storïau sy'n gysylltiedig ag ef?<br>Pa werthoedd mae pobl yn eu cysylltu ag ef?<br>Sut mae'r gwrthrych yn gwneud i bobl deimlo?<br>Pa ymateb emosiynol y mae'n ei ennyn? | Ydi e'n gysylltiedig â lle/casgliad/gwrthrych neilltuol?<br>Ydi'r gwrthrych/casgliad wedi'i ddogfennu'n dda?<br>Ydi hi'n ffynhonnell wreiddiol?<br>Allwch chi gynnig tystiolaeth o'r cysylltiadau honedig rhwng y gwrthrych neu'r casgliad a phobl, llefydd ac ati? | Ydi e'n golygu rhywbeth i le/cymuned/unigolyn neilltuol?<br>A oes enghreifftiau eraill mewn amgueddfeydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol?<br>Beth yw'r berthynas rhyngddo a'r enghreifftiau eraill hyn?<br>A yw'n unigryw? | Ydych chi o'r farn fod cyflwr yr eitem yn:<br>• Dda. Sefydlog a graenus.. Cadarn, heb dystiolaeth o ddifrod na dirywiad. Gellid ei ddefnyddio at unrhyw ddiben.<br>• Gweddol. Sefydlog. Gall fod wedi'i anharddu neu ei ddifrodi. Mân broblemau, angen ychydig iawn o waith cadwraeth i'w wella. Gellid ei ddefnyddio gyda gofal.<br>• Gwael. Arwyddion amlwg o ddirywiad a difrod. Gallai ei ddefnyddio achosi rhagor o ddifrod.<br>• Gwael iawn. Deunydd ansefydlog. Holl anaddas i'w ddefnyddio. Byddai ei drafod yn siŵr o'i ddifrodi.<br>A oes difrod?<br>Sut yr achoswyd y difrod?<br>Ydi'r eitem wedi'i haltro? Beth mae'r gwaith altro yn ei ddweud wrthym am hanes y defnydd a wnaed o'r eitem?<br>A oes gwaith cadwraeth/adfer wedi'i wneud ar yr eitem?<br>A yw'r eitem yn gyflawn (a oes rhywbeth amlwg ar goll – caead, handlenni ac ati)? | A yw'r gwrthrych neu'r casgliad yn cael ei ddefnyddio ar gyfer ymchwil/dysgu neu estyn allan?<br>A oes ganddo'r potensial i gyfrannu at waith ymchwil, dysgu neu waith estyn allan?<br>A allai gyfrannu at ddehongli'r gorffennol ar raddfa leol, ranbarthol, genedlaethol neu ryngwladol gan godi proffil yr amgueddfa?<br>A oes ceisiadau'n cael eu gwneud yn aml i gael benthyg y gwrthrych neu'r casgliad? Pam? |

Er mwyn asesu'r arwyddocâd, bydd angen ymwneud â chynulleidfaoedd amrywiol, arbenigwyr pwnc ac arbenigwyr cymunedol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahanol grwpiau y bydd yr amgueddfa'n cydweithio â nhw i asesu'r arwyddocâd.

| **Math o gynulleidfaoedd / arbenigwyr** | **Grwpiau / unigolion** |
|---|---|
| Staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa | Staff presennol<br>Staff wedi ymddeol o'r amgueddfa<br>Gwirfoddolwyr |
| Arbenigwyr pwnc cymunedol | Haneswyr lleol<br>Grwpiau celf/crefft<br>Grwpiau gweithwyr crefft / diwydiant<br>Grwpiau diddordeb arbennig |
| Llyfrgelloedd ac Archifdai | Archifdy Ceredigion<br>Llyfrgell Genedlaethol |
| Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa | Amgueddfa Cymru<br>MERL |
| Ymgysylltu â grwpiau cymunedol | e.e. Grwpiau ffoaduriaid<br>Grwpiau llesiant<br>Y gymuned LGBTQ |
| Ymwelwyr ac estyn allan | Ymwelwyr â'r amgueddfa<br>Ymgysylltu trwy weithgareddau estyn allan |

Bydd pob un o'r gwahanol grwpiau'n gallu cyfrannu at yr asesiad mewn gwahanol ffyrdd, gan gynnig atebion i wahanol gwestiynau a amlinellir ar y grid arwyddocâd. Mae'r diagram ar y dudalen nesaf yn rhoi crynodeb o'r broses.

| Maes arwyddocâd | Mathau o gynulleidfaoedd/arbenigwyr | Grwpiau/unigolion |
|---|---|---|
| **A. Hanes**<br>Pwy oedd biau hwn o'r blaen?; Ble cafodd ei wneud a phwy a'i gwnaeth? Beth oedd ei ddiben? Pam gafodd e ei gasglu? Sut cafodd ei gaffael? | Staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa (cofnodion yr amgueddfa) | |
| Beth oedd ei ddiben?<br>A oes ganddo gysylltiad uniongyrchol â digwyddiad, person, grŵp etc hanesyddol? A yw'n cynrychioli thema, proses neu batrwm byw neilltuol? Sut mae'n perthyn i hanes, daearyddiaeth neu amgylchedd y man lle cafodd ei greu neu ei ddefnyddio? | Arbenigwyr pwnc cymunedol<br>Llyfrgelloedd ac Archifdai<br>Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa | |
| **B. Artistig/aesthetig**<br>A ydi/oedd y dyluniad yn ddylanwadol neu'n ddyfeisgar? A ydi'r dyluniad/saernïaeth o ansawdd da? A yw'n cynrychioli arddull, math, mudiad neu ddyluniad? | Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa<br>Arbenigwyr pwnc cymunedol | |
| **C. Cymdeithasol**<br>Ydi e'n cynrychioli perthnasoedd?<br>Ydi e'n symbol o gredoau, syniadau neu ddiwylliannau? Ydi e'n golygu rhywbeth neilltuol/amlwg i grŵp penodol yn y gymuned neu i'r gymuned gyfan? Sut y caiff yr ystyr a'r cysylltiad hwn eu hamlygu? A yw'n rhan eiconig o'r casgliad? Llun/gwrthrych a gyflwynir ac sy'n gofeb? | Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa<br>Arbenigwyr pwnc cymunedol<br>Ymgysylltu â grwpiau cymunedol | |
| **D. Gwyddonol / Technolegol**<br>Ydi e'n gweithio? A ydi'r gwrthrych/casgliad yn berthnasol i wyddoniaeth neu dechnoleg? | Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa<br>Arbenigwyr pwnc cymunedol | |
| **E. Gwerth ac effaith gymunedol**<br>Sut mae pobl yn ymateb iddo? | Ymgysylltu â grwpiau cymunedol<br>Ymwelwyr ac estyn allan<br>Arbenigwyr pwnc cymunedol | |
| **F. Tarddiad**<br>Ydi e'n gysylltiedig â lle/casgliad/gwrthrych neilltuol? Ydi'r gwrthrych/casgliad wedi'i ddogfennu'n dda? Allwch chi gynnig tystiolaeth o'r cysylltiadau honedig rhwng y gwrthrych neu'r casgliad a phobl, llefydd ac ati? | Staff a gwirfoddolwyr gyda'r casgliadau (cofnodion yr amgueddfa) | |
| **G. Prinder / Pa mor gynrychioliadol ydyw**<br>Ydi e'n golygu rhywbeth i le/cymuned/unigolyn neilltuol? A oes enghreifftiau eraill mewn amgueddfeydd lleol, rhanbarthol neu genedlaethol? Beth yw'r berthynas rhyngddo a'r enghreifftiau eraill hyn? Ydi e'n unigryw? | Staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa (cofnodion yr amgueddfa)<br>Arbenigwyr pwnc yr amgueddfa | |

Bydd yr asesiad o arwyddocâd yn casglu cyfraniadau mewn llawer o wahanol ffurfiau, yn cynnwys cyflwyniadau ysgrifenedig, nodiadau o weithdai, ffotograffau, clipiau sain a ffilm. Caiff yr asesiad ei ddwyn ynghyd yn ddatganiad o arwyddocâd ar gyfer pob rhan o'r casgliad. Mae templed gwag maint llawn ar gyfer y datganiadau hyn yn Atodiad D.

## 3.3 Argymhellion a methodolegau ar gyfer gwella gwaith dogfennu casgliadau a mynediad digidol

Ar sail canlyniadau'r adolygiad o'r Casgliadau, dogfennaeth a'r defnydd o'r cyfryngau digidol, ceir cyfres o argymhellion isod. Gwelir manylion ychwanegol yn adrannau 3.4.3 – 3.4.8 lle'r amlinellir methodolegau ac opsiynau ar gyfer gwneud y gwaith hwn.

### 3.3.1 Trosolwg o'r argymhellion ar gyfer gwella'r gwaith dogfennu

| Maes y gwaith | Y dull a argymhellir | Methodoleg | Enghreifftiau |
|---|---|---|---|
| **1 Archwiliad ac adolygiad o'r casgliadau** | 1.1 Adolygiad o'r dogfennau ategol | Ychwanegu gwybodaeth o ddogfennau at gofnodion Modes. Mae'r ffynonellau'n cynnwys:<br>- Ffeiliau hanes gwrthrychau<br>- Y gofrestr dderbynodi<br>- Ffurflenni cofnodi a throsglwyddo teitl<br>Digideiddio dogfennau lle bo modd i'w gwneud yn chwiliadwy | **Gweler y manylion a'r diagram llif ar gyfer dogfennu yn adran 3.3.3 isod** |
| | 1.2 Ôl-ddogfennu | Creu cofnodion ar gyfer eitemau heb eu derbynodi na'u dogfennu a ganfuwyd trwy'r archwiliad | |
| | 1.3 Rheoli lleoliadau'n well | Sefydlu system ar gyfer rhestru lleoliadau storio o fewn storfeydd, er enghraifft Garej Stryd y Baddon fel y gellir canfod eitemau'n haws | |
| **2 Diweddaru ac ehangu cofnodion catalogio** | 2.1 Cynnwys gwybodaeth o ffeiliau hanes y gwrthrychau a manylion am y cyd-destun yng nghofnodion y catalogau | Nodi canlyniadau'r archwiliad, yr adolygiad a'r asesiad o arwyddocâd y casgliadau yng nghofnodion Modes. **Cysylltu adnoddau** a grëwyd yn ystod yr asesiadau o arwyddocâd â chofnodion Modes. Sicrhau bod detholiad ohonynt ar gael ar-lein. | |
| | 2.2 Cynnwys gwaith ymchwil yng nghofnodion y casgliadau | Ychwanegu gwybodaeth am ymchwil o'r gorffennol ac ymchwil y bwriedir ei wneud at gofnodion Modes<br>Ychwanegu meysydd ymchwil/defnydd er mwyn cadw cofnodion o'r defnydd a wneir o'r casgliadau | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | 2.3 Gwella cofnodion catalogio Modes fel y byddant ar gael yn fwy hwylus i gynulleidfa eang | **Creu patrwm newydd safonol** ar gyfer cofnodion yn dangos pa feysydd newydd y dylid eu cynnwys i wneud cofnodion yn hygyrch ac yn ddiddorol i gynulleidfaoedd amrywiol:<br><br>• **Disgrifiad/sylwadau byr** – dylid ei ysgrifennu mewn arddull ddealladwy sy'n llawn gwybodaeth ac yn ddiddorol<br>• Ychwanegu **meysydd mynegeio** newydd a/neu gwblhau rhai presennol – **pobl, lleoedd, digwyddiadau cysylltiedig**<br>• Ychwanegu gwybodaeth am y **dyddiad neu'r cyfnod**<br>• Defnyddio **geiriau dosbarthu** e.e. diwydiant, crefftau, tai yn ogystal â chategori SHIC<br>• Ystyried **geo-leoli** gwrthrychau – Mae gan Modes fap sy'n golygu y gellir chwilio am eitemau ar-lein trwy fapiau<br>• Ychwanegu cofnodion **topig / thema** i roi casgliadau yn eu cyd-destun<br>• Galluogi **croes-gyfeirio** cofnodion fel y gellir cysylltu gwrthrychau, casgliadau, themâu a thopigau – gellir defnyddio'r rhain i gyd wrth chwilio | **Gweler enghraifft o osodiad cofnod yn adran 3.3.4** |
| | 2.4 Safoni data catalogio Modes | Adolygu a safoni'r data a nodir er mwyn helpu i chwilio a phori'n effeithiol ar y safle ac ar-lein<br><br>• **Adolygu'r defnydd a wneir o dermau** - er enghraifft mae 'photograph' yn ymddangos fel: Photograph, photograph, PHOTOGRAPH a PHOTOGRAPHS<br>• **Adolygu'r dull** a ddefnyddir i nodi enwau lleoedd – er enghraifft, mae rhai cofnodion yn cynnwys enwau lleoedd wedi'u nodi yn y maes 'item'. Nid yw Modes yn mynegeio'r rhain wrth chwilio ac ni ellir dod o hyd iddynt wrth chwilio am 'place' (e.e. cofnod 1977.93.90.39q a Gwarfelin) | |

### 3.3.2 Gwella mynediad digidol at gasgliadau

#### Gweledigaeth Ddigidol

Bydd gwaddol ddigidol gynhwysfawr yn rhan ganolog o brosiect Casgliad ar gyfer y Genedl. Bydd dwy ran:

1. Gwella'r cynnwys digidol yng nghatalog gwrthrychau MODES. Gwneir hyn dan gyfarwyddyd Swyddog Mynediad presennol y Casgliadau gyda chefnogaeth dau weithiwr newydd y prosiect Casgliadau a Dysgu a gwirfoddolwyr. Ar hyn o bryd mae tua 95% o'r casgliad wedi'i gatalogio ar MODES, ond mae'r cynnwys yn sylfaenol iawn, yn aml heb ddelwedd, ac mae angen ei adolygu a'i gyfoethogi.

   Byddwn yn uwchraddio ein system MODES fel y gall y cyhoedd fynd ar lein i weld y gronfa ddata (wedi tynnu'r wybodaeth gyfrinachol) fel rhan o'n gwefan gasgliadau.

2. Datblygir gwefan gasgliadau newydd. Mae ein gwefan gasgliadau bresennol https://pilgrim.ceredigion.gov.uk/ yn hen ffasiwn, yn anodd ei defnyddio ac ar fin cael ei harchifo gan adran TG Cyngor Sir Ceredigion am eu bod yn newid eu system weithredu.

   Ein nod yw creu gwefan newydd a fydd yn tyfu fel rhan o'r Cynllun Gweithgareddau mewn ymateb i waith y Lab-gueddfa. Bydd staff yr amgueddfa, gwirfoddolwyr ac ymarferwyr creadigol y Lab-gueddfa yn cydweithio â datblygwyr y wefan i greu gwefan ryngweithiol, chwareus sy'n edrych yn dda. Bydd yn tyfu'n organig wrth i'r prosiect fynd yn ei flaen a bydd digon o le iddi ddal i dyfu yn y dyfodol. Byddwn yn treialu syniadau ar gyfer y wefan gyda phobl sy'n cymryd rhan yng ngweithgareddau'r Lab-gueddfa i sicrhau ei bod yn ddeniadol ac yn ateb gofynion ein gwahanol gynulleidfaoedd. Ymhlith y syniadau sy'n rhoi blas o'n gweledigaeth ar gyfer y wefan mae:
   - Hap-chwiliwr gwrthrychau: trowch yr olwyn i ddarganfod gwrthrych (e.e. gweler https://www.dorsetcereals.co.uk/collect-and-win/spin-to-win/)
   - Helfa drysor/'ystafell ddianc' trwy'r casgliadau (e.e. gweler https://www.youtube.com/watch?v=OjjLD_9Et_o )
   - Cyfle i guradu'ch arddangosfa chi'ch hunan a'i rhannu – dewiswch wrthrychau a lluniau ar gyfer rhith-oriel y gallwch ei rhannu ar-lein. Gallai ysgolion ddefnyddio hwn wrth astudio pynciau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol; gallai myfyrwyr celf osod eu gwaith eu hunain ochr yn ochr â gweithiau celf sydd wedi'u hysbrydoli yn y casgliad, gallai ymwelwyr â'r amgueddfa greu oriel o'u hoff wrthrychau, ac ati.

   Byddwn yn cynnig partneriaethau â Chymdeithas Gêmau Cyfrifiadurol Prifysgol Aberystwyth ac Adran Datblygu Gêmau Cyfrifiadurol Prifysgol Wrecsam https://www.glyndwr.ac.uk/en/Undergraduatecourses/ComputerGameDevelopment/ er mwyn i bobl ifanc sy'n chwilio am brofiad gwaith yn y maes hwn gael cyfle i ddatblygu eu sgiliau.

**Trosolwg o'r argymhellion ar gyfer gwella mynediad digidol at y casgliadau**

| Maes | Y dull a argymhellir | Methodoleg ac adnoddau |
|---|---|---|
| **Strategaeth** | 3.1 Datblygu dull gweithredu integredig, wedi'i drefnu, trwy baratoi Strategaeth Ddigidol | Cynnwys datblygu Strategaeth Ddigidol yn rhan graidd o brosiect Casgliad ar gyfer y Genedl<br><br>Canllawiau'r Ymddiriedolaeth Gasgliadauhttps://collectionstrust.org.uk/resource/digital-strategies/<br><br>Ymhlith enghreifftiau diweddar gan amgueddfeydd mae'r Derby Museums Digital Engagement Strategy https://www.derbymuseums.org/wp-content/uploads/2017/02/Derby-Museums-Digital-Engagement.pdf<br><br>**Gweler Adran 3.3.7 isod** |
| **Pobl** | 3.2 Archwiliad o sgiliau a chynllun hyfforddi i rymuso staff i ddefnyddio technoleg newydd | Cynnwys archwiliad o sgiliau a hyfforddiant ym mhrosiect Casgliad ar gyfer y Genedl |
| **Systemau** | 3.3 Sicrhau bod offer a systemau TG addas ar gael fel y gall y staff weithio'n effeithiol a gwneud y defnydd gorau o'r cyfryngau digidol. Ystyried yr angen am System i Reoli Asedau Digidol (DAMS) | Asesu'r angen am DAMS i reoli adnoddau digidol<br><br>**Cewch ragor o wybodaeth yn adran 3.3.6 isod** |
| **Digideiddio** | 3.4 Datblygu set o safonau digideiddio i sicrhau gweithdrefn sy'n sicrhau cysondeb a chopïau da o systemau i'w defnyddio ym mhob maes yn y gwaith | Datblygu safonau digideiddio wedi'u seilio ar ganllawiau'r sector http://sharemuseumseast.org.uk/wp-content/uploads/2013/08/digitisation-FINAL-FULL.pdf or |
| **Darparu'r cynnwys** | 3.5 Datblygu agwedd strategol at rannu cynnwys er mwyn | Meithrin dealltwriaeth o faes trwyddedu er mwyn helpu i |

| | | |
|---|---|---|
| | annog pobl i wneud hyn wrth edrych ar y casgliadau ar lein. Ystyried defnyddio trwyddedau Creative Commons | wneud penderfyniadau: https://collectionstrust.org.uk/digital-isnt-different/copyright-and-licensing/ |
| **Dadansoddeg** | 3.6 Datblygu dull wedi'i safoni o gasglu a chofnodi gwefesuriadau. | Defnyddio Google Analytics mewn ffordd gyson i gadw golwg ar effaith ddigidol.<br><br>Rhannu'r canlyniadau â'r uwch-reolwyr er mwyn dadlau o blaid cael rhagor o adnoddau. |
| **Ymgysylltu** | 3.7 Darparu mynediad digidol i'r casgliadau trwy'r wefan ac ar y safle<br><br>3.8 Datblygu strategaethau ar gyfer y Cyfryngau Cymdeithasol a Chynnwys<br><br>3.9 Adolygu GDPR, Deddf Diogelu Data 2018, a pholisïau hawlfraint gyda'r nod o sicrhau mynediad ar-lein at y casgliadau | Darparu mynediad ar-lein at gronfa ddata'r casgliadau a datblygu cofnodion Modes er mwyn ei gwneud yn haws i wahanol gynulleidfaoedd weld y casgliadau, a datblygu cynnwys ar wahanol themâu ar y wefan<br><br>**Cewch ragor o wybodaeth yn adrannau 3.3.4 a 3.3.5 isod**<br><br>Adnodd ar gyfer Strategaeth ar y Cyfryngau Cymdeithasol https://southeastmuseums.org/resource-library/social-media-guides-for-museums/<br><br>Adnodd ar gyfer strategaeth ar y Cynnwys<br><br>https://collectionstrust.org.uk/resource/create-once-publish-everywhere-cope/ |
| **Refeniw** | 3.8 Meithrin presenoldeb efasnach trwy'r wefan .<br><br>- Defnyddio'r wefan i werthu lluniau o eitemau o'r casgliadau.<br><br>- Defnyddio'r wefan a sianeli digidol i godi arian | Asesu cyfleoedd i gynhyrchu incwm trwy ddulliau digidol<br><br>**Cewch ragor o wybodaeth yn adran 3.3.8 isod** |

### 3.3.3 Methodoleg ar gyfer diweddaru ac ehangu cofnodion catalogio


(argymhellion 1.1-2.2)

Trwy'r broses archwilio, adolygu ac asesu arwyddocâd bydd staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa yn casglu gwybodaeth ychwanegol am y casgliadau. Yna, dylid catalogio'r wybodaeth yng nghronfa ddata Modes. Mae'r diagram isod yn manylu ar y broses hon ac yn dangos sut y dylid datblygu cofnodion i wneud y defnydd gorau o'r wybodaeth hon.


**Diagram llif yn dangos methodoleg ar gyfer gwella dogfennaeth y casgliadau**

## Gwella dogfennaeth y casgliadau

### Trefn gatalogio gyfredol Amgueddfa Ceredigion




### Gwella cofnodion catalogio trwy brosiect Casgliad ar gyfer y Genedl



### 3.3.4 **Methodoleg ar gyfer gwella cofnodion Modes i baratoi ar gyfer caniatáu mynediad at gasgliadau ar y we** (argymhellion 2.3 a 3.7)

Er mwyn caniatáu mynediad ar-lein at y casgliadau mae'n hanfodol bod y cynnwys ar-lein yn hawdd ei ddeall, bod gwahanol ffyrdd i ddefnyddwyr chwilio a phori'r casgliadau, a bod digon o wybodaeth ychwanegol yn cael ei darparu i roi gwrthrychau yn eu cyd-destun hanesyddol. Felly, argymhellir datblygu cynllun diwygiedig ar gyfer cofnodion Modes, ar sail y cynllun presennol. Byddai hyn yn cynnwys meysydd ychwanegol i wella profiad y defnyddiwr. Awgrymir y cynllun isod gyda'r meysydd newydd wedi'u hamlygu. (Mae fersiwn maint llawn yn Atodiad D)

**1995.17.6** carpenter's tools

plane

*Accessible object name (for web searches)*

Accessible descriptive text (for web searches)

| | |
|---|---|
| ObjectIdentity | |
| Number | 1995.17.6 |
| ItemMarked | |
| Acquisition | |
| ReferenceNumber | 5047 |
| Method | gift |
| Person | |
| Role | from |
| PersonName | Thomas, Alan, Mr and Mrs |
| Address | Garth, Caemelyn, Aberystwyth |
| Date | |
| DateBegin | 26.1.1994 |
| Note | carpenters tools from a large wood chest, said to have been used at the carriage works, Southgate, Aberystwyth, and possibly used to make the milk float in our collection |
| Commentary | convex jack plane |
| Identification | |
| ObjectName (full name) | |
| Keyword | carpenter's tools |
| Identification | |
| Title | Accessible object name (for web searches) |
| BriefDescription | Accessible descriptive text (for web searches) |
| Classification | |
| Keyword | crafts and craftspeople (for web searches) |
| ObjectName (simple name) | |
| Keyword | plane |
| ObjectName (full name) | |
| Keyword | convex jack plane |
| Classification | |
| Keyword | D4R |
| Classification | |
| Keyword | |
| Description | |
| Aspect | material |
| Keyword | wood |
| Keyword | iron |
| Measurement | |
| Part | |
| Dimension | |
| Reading | 16.7 l |
| SummaryText | coffin plane with curved base for cutting the inside of a cart wheel rim. Iron shoe at leading edge. No iron |
| Association | |
| Organisation | |
| Role | |
| OrganisationName | Southgate Carriage Works, Aberystwyth |
| Person | |
| Role | |
| PersonName | |
| Group | |
| GroupName | |
| Place | |
| PlaceName | |
| Event | |
| EventName | |
| Production | |
| Date | |
| DateBegin | 1900 |
| DateEnd | 1950 |
| Reproduction | |
| Filename | aaa8429.jpg |
| SummaryText | photographer,Andrea de Rome |
| Date | |
| DateBegin | 24.1.2014 |
| DateEnd | |
| Note | |
| Type | digital image, photograph |
| Reproduction | |
| Filename | mtb8589.jpg |
| SummaryText | English |
| SummaryText | Welsh |
| Date | |
| DateBegin | 19.5.2014 |
| Person | |
| PersonName | Mary, Turner-Lewis |
| Note | photographer : mtl |
| Type | digital image, photographed |
| Authority | mtl |
| Date | 19.5.2014 |
| Reproduction | |
| Filename | mtb8590.jpg |
| SummaryText | English |
| SummaryText | Welsh |
| Date | |
| DateBegin | 19.5.2014 |
| Person | |
| PersonName | Mary, Turner-Lewis |
| Note | photographer : mtl |
| Type | digital image, photographed |
| Authority | mtl |
| Date | 19.5.2014 |
| ObjectLocation (current location) | |
| Location | MB72 |
| ObjectLocation (home location) | |
| Location | MB72 |
| Date | |
| DateBegin | 10.8.2015 |
| DateEnd | |
| Note | |
| Recorder | |
| PersonName | de Rome, Andrea |
| Initials | AdR |
| Date | 29.7.2015 |
| Significance | 8B |
| RelatedObject | |
| ObjectIdentity | |
| Number | The Land |
| Type | theme page (for web searches) |
| RelatedObject | |
| ObjectIdentity | |
| Number | Southgate/Penparcau |
| Type | place page (for web searches) |

Bydd y meysydd ychwanegol hyn yn gwneud y cynnwys yn fwy hygyrch ac yn golygu y bydd yn haws chwilio'r casgliadau a gwneud chwiliadau uwch, yn ogystal ag ychwanegu cynnwys ar wahanol themâu. Byddai'r dull hwn yn rhoi'r casgliadau yn eu cyd-destun ac yn helpu pobl nad ydynt yn arbenigwyr i ganfod pam y mae'r casgliadau'n bwysig a pha straeon y gallant eu hadrodd. Dyma rai enghreifftiau o ddefnydd effeithiol o'r dull hwn:

| | |
|---|---|
| **Gwefan yr Amgueddfa Wyddoniaeth - Objects & Stories** | Mae hwn yn cynnwys penawdau fel 'Explore…The World's First Industrial City' a pharagraffau rhagarweiniol i ddisgrifio'r eitemau, gyda lluniau. Gellir chwilio yn ôl categori, gwrthrych, oriel ac ati.<br><br>https://www.msimanchester.org.uk/objects-and-stories |
| **Halton Heritage Partnership** | Mae'r adran Explore our Heritage ar y wefan yn cynnwys penawdau fel People, Places, Topics, sy'n cynnwys darnau rhagarweiniol ar wahanol themâu a dolenni at luniau/gwrthrychau cysylltiedig yn y casgliad. Gellir chwilio yn ôl pwnc, mathau o wrthrychau, casgliad.<br><br>http://haltonheritage.co.uk/explore-our-heritage/ |

### 3.3.5 Darparu mynediad i'r casgliadau trwy'r we (argymhelliad 3.7)

Gall pobl weld cronfa ddata Modes yr amgueddfa mewn sawl ffordd. Mae Modes yn darparu system ar gyfer gweld catalogau ac asedau digidol ar lein, ond dydi hi ddim bob amser yn hawdd i'w defnyddio ac mae angen tipyn go lew o waith cynllunio a datblygu gan staff yr amgueddfa.

Dewis arall yw Collectionsbase gan Orangeleaf – rhaglen sy'n cymryd data a dynnwyd o system rheoli casgliadau neu DAMS fel y gellir eu gweld ar y we. Byddai hyn yn costio tua £3-5,000 y flwyddyn. https://www.orangeleaf.com/museums-archives-history/data-aggregation-system/ Dyma rai enghreifftiau o ddatblygiadau Orangleaf: gwefan Black Country History http://blackcountryhistory.org/ , gwefan prosiect Rhyfel Byd Cyntaf Doncaster http://www.doncaster1914-18.org.uk/ a gwefan Addoldai Cymru http://www.welshchapels.org/

### 3.3.6 Asesu'r angen am System Rheoli Asedau Digidol (DAMS) i reoli adnoddau digidol (argymhelliad 3.3)

Mae gan yr amgueddfa nifer fawr o ffotograffau sydd wedi'u digideiddio a bydd yn creu rhagor yn y dyfodol. Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau digidol, byddai'n synhwyrol asesu a fyddai'n fuddiol cael DAMS ar gyfer storio, cynnal a chadw a defnyddio'r holl adnoddau digidol yn y dyfodol. Mae gwahanol fathau o DAMS ar gael i'r amgueddfa. Mae rhai o nodweddion DAMS gan feddalwedd Modes: gall ddarllen metadata o ddelwedd a'i gynnwys mewn cofnod, a gallwch allforio sawl copi o ddelwedd o Modes ar wahanol fformatau. Ar ôl ei uwchraddio'n ddiweddar mae'n gydnaws â gweinydd delweddau sy'n defnyddio porwr. Mae hefyd yn caniatáu i chi allforio sawl copi o ddelwedd o feintiau a nodir.

Neu gellid prynu DAMS ar wahân i weithio ochr yn ochr â Modes. Gall fod yn anodd ei hintegreiddio'n llawn â Modes ond byddai modd cyfnewid data un waith neu'n achlysurol trwy allforio data ar ffurf XML o Modes a'i fewnforio i'r DAMS. Er enghraifft, gellir defnyddio IBase Premium https://www.ibase.com/pricing i fewnforio data ac mae ar gael ar nifer o gynlluniau lletya, yn dibynnu ar ofynion storio – mae 1TB yn costio tua £4,000 y flwyddyn.

### 3.3.7 Datblygu Strategaeth Ddigidol (argymhellion 3.1-3.8)

Mae Offeryn Meincnodi Digidol yr Ymddiriedolaeth Gasgliadau yn nodi bod mwy i ddefnyddio cyfryngau digidol mewn amgueddfa na chael mynediad at gasgliadau ond ei fod yn ymwneud â llu o faterion yn cynnwys sgiliau a hyfforddiant staff, offer a systemau, trwyddedu delweddau digidol, cyfryngau cymdeithasol a dadansoddeg. Mae llawer o'r meysydd hyn y tu allan i gylch gwaith yr adroddiad hwn ond mae'n amlwg y byddai o fudd mawr i'r amgueddfa pe bai'n datblygu Strategaeth Ddigidol a fyddai'n cynnwys y meysydd hyn i gyd ac yn cynllunio ffordd drefnus ymlaen. Felly, argymhellir y dylai hyn fod yn rhan allweddol o brosiect Casgliad ar gyfer y Genedl. Yn ogystal, byddai cynllun strategol yn galluogi'r amgueddfa i ystyried a oes angen DAMS a sut y gallent gynhyrchu incwm o'u hadnoddau digidol.

### 3.3.8 Cynhyrchu incwm wrth werthu delweddau digidol (argymhelliad 3.8)

Mae staff eisoes wedi mynegi diddordeb mewn gwerthu lluniau a phrintiau o'r casgliad ar lein. Mae potensial i werthu lluniau sy'n ymddangos yn y casgliad trwy wefan Amgueddfa Ceredigion a chynnig cyfleoedd i archebu printiau. Byddai hyn yn gofyn am ddatblygu'r wefan a sicrhau bod y lluniau'n hawdd eu gweld. Byddai'n rhaid cael DAMS er mwyn i hyn fod yn ymarferol. Wrth asesu'r potensial, byddai'n rhaid ystyried sut fyddai pobl yn talu a sut y byddai'r lluniau'n cael eu trwyddedu. Mae llawer o amgueddfeydd wedi llwyddo i gynhyrchu incwm fel hyn, yn cynnwys:

| | |
|---|---|
| **Science Museum – Science & Society Picture Library** | https://www.scienceandsociety.co.uk/results.asp?image=10472335&itemw=4&itemf=0001&itemstep=1&itemx=3 |
| **Tate Images** | https://www.tate-images.com/ |
| **Discovery Museum** | https://discoverymuseum.org.uk/collection/image-licensing |

## 3.4 Argymhellion ar gyfer dysgu ac ymgysylltu â'r gymuned

### 3.4.1 Cyflwyniad i weithgareddau Casgliad ar gyfer y Genedl

Creu'r storfa newydd yw prif ran y gwaith cyfalaf a bydd y broses yn cynnig cyfleoedd ar gyfer dysgu, gwirfoddoli a datblygu cynulleidfaoedd.

Datblygwyd y gweithgareddau trwy sgyrsiau gyda staff a gwirfoddolwyr yr amgueddfa ac maent yn tynnu ar brofiad o weithgareddau blaenorol ac ymgysylltu â chynulleidfaoedd. Cynhelir y gweithgareddau dros gyfnod o ddwy flynedd a byddant yn cydredeg â'r gwaith cyfalaf i greu storfa newydd. Caiff pedair swydd newydd eu creu fel rhan o'r prosiect:

- Casgliadau a Dysgu – Dwy swydd
- Swyddog Cyswllt Cymunedol (Arwyddocâd a Gwerthoedd y Casgliadau)
- Digideiddio

**Rhannu gwybodaeth**

Bydd hyn yn digwydd fel rhan o waith archwilio ac adolygu'r casgliadau er mwyn ein helpu i ddysgu mwy am y casgliadau oddi wrth arbenigwyr. Defnyddir grwpiau gan ddilyn yr un drefn â'r gweithgareddau peilot gyda'r tŵls gwaith coed. Gall gynnwys gweithio gyda'r Cwiltwyr er mwyn deall y casgliad cwiltiau, gellid gwahodd pysgotwyr a ffermwyr i edrych ar offer pysgota a ffermio,

gallai criw'r Men's Shed ddod i edrych ar dŵls a dodrefn, a gallem gael cwmni staff Ysgol Gelf Prifysgol Aberystwyth a'r gymdeithas hanes lleol hefyd.

**Rhannu Gwerthoedd**
Bydd gwerthoedd yn ganolog i'r holl weithgareddau ynglŷn â'r casgliadau. Bydd y Swyddog Cyswllt Cymunedol (Arwyddocâd a Gwerthoedd y Casgliadau) yn cydweithio'n agos â'r Common Cause Foundation i ddatblygu a chydlynu gwaith i sicrhau bod Amgueddfa Ceredigion wrth galon trafodaeth gyhoeddus newydd, fywiog am yr hyn sy'n bwysig i bobl Ceredigion, pam y mae'r pethau hyn yn bwysig iddynt a sut y gall casgliadau a gweithgareddau'r amgueddfa gynrychioli a chynnal y gwerthoedd hyn. Bydd y gwaith hwn yn creu fframwaith y gall amgueddfeydd eraill yng Nghymru ei ddefnyddio gydag arweiniad gan y Swyddog. Bydd Amgueddfa Ceredigion yn gweithredu fel canolbwynt arferion da, gyda'r nod o hyrwyddo a chefnogi gwaith tebyg ledled Cymru.

Yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015, mae amgueddfeydd Cymru'n awyddus i Gymru fod yn wlad lle mae pobl yn gwybod ac yn gwerthfawrogi'r hyn sy'n bwysig i'w cyd-ddinasyddion, yn teimlo'n rhan o'r gymuned ehangach, ac yn cael eu hysgogi i helpu i newid hyn er gwell.

**Casglu pethau cyfoes**
Yn ystod y gweithgareddau, gwahoddir y rhai sy'n cymryd rhan i helpu'r amgueddfa i ehangu'r casgliadau i adlewyrchu gwerthoedd cyfoes a chymdeithas heddiw. Gwahoddir rhai grwpiau'n benodol i gymryd rhan fel hyn ac, i eraill, bydd casglu pethau cyfoes yn deillio o un o'r gweithgareddau eraill.

**Bydd cynllun gweithgareddau'n canolbwyntio ar bedwar man yn yr amgueddfa:**

- Yr hen storfeydd
- Y Stiwdio Ddysgu
- Y Lab-gueddfa
- Y storfeydd newydd

Yr Hen Storfeydd

- Bydd y paratoadau ar gyfer symud y casgliadau i'r Stiwdio Ddysgu a'r Lab-gueddfa'n cynnig cyfleoedd i wirfoddoli
- Cynhelir gweithgareddau yn gysylltiedig â gwrthrychau mawr yn y Capel yn Nhre'r-ddôl ac fe symudir y gwrthrychau mawr yn syth i'r storfa newydd yn hytrach na'u rhoi yn yr amgueddfa i ddechrau
- Ar ôl symud y gwrthrychau allan o'r Capel yn Nhre'r-ddôl (elusen ar wahân), bydd modd ei waredu, trwy drosglwyddo'r ased o bosibl, ac efallai y caiff storfa Stryd y Baddon ei werthu gan sicrhau bod yr elw ar gael i'r prosiect

Y Stiwdio Ddysgu

- Caiff Stiwdio Ddysgu newydd ei chreu i archwilio casgliadau a'u prosesu cyn eu cynnwys yn y Lab-gueddfa.
- Bydd gwirfoddolwyr a grwpiau targed yn helpu i adnabod gwrthrychau yn ôl yr angen, i atgyfnerthu ac uwchraddio'r ddogfennaeth, ac i ddigideiddio ac ailbacio'r casgliadau.

- Caiff arwyddocâd grwpiau o wrthrychau ei asesu gyda chryn gyfraniad gan grwpiau cymunedol sydd â gwybodaeth berthnasol (cynhelir hyn yn y Stiwdio Ddysgu neu'r Lab-gueddfa yn ôl yr angen)
- Bydd rhai o'r gwrthrychau a gaiff eu hailbacio yn mynd yn ôl i'r atigau cyn y symud mawr i'r storfa newydd, ond byddwn yn sicrhau nad yw'r gwrthrychau'n symud fwy nag sydd raid.
- Bydd y prosiect yn darparu lle gyda'r holl gyfarpar angenrheidiol ar gyfer dysgu ffurfiol ac anffurfiol cyn gynted ag y bydd y gwaith ar y casgliadau wedi'i gwblhau.

Y Lab-gueddfa

- Y Lab-gueddfa fydd canolbwynt gweithgareddau yn yr amgueddfa am ddwy flynedd, yn ystod y prosiect (gweler isod)

Y Storfeydd Newydd

- Bydd gwirfoddolwyr yn helpu i drefnu'r storfeydd.
- Cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau cyhoeddus i godi ymwybyddiaeth o'r adnodd newydd hwn yn y gymuned
- Bydd cyfleoedd dros gyfnod i wirfoddolwyr weithio gyda'r casgliadau, ac arwain teithiau a gweithgareddau dysgu

**Bydd costau'r prosiect yn cynnwys:**

- Prynu tir (arian cyfatebol gan y cyngor)
- Costau'r adeilad newydd
- Gosod offer ac ati yn yr adeilad
- Costau gweithgareddau
- Pedair swydd newydd
- Cwmni symud
- Costau TG

### 3.4.2 Y Lab-gueddfa

Mae gan Amgueddfa Ceredigion raglen lwyddiannus o arddangosfeydd dros dro, gyda phedair arddangosfa dros dro bob blwyddyn ar hyn o bryd. Mae'n rhaglen amrywiol iawn, gydag arddangosfeydd yn cynnwys eitemau o'r casgliad llawn amrywiaeth. Maent yn cysylltu â'r cymunedau lleol, arddangosfeydd artistiaid ac arddangosfeydd teithiol sy'n cefnogi'r rhaglen ymgysylltu ac yn gwella'r casgliad. Yn ddiweddar, uwchraddiwyd oriel yr amgueddfa i gydymffurfio â Chynllun Indemniad y Llywodraeth gyda rhagor o fesurau diogeledd a chês mawr atal lladron i ddal pethau gwerthfawr o gasgliadau cenedlaethol eraill.

Caiff yr oriel ei hailwampio'n fawr dros gyfnod y prosiect gan droi safle'r arddangosfeydd dros dro yn 'Lab-gueddfa'. Daw'r llecyn yn ofod arddangos modiwlaidd, gyda chyfleoedd i newid, adlewyrchu a thrawsnewid rhai agweddau ar y casgliad. Bydd Cynorthwyydd Labordy yn helpu yn y Lab-gueddfa gan ennyn diddordeb yr ymwelwyr ym mhob agwedd ar y prosiect. Bydd y Labordy'n adeiladu ar werthoedd ac amcanion yr amgueddfa a'i waith gyda'r Common Cause Foundation a'r Amgueddfa Hapus, gan ddefnyddio arteffactau o'r casgliad a chanolbwyntio ar dri 'phrosiect' arbennig tan ddiwedd y rhaglen er mwyn meithrin tryloywder ac ymddiriedaeth.

**Themâu**

Rhannwyd y casgliadau yn ôl thema a defnyddir hyn i lywio'r gweithgareddau. Ar hyn o bryd, rhennir y casgliadau fesul pwnc ar sail categorïau  Dosbarthu Hanes Cymdeithasol a Diwydiant.
Bwriedir parhau i ddefnyddio'r fframwaith dosbarthu hwn wrth ddogfennu ond rydym wedi datblygu cyfres o themâu newydd ar gyfer y Lab-gueddfa a fydd yn golygu y gellir cynnal gweithgareddau a rheoli'r casgliadau gyda'i gilydd. Yn ogystal, mae angen ystyried maint casgliadau (a pha mor ymarferol yw eu symud er mwyn cynnal gweithgareddau) a faint o le sydd (lle cânt eu storio ar hyn o bryd). Mae'r themâu a restrir isod yn rhoi sylw i'r holl ystyriaethau hyn.

Mae rhai gwrthrychau'n croesi ffiniau themâu. Mae themâu celfyddyd, archaeoleg ac athroniaeth casglu yn themâu trawsbynciol a bwriedir eu harchwilio trwy'r themâu eraill yn ystod gweithgareddau'r Lab-gueddfa. Dyma'r themâu sy'n dod i'r amlwg:

- Y Cartref
- Y Môr
- Cred
- Teithio
- Llên Gwerin
- Y Dref
- Cwtsh
- Y Tir
- Y Corff
- Lleisiau'r Gymuned

Oddi mewn i'r deg thema gyffredinol hyn a nodwyd fe edrychwn ar dair thema allweddol i fod yn sail ar gyfer y prosiectau arbennig - Llên Gwerin, y Tir a'r Dref.

- Comisiynir artist neu ymarferydd creadigol i ymateb i bob un o'r themâu trwy ddatblygu cyfres o weithgareddau ymgysylltu, gweithdai a digwyddiadau
- Ymchwilio i'r rhan o'r casgliad sydd â'r thema honno i wneud darn o waith i'w arddangos yn ein cas gwrthrychau mawr yn yr oriel neu yn yr arddangosiadau parhaol fel ymateb i ddarn sydd yno eisoes.

Bydd yr ymarferydd yn mynd ati i darfu ar gysyniad yr amgueddfa, a chydweithio â Common Cause a'r tîm casgliadau a churaduron i ddyfeisio ffyrdd newydd o edrych ar y casgliad fel rhan o'r broses o asesu arwyddocâd, datblygu cynnwys digidol ac amlygu elfennau o'r casgliad na welwyd o'r blaen.

Yn ogystal, bydd yr amgueddfa'n gwahodd artist-ddylunwyr i ymchwilio i'r casgliad ac i ddatblygu nwyddau pwrpasol newydd ar gyfer y siop. Bydd hyn yn gyfle unigryw i ddylunwyr gael mynediad at ein casgliad, yng nghyd-destun y Lab-gueddfa.

**Y Tir**

Yn 2019 cynhaliodd yr amgueddfa brosiect yn edrych ar y gymuned ffermwyr defaid a dyfodol y tir, gan ganolbwyntio ar ucheldiroedd Ceredigion. Sbardunodd yr arddangosfa gelf 'Defaid' a'r symposiwm cysylltiedig 'Tirweddau'r Dyfodol' berthynas ystyrlon â chymunedau lleol, gan ddwyn ynghyd bobl â gwahanol fuddiannau yn nhir yr ardal, o ffermwyr a rheolwyr tir i gadwraethwyr, llunwyr polisi, daearyddwyr, gwyddonwyr daear ac artistiaid.  Arweiniodd y broses at adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru fel rhan o'u hymgynghoriad ar ddyfodol tir Cymru ar ôl Brexit. Mae'r amgueddfa'n awyddus i adeiladu ar y gwaith a wnaed gyda'r cymunedau hyn, gan edrych ar

ddeialogau pwysig am dyfodol y tir a chreu cyfle i bobl Ceredigion wneud penderfyniadau yn hytrach na gorfod gweithredu penderfyniadau pobl eraill.

Casgliad yr amgueddfa o dŵls ac offer amaethyddol ynghyd ag eitemau cysylltiedig o waith celf, archaeoleg a hanes cymdeithasol fydd wrth galon elfen 'Y Tir' ym mhrosiect yr amgueddfa. Y nod fydd darganfod mwy am yr arteffactau yn y casgliad, a defnyddio'r casgliad fel dyfais i greu cynlluniau, perthnasoedd a deialogau newydd ar gyfer y dyfodol a fydd gennym yn gyffredin.

**Llên Gwerin**

Bydd y prosiect yn archwilio elfen gyfoethog llên gwerin yng nghasgliad yr amgueddfa, sy'n cynnwys cwiltiau traddodiadol, arteffactau – coronau a chadeiriau eisteddfodol ac ati, yn ogystal â phethau'n ymwneud â syniadau mwy defodol a mytholegol fel esgidiau wedi'u hadeiladu i mewn i waliau i warchod rhag ysbrydion drwg, melltithion, arwyddion serch gan forwyr a llestr gwasael prin. Mae'r gwrthrychau hyn yn cyd-fynd yn dda â straeon a chwedlau gwerin fel y rhai am Garreg Bica a Chantre'r Gwaelod – y tir sydd o dan y môr erbyn hyn oddi ar yr arfordir ger Borth, yn rhybudd amserol i ni heddiw mewn cyfnod o newid yn yr hinsawdd.

Mae arferion, credoau a straeon traddodiadol pobl Ceredigion yn elfen allweddol sy'n ganolog i waith yr amgueddfa'n dehongli ac yn gwarchod ein hetifeddiaeth.

Yn ôl Papur Gwyn a baratowyd gan The American Folklore Society ym mis Chwefror 2015 o'r enw Folklore and Public Policy Working Group on Folklore and Museums, *(Folklore can) "foster a dynamic process for broader community involvement and shared responsibilities, conceptualizing heritage as tied to an idea of "place" where the history of the inhabitants and the physical objects, buildings, and environment are infused with the intangible, such as memories and aspirations. It is a strategy for place based development that honours local networks and relationships, and it plays a role in fostering social capital at the local level."*

Yn ogystal â chael cyfle i ymchwilio i'r casgliad ac ymgysylltu â chymunedau lleol, byddai'r ymarferydd creadigol yn cael ei annog i ddefnyddio straeon am y sir o archifau eraill gan gynnwys Archif Sgrin a Sain Llyfrgell Genedlaethol Cymru, ac Archifdy Ceredigion, a byddai gwirfoddolwyr yn ymchwilio i'r rheiny. Yn ogystal, byddent yn chwilio am straeon a hanes cymdeithasol yn ymwneud â'n casgliadau ni.

Mae llu o bosibiliadau ar gyfer astudio llên gwerin ar gyfer yr elfen hon o'r Lab-gueddfa gan fod llên gwerin yn faes eithriadol o eang. Mae'n cynnwys elfennau chwareus ond mae iddo agwedd ddifrifol sy'n cynnwys:

- **Diwylliant materol:** celfyddyd y werin, pensaernïaeth gynhenid, tecstilau, gwrthrychau wedi'u mas-gynhyrchu a'u haddasu
- **Cerddoriaeth:** cerddoriaeth draddodiadol, werin a cherddoriaeth y byd
- **Naratif:** chwedlau, chwedlau trefol, straeon tylwyth teg, straeon gwerin, hanesion o brofiad personol
- **Celfyddyd lafar:** jôcs, diarhebion, gêmau geiriau
- **Cred a chrefydd:** crefyddau gwerin, defodau a mytholeg
- **Bwyd:** coginio traddodiadol, hen arferion â bwyd, y berthynas rhwng bwyd a diwylliant

**Y Dref**

Dyma drydedd thema'r Lab-gueddfa a byddai'n gyfle i'r amgueddfa gysylltu â'r datblygiadau trefol o'i chwmpas, hanes y trefi a'r pentrefi a'r poblogaethau amrywiol sydd wedi mynd a dod yn y

cymunedau lleol. Mae'r casgliad yn cynnwys arteffactau sy'n ymwneud â hanes llawer o brif siopau a busnesau bach y trefi, fel arwyddion siopau, dillad â brandiau lleol, tuniau becws, recordiau 78rpm, posteri ar gyfer digwyddiadau lleol ac ati. Byddai'r prosiect mewn sefyllfa dda i gydweithio ag adran ddaearyddiaeth Prifysgol Aberystwyth i edrych ar ddatblygiadau allweddol yn nhrefi marchnad Ceredigion o safbwynt diwylliannol, pensaernïol a chymdeithasol. Byddai gwaith y Lab-gueddfa ar 'Y Dref' yn gyfle i uno cymunedau gan eu hadlewyrchu, eu hadnabod a'u hystyried yn rhan hanfodol o brofiad y prosiect ei hunan.

Byddai 'gwib-Lab-gueddfa' yn rhai o drefi Ceredigion yn gyfle i'r ymarferydd creadigol mynd â chasgliad yr amgueddfa i'r gymuned gan gasglu straeon hen a newydd a helpu i adnabod arteffactau o'r casgliad.

**Egwyddorion y Lab-gueddfa**

**Canlyniadau Disgwyliedig**

Bydd ymgais i gyflawni set o nodau craidd ar gyfer pob thema gan adeiladu ar rôl yr amgueddfa fel hyb diwylliannol yn y gymuned. Wrth weithio ar bob thema, bydd y prosiect yn:

- Casglu atgofion, recordiadau sain/gweledol
- Dysgu mwy am ein casgliadau
- Datblygu cysylltiadau cymunedol newydd ac ehangu cynulleidfaoedd
- Ni chaiff gwahanol grwpiau o bobl eu cadw ar wahân, ond chwilir am werthoedd a diddordebau sy'n gyffredin rhyngddynt er mwyn creu cymuned a chymdeithas fwy cydlynol
- Datblygu rolau gwirfoddolwyr a chyfoethogi profiad gwirfoddolwyr

Bydd digideiddio yn elfen hanfodol yn y gwaith ac yn ffordd o gyflawni'r canlyniadau hyn.

**Preswyliadau Artistiaid**

Bydd pob elfen o'r prosiect yn darparu ar gyfer artist ymchwil ar breswyliad. Bydd disgwyl i'r artist weithio o'i stiwdio ei hunan, gyda chefnogaeth y Lab-gueddfa, a chydweithio â'r Labordy ar ddigwyddiadau allanol

**Oriel fodiwlaidd**

Bydd oriel y 'Lab-gueddfa' yn cynnwys arddangosiadau modiwlaidd lle gellir arddangos gwrthrychau ar y gwahanol themâu, dod â nhw allan, eu dehongli ac ymchwilio iddynt er mwyn ennyn trafodaeth (y gellir ei recordio os bydd yn arwyddocaol). Bydd hefyd yn cynnig gwahanol ffyrdd o edrych ar ein casgliad a'i ddeall. Fel rhan o'r broses gyd-guradu, bydd staff yr amgueddfa a grwpiau cymunedol yn cydweithio â'r ymarferydd i newid cynnwys y Lab-gueddfa fel y mae'r grŵp cyfan yn gweld yn dda.

**Rhaglen ysgolion: Bywyd dirgel gwrthrychau**

Mae staff yr amgueddfa wedi cymryd rhan mewn hyfforddiant yn defnyddio casgliadau i feithrin cyfleoedd dysgu creadigol a thrawsgwricwlaidd, yn ystod ymweliadau gan ddisgyblion ac yn yr ystafell ddosbarth. Bydd y staff yn adeiladu ar hyn i ddatblygu gweithdai gan ddefnyddio'r casgliadau sydd yn y Lab-gueddfa ar gyfer disgyblion ysgol a grwpiau eraill o ddysgwyr.

### 3.4.3 Cynulleidfaoedd presennol a rhai newydd ar gyfer y gweithgareddau

Mae gan yr amgueddfa enw da am ymgysylltu â'r gymuned a datblygu cynulleidfaoedd. Bydd y Swyddog Cyswllt Cymunedol (Arwyddocâd a Gwerthoedd y Casgliadau) yn adeiladu ar y perthnasoedd a gafodd eu meithrin yn ystod prosiectau Dulliau Newydd (Cam 1 o'r cynllun ailddatblygu *Trawsnewidiadau*, *Casgliad ar gyfer y Genedl* yw Cam 2) i ymgysylltu â chynulleidfaoedd presennol a rhai newydd yn y Lab-gueddfa ac yng ngweithgareddau ehangach y prosiect.

Mae'r nodiadau isod wedi'u seilio ar waith ymgynghori a gweithgareddau blaenorol ac maent yn cynnwys nifer o grwpiau sy'n rhan o'r gynulleidfa bresennol ac yn gynulleidfa newydd. Mae'r ail golofn yn dangos y prif weithgareddau ymgysylltu posibl

| **Grŵp** | **Prif Weithgareddau Posibl ar gyfer Ymgysylltu** |
|---|---|
| Grŵp Men's Shed Tre'r-ddôl | Rhannu Gwybodaeth, Lab-gueddfa |
| Grŵp Cyfiawnder Ieuenctid | Casglu pethau cyfoes a'r Lab-gueddfa |
| Teuluoedd | Digwyddiadau pob oed a gweithgareddau creadigol yn y Lab-gueddfa |
| Ffermwyr ac Ymarfer y Bobl | Casglu pethau cyfoes a Gwerthoedd |
| Disgyblion ysgol | Bywyd Dirgel Gwrthrychau |
| (Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru) CBHC | Gwybodaeth arbenigol - y casgliad archaeoleg |
| Cwiltwyr | Rhannu gwybodaeth – cwiltiau |
| Pobl hŷn â dementia | Lab-gueddfa |
| Grŵp CHYPS | Gwahanol weithgareddau yn cynnwys dadbacio a phacio gwrthrychau |
| Friends | Gwahanol weithgareddau yn cynnwys dadbacio a phacio gwrthrychau |
| Volunteers | Gwahanol weithgareddau yn cynnwys dadbacio a phacio gwrthrychau |
| Grwpiau'r Gospel Ship | Gwahanol weithgareddau |
| WI a Merched y Wawr | Gweithgareddau'n gysylltiedig â thema 'Y Cartref' |
| Pobl â nam ar eu golwg | Lab-gueddfa |
| Pobl ag awtistiaeth | Gweithgareddau ar adegau tawel neu pan na fydd yr amgueddfa ar agor |
| Grwpiau o ffoaduriaid o Syria | Gweithgareddau'n gysylltiedig â pherthyn a chasglu pethau cyfoes, a gweithgareddau ar y themâu 'Y Cartref' a 'Teithio' |
| Pobl sy'n defnyddio datgelyddion metel | Rhannu Gwybodaeth: Archaeoleg |
| Yr Ysgol Gelf ac Amgueddfa Parc Howard | Rhannu gwybodaeth – y casgliadau celf a chrochenwaith |
| Y Gymdeithas Gerddoriaeth | Perfformiad |
| Gwehyddwyr a Nyddwyr | Rhannu gwybodaeth |
| Age Cymru | Lab-gueddfa |
| Y gymuned LGBTQ+ | Casglu pethau cyfoes a thema Lleisiau'r Gymuned |
| Grwpiau eraill o ymgyrchwyr | Casglu pethau cyfoes a thema Lleisiau'r Gymuned |

## 3.5 Strategaeth codi arian

### 3.5.1 Cyflwyniad

Mae adrannau 3.1-3.4 o'r adroddiad hwn yn nodi'r argymhellion a'r weledigaeth ar gyfer prosiect a fydd yn galluogi'r amgueddfa i greu storfa newydd trwy gynnwys y gymuned ac i greu lleoedd newydd yn yr amgueddfa i'w datblygu yn y dyfodol. Gellid gwireddu'r weledigaeth hon mewn un prosiect neu fel dau neu dri phrosiect o wahanol feintiau. Ar y prif brosiect y bydd y rhan fwyaf o'r costau cyfalaf. Rydym wedi pennu dwy elfen y gellid eu cyflawni'n gynharach fel gwaith paratoi ar gyfer y prif brosiect. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod costau'r prif brosiect yn cael eu cadw o dan £ 2 filiwn. Byddai hyn hefyd yn sicrhau bod costau'r prif brosiect yn cael eu cadw o dan £ 2 filiwn.

Mae'r sefyllfa gyllido bresennol yn gystadleuol gyda mwy o brosiectau nag o'r blaen yn ymgeisio am gyllid. Cyllidwr mwyaf prosiectau cyfalaf yn y sector treftadaeth yw Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol (NLHF) a elwid gynt yn Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Ail-frandiwyd y rhaglen grantiau yn ddiweddar ac erbyn hyn mae ganddi dair ffrwd grantiau – bach, canolig a mawr. Dros y pum mlynedd nesaf bydd y Gronfa'n dyfarnu £1 biliwn i brosiectau treftadaeth yn y Deyrnas Unedig.

*Rydym yn ariannu prosiectau amrywiol sy'n cysylltu pobl a chymunedau â threftadaeth genedlaethol, ranbarthol a lleol y Deyrnas Unedig. Rydym yn ariannu prosiectau treftadaeth. Gall treftadaeth fod yn unrhyw beth o'r gorffennol yr ydych yn ei werthfawrogi ac yn dymuno'i drosglwyddo i genedlaethau'r dyfodol. Gwefan y Gronfa Dreftadaeth.*

| Bach | Canolig | | Mawr |
|---|---|---|---|
| £3k-£10k | £10k-£100k | £100k-£250k | £250k-£5m |
| Penderfyniad 8 wythnos | Penderfyniad 8 wythnos | Dyddiad cau chwarterol<br><br>Penderfyniad 12 wythnos | Dyddiad cau chwarterol<br><br>Penderfyniad 12 wythnos |

Mae i'r grantiau mawr broses dau gam: bydd cais R1 yn cyflwyno’r prosiect cyfan gyda chostau ar gyfer y cyfnod datblygu a'r cyfnod cyflawni. Bydd y cyllid ar gyfer y Cyfnod Datblygu yn galluogi'r amgueddfa i wneud gwaith i ddatblygu'r cynlluniau pensaernïol, y Cynllun Gweithgareddau a'r Cynllun Busnes yn ogystal â chyflwyno'r Cynllun Gwerthuso. Mae strategaeth newydd y Gronfa Dreftadaeth yn cynnwys set ddiwygiedig o ganlyniadau dymunol sy'n canolbwyntio mwy ar yr amgylchedd a lles. Mae hefyd yn cynnwys strategaeth ddigidol sy'n gofyn i ymgeiswyr ymgorffori ffordd ddigidol o feddwl ym mhob prosiect er mwyn sicrhau y gallant fanteisio'n llawn ar dechnoleg newydd i warchod treftadaeth a'i gwneud yn fwy cynhwysol.

Bydd y Gronfa Dreftadaeth yn ariannu hyd at 90% o gost prosiect ond mae prosiect yn fwy deniadol os caiff fwy na 10% o arian cyfatebol. Mae cyfraniad gwirfoddolwyr yn bwysig i unrhyw brosiect. Mae’r Gronfa Dreftadaeth yn ei werthfawrogi ac fe gaiff ei gynnwys fel rhan o’r arian cyfatebol fel incwm ac fel gwariant.

### 3.5.2 Costau

**Y Stiwdio Ddysgu**

Yn ystod y gwaith ar y prosiect dichonoldeb hwn, trefnwyd bod cyllid ar gael gan MALD ac fe wnaed cais (Medi 2019) am gyllid i greu Ystafell Ddysgu yn yr amgueddfa. Bydd hyn yn golygu bod yno le newydd ar gyfer gweithgareddau gyda chynulleidfaoedd amrywiol a bydd hefyd ar gael i'w logi (i gynhyrchu incwm) ac ar gyfer gweithgareddau'r Lab-gueddfa.

**Y prif brosiect**

Nid yw'r costau'n cynnwys TAW

Seilir y costau isod ar gostau a gyfrifwyd trwy waith gan G+T i ddatblygu'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio ar gyfer yr adeilad a'r gweithgareddau y bwriedir eu cynnal ar hyn o bryd.

| | |
|---|---|
| Costau cyfalaf storfa gasgliadau newydd | £1,475,108 |
| Lwfans ar gyfer storio dros dro, bocsys, cwmni symud | £65,000 |
| Ffioedd y tîm dylunio – cyfnod datblygu | £38,500 |
| Ffioedd y tîm dylunio – cyfnod cyflawni | £72,133 |
| Swyddi Casgliadau a Dysgu x 2<br>Amrediad cyflog £24,313 - £26,300 am ddwy flynedd | £105,200 |
| Swyddog Cyswllt Cymunedol<br>Amrediad cyflog £24,313 - £26,300 am ddwy flynedd | £52,600 |
| Swydd Ddigideiddio<br>Amrediad cyflog £24,313 - £26,300 am ddwy flynedd | £52,600 |
| Costau prosiectau ac offer digidol (costau yn adran 3.3 a lwfans ar gyfer offer) | £12,000 |
| Costau gweithgareddau – artist a deunyddiau | £70,000 |
| Cynllun gweithgareddau a chynllun busnes ar gyfer y cyfnod datblygu | £20,000 |
| Gwerthuso | £10,000 |
| **Cyfanswm** | **£1,973,141** |

Mae peth potensial i'r bwriad i gael incwm wrth storio casgliadau sefydliadau eraill a gellid manteisio i'r eithaf ar hyn trwy ehangu'r adeilad i gynnwys 100 metr sgwâr arall a fyddai'n costio £75,000 yn ychwanegol. Nid yw'r incwm a ragwelir ar hyn o bryd yn dangos adenillion cyfatebol ar y buddsoddiad yn y lle ychwanegol hwn, ond gallai gynnig rhagor o gyfleoedd a byddai'n darparu rhagor o le ar gyfer y dyfodol.

### 3.5.3 Y grantiau sydd ar gael

Mae'r tabl isod yn nodi'r grantiau eraill sydd ar gael ac y dylid eu hystyried, naill ai i ariannu elfennau neilltuol o'r prosiect neu fel arian cyfatebol tuag at y prif brosiect.

| Cronfa | Beth wnân nhw ei ariannu |
|---|---|
| The Pilgrim Trust | Mae The Pilgrim Trust yn canolbwyntio ar ariannu dau faes, Cadwraeth ac Ysgolheictod, a Lles Cymdeithasol.<br><br>Mae Cadwraeth ac Ysgolheictod yn cynnwys:<br><br>• Gwaith cadwraeth ac atgyweirio ar adeiladau hanesyddol a nodweddion pensaernïol. |

| | |
|---|---|
| | • Gwaith cadwraeth ar weithiau celf, effemera arwyddocaol, gwrthrychau amgueddfeydd a chofnodion a gedwir mewn amgueddfeydd, orielau, cadwrfeydd ac archifdai arbenigol.<br>• Hyrwyddo gwybodaeth trwy wneud gwaith ymchwil academaidd a'i ledaenu, yn cynnwys catalogio mewn amgueddfeydd, orielau a llyfrgelloedd a sefydliadau lle cedwir cofnodion hanesyddol, gwyddonol neu archaeolegol.<br>• Catalogio archifau a llawysgrifau. |
| John Ellerman Foundation | Ei nod yw hyrwyddo llesiant pobl, cymdeithas a'r byd naturiol trwy ganolbwyntio ar y celfyddydau, yr amgylchedd a gweithredu cymdeithasol<br>• Y Celfyddydau: Crewyr a Churaduron<br>• Yr Amgylchedd: Pobl a'r Blaned<br>• Gweithredu Cymdeithasol: Lleisiau a Chysylltiadau |
| Foyle Foundation | Mae'r sefydliad yn cefnogi elusennau mewn tri phrif faes:<br>• Y Prif Gynllun Grantiau, cefnogi elusennau y mae eu gwaith craidd yn cynnwys y Celfyddydau a Dysgu<br>• Cynllun Llyfrgelloedd Ysgoliion Foyle<br>• Cynllun Grantiau Bach, cefnogi elusennau ym mhob maes sydd â throsiant o lai na £150,000 y flwyddyn |
| Esme Fairbairn Foundation | Mae'n ariannu pum prif sector – Y Celfyddydau, Plant a Phobl Ifanc, yr Amgylchedd, Bwyd a Newid Cymdeithasol.<br><br>Mae'n cynnig tri math o gymorth: grantiau, buddsoddiadau cymdeithasol a Grants Plus.<br>Telir grantiau at gostau craidd neu gostau prosiectau sefydliadau, yn cynnwys cyflogau staff a throsbenion. Nid ydynt yn ariannu costau ar adeiladau na chostau offer, nac unigolion.<br>Cronfa Gasgliadau sy'n cael ei rhedeg gan y Gymdeithas Amgueddfeydd.<br>Grantiau Strategol: hyd at £250,000 dros bum mlynedd i gyfrannu at gyfeiriad strategol y sefydliad sy'n derbyn, gan adael gwaddol hirdymor.<br><br>Grantiau prosiectau: Bydd grantiau llai ar gael ar gyfer prosiectau cyfnod penodol, am ddwy flynedd neu dair, sy'n uchelgeisiol, yn ddyfeisgar neu sy'n treialu ffyrdd newydd o weithio. |
| Wolfson Foundation | **Cyllid ar gyfer lleoedd**<br>Ar gyfer seilwaith cyfalaf h.y. adeiladau (newydd neu adnewyddu) ac offer y mae'r rhan fwyaf o'r cyllid (tuag 85%). Mae'r dyfarniadau hyn yn hybu rhagoriaeth yn y meysydd a ganlyn: addysg; gwyddoniaeth a meddygaeth; y celfyddydau a'r dyniaethau; iechyd ac anabledd.<br><br>**Cyllid ar gyfer pobl**<br>Mae cyfran o'r cyllid (tua 15%) ar gyfer pobl, yn bennaf ar ffurf grantiau ymchwil ac addysg trwy fwrsariaethau, ysgoloriaethau neu gymrodoriaethau. |
| Moondance Foundation | Mae'r Moondance Foundation yn dyrannu cyllid i sefydliadau at ddibenion elusennol cyffredinol. Prif ddiddordebau'r sefydliad yw achosion yng Nghymru, yn cynnwys plant, addysg, pobl oedrannus, lleddfu tlodi a chefnogi pobl sydd â chlefydau / anableddau sy'n amharu ar eu gallu i gerdded. |

#### 3.5.4 Strategaeth ar gyfer codi arian

| **Opsiwn 1** | | |
|---|---|---|
| Cronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol fydd prif ariannwr y prosiect, gyda dwy ran i'r cais, ar gyfer prosiect â chost o £1,973,141 gydag o leiaf £197,315 o arian cyfatebol. | | |
| | **Costau** | **Ariannwr** |
| Cyfnod Datblygu | £58,500 | NLHF ac ymddiriedolaethau |
| Cyfnod Cyflawni | £1,914,641 | NLHF ac ymddiriedolaethau |

| **Opsiwn 2** | | |
|---|---|---|
| Byddai modd gwneud rhai elfennau o'r gwaith naill ai fel rhan o'r Cyfnod Datblygu neu fel rhan gynharach o'r prosiect, ar wahân. Gallai hyn gynnwys archwiliad ac adolygiad o'r casgliadau, a'r asesiad cychwynnol o'u harwyddocâd, gyda chostau dau weithiwr am flwyddyn a chyllideb fach ar gyfer deunyddiau. Gallai hyn fod fel y nodir isod neu gellid cynnwys mwy o gost ar gyfer y cyfnod datblygu gan gyfuno'r ddwy elfen gyntaf ar gyfer prosiect Cyfnod Datblygu ar gost o £114,100. Gellid cyflawni hyn hefyd trwy geisiadau i ymddiriedolaethau fel y Pilgrim Trust a'r Foyle Foundation neu'r John Ellerman Trust am y gwaith o adolygu'r casgliadau a chais i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am £ 1917,541 gyda chyllid cyfatebol o £191,754 o leiaf. | | |
| | **Costau** | **Ariannwr** |
| Adolygiad ac archwiliad o'r casgliadau ac asesiad o'u ahrwyddocâd (2 swydd x 1 flwyddyn & £3,000 ar gyfer deunyddiau) | £55,600 | Ymddiriedolaethau |
| Cyfnod Datblygu | £58,500 | NLHF ac ymddiriedolaethau |
| Cyfnod Cyflawni | £1,859,041 | NLHF ac ymddiriedolaethau |

| **Opsiwn 3** | | |
|---|---|---|
| Fel arall, gellid gwneud peth o'r gwaith digidol ymlaen llaw, ochr yn ochr â'r archwiliad a'r adolygiad o'r casgliadau a'r gwaith cychwynnol ar eu harwyddocâd. Gallai'r ddwy elfen gyntaf fod yn brosiect ar wahân o £93,900 gyda chais i'r NLHF am £1,879,241 a gofyn am arian cyfatebol o £187,924. | | |
| | **Costau** | **Ariannwr** |
| Cyfran o'r costau digidol ymlaen llaw | £38,300 | Ymddiriedolaethau |
| Adolygiad ac archwiliad o'r casgliadau ac asesiad o'u harwyddocâd (2 swydd x 1 flwyddyn & £3,000 ar gyfer deunyddiau) | *£52,600 costau staff*<br>*£3000 deunyddiau*<br>Total £55,600 | Trusts |
| Cyfnod Datblygu | £58,500 | NLHF ac ymddiriedolaethau |
| Cyfnod Cyflawni | £1,820,741 | NLHF ac ymddiriedolaethau |

## 3.6 Potensial masnachol y prosiect

| Cyfle masnachol | Y galw | Incwm posibl |
|---|---|---|
| Prydles swyddfa | Canolig-Uchel | 30% o'r storfa newydd 843 metr sgwâr = 252sqm<br>Os caniateir 25% ar gyfer coridorau ac ati, efallai y bydd 632metr sgwâr o le ar gyfer swyddfeydd<br>632 metr sgwâr @ £72 y metr swâr y flwyddyn, gan ganiatáu ar gyfer cyfradd wacter o 20% = hyd at £36k |
| Rhentu lle storio i sefydliadau eraill sy'n casglu | Canolig | Isel, dim mwy na'r swm cyfartalog yn astudiaeth Historic England, sef £5,765 y flwyddyn |
| Teithiau tywys 'y tu ôl i'r llenni' yn y storfeydd ar gyfer grwpiau diddordeb arbennig | Isel-Canolig | Awgrymir ffi o £3 yr ymwelydd gydag o leiaf 10 ymlwelydd cyn y gellir cynnal taith, 20 o bobl ar gyfartaledd ar bob taith a 10 taith y flwyddyn ar gyfartaledd = £600 |
| Gwerthu delweddau digidol | Isel | Tebygol o wneud colled neu elw bach iawn |
| Llogi lle i gadwraethwyr eraill | Isel iawn neu ddim | - |
| Lle i gydweithio | Dim os bydd yn y storfa newydd<br>Isel-canolig os bydd yn yr amgueddfa | 20 aelod x £60 y mis (5 diwrnod galw heibio bob mis) = hyd at £14k |
| Lle ar gyfer gwaith creadigol | Dim | - |

## Atodiadau

| | |
|---|---|
| A | Canlyniadau'r Adolygiad o'r Casgliadau a'r trosolwg o'r defnydd a wneir o'r casgliadau |
| B | Cyfraniadau at y broses o Asesu Arwyddocâd |
| C | Cyfleusterau storio cymharol |
| D | Gridiau, ffurflenni a thempledi'r adolygiad/archwiliad o'r Casgliadau a'r asesiad o'u harwyddocâd |
| E | Cynllun costau'r adeilad storio |